



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales  
(The Official Record)**

**Dydd Mercher, 3 Rhagfyr 2003**

**Wednesday, 3 December 2003**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio  
Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration
- 16 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth  
Questions to the Minister for Economic Development and Transport
- 29 Datganiad ar Araith y Frenhines gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru  
Statement on the Queen's Speech by the Secretary of State for Wales
- 48 Araith y Frenhines  
The Queen's Speech
- 100 Pwynt o Drefn  
Point of Order
- 100 Dadl Fer: y Gronfa Adfywio Lleol ac Arian Cyfatebol—Bargen Wael i Gymru?  
Short Debate: Local Regeneration Fund and Match Funding—Shortchanging Wales?

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration**

### **Prosiectau Cymunedau yn Gyntaf Communities First Projects**

**Q1 Mick Bates:** Will the Minister make a statement on the progress made with Communities First projects in Montgomeryshire? (OAQ30244)

**The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart):** The Communities First programme in Montgomeryshire comprises the Oldford estate in Welshpool and the Dyfi valley. These areas have been awarded preparatory funding in 2003-04 of £48,746 and £69,900 respectively. To date, Dyfi valley and the Oldford estate have been paid £38,354 and £38,420 respectively. Within north Powys, the programme is led by Powys County Council, and embryonic Communities First partnerships have been established in both areas. Good progress is now being made, and applications for continuation funding up to March 2006 are shortly to be submitted.

Both areas benefited from £160,000 towards play and recreational activities for children and young people and also transport and safety initiatives. The Communities First trust fund has also provided grants of £31,000 to support community groups in these areas.

**Mick Bates:** I will refer in particular to match funding, and the continuation of the Communities First trust fund which, as you say, has paid £31,000 in Montgomeryshire. Can you assure me that that trust fund, which is an important aspect of project match funding, will continue? How do you intend to ensure that decision-making on expenditure from that trust fund is brought closer to local people, so that we can truly empower communities to build a prosperous future?

**C1 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hynt prosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn sir Drefaldwyn? (OAQ30244)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn sir Drefaldwyn yn cynnwys ystâd Oldford yn y Trallwng a dyffryn Dyfi. Dyfarnwyd arian paratoadol o £48,746 a £69,900 i'r ardaloedd hyn yn 2003-04. Hyd yma, talwyd £38,354 i ddyffryn Dyfi a £38,420 i ystâd Oldford. O fewn gogledd Powys, arweinir y rhaglen gan Gyngor Sir Powys, a sefydlwyd partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf embryonig yn y ddwy ardal. Gwneir cynnydd da erbyn hyn, a chaiff ceisiadau am arian parhau hyd at fis Mawrth 2006 eu cyflwyno cyn bo hir.

Bu i'r ddwy ardal elwa ar £160,000 tuag at weithgareddau chwarae a hamdden ar gyfer plant a phobl ifanc a hefyd tuag at fentrau trefniadaeth a diogelwch. Mae cronfa ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf hefyd wedi darparu grantiau o £31,000 i gynorthwyo grwpiau cymunedol yn yr ardaloedd hyn.

**Mick Bates:** Cyfeiriai yn arbennig at arian cyfatebol, a pharhad cronfa ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf, sydd, fel y dywedwch, wedi talu £31,000 yn sir Drefaldwyn. A allwch fy sicrhau y bydd y gronfa ymddiriedolaeth honno, sy'n agwedd bwysig ar arian cyfatebol y prosiect, yn parhau? Sut y bwriadwch sicrhau bod y penderfyniadau a wneir ar wariant o'r gronfa ymddiriedolaeth honno yn dod yn agosach at bobl leol, fel y gallwn ymrymuso cymunedau yng ngwir ystyr y gair i adeiladu dyfodol llewyrchus?

**Edwina Hart:** I am satisfied that the Communities First trust fund is being administered properly, and is taking local needs into account. The future of the fund was raised with me in Committee today, and I am considering this issue.

**Helen Mary Jones:** Would you agree that the existence of need for Communities First projects in rural areas like Montgomeryshire demonstrates that poverty does not stop at the Heads of the Valleys road or at the Loughor river, despite what some of your colleagues think? Would you consider the extent to which Welsh-speaking communities are making maximum use of Communities First? To what extent would it be possible, using the communities of interest criteria, to extend Communities First money to some of the poorest Welsh-speaking communities?

**Edwina Hart:** There is an issue about communities of interest criteria. As you are aware, when we introduced Communities First, local authorities were able to look imaginatively at communities of interest and sub-ward issues; some local authorities may not have done so. There is an opportunity to further explore that issue. Poverty is found where poverty exists—irrespective of whether that is in rural or urban Wales. We must tackle poverty with this imaginative programme.

The issue of language was also discussed in Committee this morning. As I said, the Government is fully committed to a language policy, and deals with Welsh-speaking areas through all its programmes, including Communities First.

**Edwina Hart:** Yr wyf yn fodlon bod cronfa ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei gweinyddu'n briodol, a'i bod yn ystyried anghenion lleol. Codwyd dyfodol y gronfa gyda mi yn y Pwyllgor heddiw, ac yr wyf yn ystyried y mater.

**Helen Mary Jones:** A fyddech yn cytuno bod yr angen am brosiectau Cymunedau yn Gyntaf mewn ardaloedd gwledig fel sir Drefaldwyn yn dangos bod tlodi yn ymestyn y tu hwnt i Ffordd Blaenau'r Cymoedd ac afon Llwechwr, er gwaetha'r hyn a gred rhai o'ch cyd-Aelodau? A fyddech yn ystyried i ba raddau y mae cymunedau Cymraeg eu hiaith yn gwneud y defnydd mwyaf posibl o Cymunedau yn Gyntaf? I ba raddau y byddai'n bosibl, gan ddefnyddio meini prawf cymunedau o ddiddordeb, i ymestyn arian Cymunedau yn Gyntaf i rai o'r cymunedau Cymraeg eu hiaith tlotaf?

**Edwina Hart:** Ceir problem ynghylch meini prawf cymunedau o ddiddordeb. Fel y gwyddoch, pan gyflwynasom Cymunedau yn Gyntaf, yr oedd awdurdodau lleol yn gallu edrych yn ddychmygus ar faterion yn ymwneud â chymunedau o ddiddordeb ac is-wardiau; efallai nad yw rhai awdurdodau lleol wedi gwneud hynny. Mae cyfle i ymchwilio i'r mater hwnnw ymhellach. Canfyddir tlodi lle bynnag y mae'n bodoli—pa un a yw yng nghefn gwlad Cymru neu yn nhrefi Cymru. Rhaid inni fynd i'r afael â thlodi gyda'r rhaglen llawn dychymyg hon.

Trafodwyd iaith yn y Pwyllgor y bore yma hefyd. Fel y dywedais, mae'r Llywodraeth yn gwbl ymrwymedig i bolisi iaith, ac mae'n ymdrin ag ardaloedd Cymraeg eu hiaith drwy gyfrwng pob un o'i raglenni, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf.

### **Y Cynllun Cymorth Prynu Cartref Homebuy Scheme**

**Q2 Glyn Davies:** What plans does the Minister have to promote the homebuy scheme? (OAQ30232)

**Edwina Hart:** It is a matter for local authorities to establish priorities for meeting housing needs in their areas, including the proportions of available resources to be

**C2 Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i hyrwyddo'r cynllun cymorth prynu cartref? (OAQ30232)

**Edwina Hart:** Mater i awdurdodau lleol yw sefydlu blaenoriaethau ar gyfer diwallu anghenion tai yn eu hardaloedd, gan gynnwys y gyfran o adnoddau sydd ar gael i'w

allocated to the homebuy scheme. The Assembly Government has published an explanatory booklet that may be used by authorities wishing to promote the scheme in their areas.

**Glyn Davies:** Do you accept that the homebuy scheme has the potential to provide a great deal of help to young people facing difficulties in acquiring houses in their areas, and that the budget should be substantially increased? A budget should be specifically identified for that purpose, and the share of the property that buyers must acquire should be reduced to take account of the rising housing market.

**Edwina Hart:** There are big issues concerning people who wish to get onto the housing ladder. We must be innovative in our approach to this issue. Not everyone wants to buy; there could be a mixture of, say, 50 per cent ownership/50 per cent rental. On homebuy, £18.5 million was made available to local authorities in rural Wales to support affordable housing for rent. Of their budgets, rural authorities have chosen to allocate just £2.6 million for homebuy.

**Alun Ffred Jones:** Mae'r Gweinidog yn ymwybodol bod y cynllun prynu cartref yn llai effeithiol mewn ardaloedd lle mae prisiau tai wedi cynyddu yn afresymol yn ystod y blynyddoedd diwethaf; yn wir, mewn rhai ardaloedd mae'n amhosibl defnyddio'r cynllun hwn i brynu tai. Beth yw'r ateb i'r broblem hon yn yr ardaloedd hynny?

**Edwina Hart:** The Committee has been discussing the issue of rural homebuy. Rhodri Glyn Thomas raised a number of points at today's Committee meeting about the homebuy issue. I have indicated that, when I receive local authorities' full plans of their housing priorities and needs, I will look at the rural authorities in particular to see what issues arise with regard to those needs on balance. I will then report back to Committee.

dyrannu i'r cynllun cymorth prynu cartref. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi llyfryn eglurhaol y gellir ei ddefnyddio gan awdurdodau sy'n dymuno hybu'r cynllun yn eu hardaloedd.

**Glyn Davies:** A dderbyniwch fod potensial gan y cynllun cymorth prynu cartref i roi cryn gymorth i bobl ifanc sy'n wynebu anawsterau o ran prynu tai yn eu hardaloedd, ac y dylid cynyddu'r gyllideb yn sylweddol? Dylid nodi cyllideb yn benodol at y diben hwnnw, a dylai cyfran yr eiddo y mae'n rhaid i brynwyr ei brynu leihau er mwyn ystyried y farchnad dai sydd ar gynnydd.

**Edwina Hart:** Mae materion o bwys yn ymwneud â phobl sy'n dymuno camu ar yr ysgol eiddo. Rhaid inni fod yn ddyfeisgar yn ein hymagwedd tuag at y mater hwn. Nid pawb sydd am brynu; gallai fod cymysgedd o, 50 y cant o berchnogaeth/50 y cant yn rhentu, dyweder. O ran y cynllun cymorth prynu cartref, rhyddhawyd £18.5 miliwn i awdurdodau lleol yng Nghymru wledig i gynorthwyo tai fforddiadwy i'w rhentu. O'u cyllidebau, dim ond £2.6 miliwn y dewisodd awdurdodau gwledig ei ddyrannu ar gyfer y cynllun cymorth prynu cartref.

**Alun Ffred Jones:** The Minister is aware that the homebuy scheme is less effective in areas where house prices have increased excessively over the last few years; it is, indeed, impossible to use the scheme to buy a house in some areas. What is the answer to this problem in those areas?

**Edwina Hart:** Bu'r Pwyllgor yn trafod y cymorth prynu cartref yng nghefn gwlad. Cododd Rhodri Glyn Thomas nifer o bwyntiau yng nghyfarfod y Pwyllgor heddiw ynghylch cymorth prynu cartref. Yr wyf wedi nodi, pan yr wyf yn derbyn cynlluniau llawn awdurdodau lleol o'u blaenoriaethau ac anghenion tai, y byddaf yn edrych yn benodol ar awdurdodau gwledig i weld pa faterion sy'n codi mewn perthynas â'r anghenion hynny. Byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar ôl hynny.

**Adolygu Cynllun Cymunedau yn Gyntaf**  
**The Review of Communities First**

**Q3 Jeff Cuthbert:** Would the Minister make a statement on the review of Communities First? (OAQ30158)

**Edwina Hart:** The review of Communities First by Huw Lewis, the Deputy Minister, has been completed. The report was presented to the Social Justice and Regeneration Committee today.

**Jeff Cuthbert:** Given the early success of Communities First projects, such as those at Graig y Rhacca and Lansbury Park in my constituency—which have seen high-quality multi-use games areas built, which have been a roaring success among local youngsters and parents, though not necessarily for the same reasons—can you confirm that this aspect of the Communities First programme will continue?

**Edwina Hart:** It is up to local communities what they do; the purpose of Communities First is to realise the ideas that communities have, particularly those of young people with regard to the facilities that they want. Alun Pugh and I have discussed this in terms of working across our portfolios, and it does feature in the future work of Communities First.

**Leanne Wood:** I welcome the review presented to the Committee this morning. Have any other reviews been conducted into the Communities First programme within the Assembly or by consultants? If so, what are the outcomes of those reviews and what action does the Government intend to take as a result?

**Edwina Hart:** I would not want to mislead the Assembly, so I will check whether my officials are aware of any reviews that impact on Communities First, and place a detailed letter in the Library.

**Lisa Francis:** With regard to the changes to the Welsh European Funding Office announced by the Minister for Economic Development and Transport on 24

**C3 Jeff Cuthbert:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr adolygiad o'r cynllun Cymunedau yn Gyntaf? (OAQ30158)

**Edwina Hart:** Mae'r adolygiad o Cymunedau yn Gyntaf gan Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog, wedi ei gwblhau. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio heddiw.

**Jeff Cuthbert:** O gofio llwyddiant cynnar prosiectau Cymunedau yn Gyntaf, megis y rhai yng Nghraig y Rhacca a Pharc Lansbury yn fy etholaeth i—lle y gwelwyd ardaloedd gemau aml-ddefnydd o ansawdd uchel yn cael eu hadeiladu, a fu'n llwyddiant ysgubol ymysg ieuenctid lleol a'u rhieni, er nad am yr un rhesymau o anghenraid—a allwch gadarnhau y bydd yr agwedd hon ar raglen Cymunedau yn Gyntaf yn parhau?

**Edwina Hart:** Cymunedau lleol sydd i benderfynu ar yr hyn y maent yn ei wneud; diben Cymunedau yn Gyntaf yw gwireddu'r syniadau sydd gan gymunedau, yn arbennig rhai pobl ifanc mewn perthynas â'r cyfleusterau y maent am eu cael. Mae Alun Pugh a minnau wedi trafod hyn o ran gweithio ar draws ein portffolios, ac mae'n rhan o waith Cymunedau yn Gyntaf yn y dyfodol.

**Leanne Wood:** Croesawaf yr adolygiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor y bore yma. A oes unrhyw adolygiadau eraill wedi eu cynnal o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf o fewn y Cynulliad neu gan ymgynghorwyr? Os felly, beth yw canlyniadau'r adolygiadau hynny a pha gamau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad?

**Edwina Hart:** Ni fyddwn am gamarwain y Cynulliad, felly gwiriaf a yw fy swyddogion yn ymwybodol o unrhyw adolygiadau sy'n effeithio ar Gymunedau yn Gyntaf, a rhoddaf lythyr manwl yn y Llyfrgell.

**Lisa Francis:** Mewn perthynas â'r newidiadau i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar 24

September, will the new in-house arrangements mean that a separate set of accounts and an annual report will no longer be needed for Communities First projects?

**Edwina Hart:** I will ensure that the audit trail for Communities First projects is correct and I welcome the changes that Andrew Davies has made in respect of WEFO.

Medi, a fydd y trefniadau mewnol newydd yn golygu na fydd angen cyfres o gyfrifon ac adroddiad blynyddol ar wahân mwyach ar gyfer prosiectau Cymunedau yn Gyntaf?

**Edwina Hart:** Sicrhaf fod y trywydd archwilio ar gyfer prosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn gywir a chroesawaf y newidiadau a wnaeth Andrew Davies mewn perthynas â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

### **Deddfwriaeth ar Ddigartrefedd Homelessness Legislation**

**Q4 Rosemary Butler:** Would the Minister give an update on the review of the implementation of homelessness legislation by local authorities? (OAQ30229)

**Edwina Hart:** The review has been completed, and I presented an executive summary of the report to the Social Justice and Regeneration Committee on 12 November. I will provide my response to the recommendations to the Committee in the new year.

I am concerned about the performance of some authorities and the priorities given to tackling the problem. The report, together with other information, highlights inconsistencies of approach among authorities. As a result, I will discuss the report's findings with the leader of the Welsh Local Government Association, and will meet local authority members and senior officials in due course.

**Rosemary Butler:** Thank you for that full answer, Minister. I am sure that you would agree that there are many reasons why people are homeless. They may have just come out of prison, it may be due to drug and alcohol abuse, or family or business breakdown. However, a large number of homeless people are mentally ill, and I would like to highlight the excellent work of Newport Action for the Single Homeless across the board. Will you, as Minister with responsibility for social justice, review the services and funding streams allocated to help those with mental illness to ensure that money is used in the most effective way?

**C4 Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn mynd ati i weithredu'r deddfwriaeth ar ddigartrefedd? (OAQ30229)

**Edwina Hart:** Cwblhawyd yr adolygiad, a chyflwynais grynodedb gweithredol o'r adroddiad i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 12 Tachwedd. Byddaf yn rhoi fy ymateb i'r argymhellion i'r Pwyllgor yn y flwyddyn newydd.

Yr wyf yn bryderus ynglŷn â pherfformiad rhai awdurdodau a'r blaenoriaethau a roddir i fynd i'r afael â'r broblem. Mae'r adroddiad, ynghyd â gwybodaeth arall, yn amlygu ymagwedd anghyson ymysg awdurdodau. O ganlyniad, byddaf yn trafod canfyddiadau'r adroddiad gydag arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a byddaf yn cyfarfod ag aelodau awdurdodau lleol ac uwch swyddogion maes o law.

**Rosemary Butler:** Diolch am yr ateb llawn hwnnw, Weinidog. Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod sawl rheswm pam mae pobl yn ddigartref. Efallai eu bod newydd ddod allan o'r carchar, efallai eu bod yn camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, neu fod anghydfod teuluol neu fusnes wedi methu. Fodd bynnag, mae salwch meddwl gan nifer fawr o bobl ddigartref, a hoffwn amlygu gwaith rhagorol Newport Action for the Single Homeless ar draws y maes hwn. A wnewch chi, fel Gweinidog â chyfrifoldeb dros gyfiawnder cymdeithasol, adolygu'r gwasanaethau a'r llifau arian a ddyrannwyd i gynorthwyo'r rhai â salwch meddwl er mwyn sicrhau y defnyddir arian yn y ffordd fwyaf effeithiol?

**Edwina Hart:** The issue of mental illness and homelessness frequently crops up in my discussions with the voluntary sector. I commend the voluntary sector, particularly NASH, on its excellent work. You have my assurance that I will look closely at this issue, because grave reservations have been expressed across Wales about how we are dealing with it.

**William Graham:** Do you agree that an aspect of homelessness that is often overlooked is the failure to engage the public and private sectors in making use of the 6,200 vacant dwellings in Wales, of which over 2,500 have been vacant for more than six months? As the Minister has mentioned this in Committee previously, could she outline how we can use such properties, particularly those in rural areas, to alleviate homelessness?

**Edwina Hart:** It is important that we avail ourselves of all available accommodation in order to deal with homelessness. However, we must not just see this as a housing issue. Sometimes people require additional assistance, because they have mental health problems, or because they are young people. We must consider this in the round. However, I would be delighted to undertake further work on that and include it in my ministerial report to the Committee.

**Jocelyn Davies:** The number of homeless people forced into temporary and bed and breakfast accommodation each night has risen to over 2,000. Local authorities say that there is a severe shortage of social housing, and we know that rising debt problems can lead to evictions. Has the Minister considered schemes to help to prevent evictions, such as a homelessness prevention fund?

2.10 p.m.

**Edwina Hart:** We are looking at all these issues to do with eviction. It is important that we tackle at the first level the problems that people have in keeping a home. You made an interesting point concerning debt in light of the report from the Welsh Consumer Council,

**Edwina Hart:** Mae salwch meddwl a digartrefedd yn codi'n aml yn fy nhrefnadaethau â'r sector gwirfoddol. Canmolaf y sector gwirfoddol, a NASH yn arbennig, am ei waith rhagorol. Gallaf eich sicrhau y byddaf yn edrych ar y mater hwn yn ofalus, gan y mynegwyd pryderon dwys ledled Cymru am y ffordd yr ydym yn ymdrin ag ef.

**William Graham:** A gytunwch mai agwedd ar ddigartrefedd a esgeulusir yn aml yw'r methiant i gysylltu â'r sector cyhoeddus a'r sector preifat o ran gwneud defnydd o'r 6,200 o anheddau gwag yng Nghymru, y bu dros 2,500 ohonynt yn wag ers mwy na chwe mis? Gan i'r Gweinidog sôn am hyn yn y Pwyllgor o'r blaen, a allai amlinellu sut y gallwn ddefnyddio eiddo o'r fath, yn arbennig y rhai mewn ardaloedd gwledig, er mwyn lleddfu'r broblem ddigartrefedd?

**Edwina Hart:** Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio'r holl lety sydd ar gael er mwyn ymdrin â digartrefedd. Fodd bynnag, ni ddylem ystyried hyn fel mater yn ymwneud â thai yn unig. Mae pobl angen cymorth ychwanegol weithiau, oherwydd bod ganddynt broblemau iechyd meddwl, neu oherwydd eu bod yn bobl ifanc. Rhaid inni ystyried pob agwedd ar hynny. Fodd bynnag, byddai'n bleser gennyf wneud rhagor o waith ar hynny a'i gynnwys yn fy adroddiad gweinidogol i'r Pwyllgor.

**Jocelyn Davies:** Mae nifer y bobl ddigartref a gaiff eu gorfodi i aros mewn llety gwely a brechwast dros dro bob nos wedi cynyddu i dros 2,000. Dywed awdurdodau lleol bod prinder dybryd o dai cymdeithasol, a gwyddom y gall problemau gyda dyledion cynyddol arwain at ddadfeddiannu. A yw'r Gweinidog wedi ystyried cynlluniau i helpu i atal dadfeddiannu, megis cronfa atal digartrefedd?

**Edwina Hart:** Yr ydym yn edrych ar yr holl faterion sy'n ymwneud â dadfeddiannu. Mae'n bwysig ein bod yn mynd i'r afael â'r problemau a gaiff pobl i gadw cartref i ddechrau. Gwnaethoch bwynt diddorol ynghylch dyled yng ngoleuni'r adroddiad gan



launched yesterday, about the problems of people on low incomes—how they get deep into debt and how that impacts on them. I will consider that issue.

Gyngor Defnyddwyr Cymru, a lanswyd ddoe, ynghylch problemau pobl ar incwm isel—sut y maent yn mynd i ddyledion mawr a sut mae hynny'n effeithio arnynt. Byddaf yn ystyried y mater hwnnw.

### **Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl Disabled Facilities Grants**

**Q5 Peter Black:** What discussions has the Minister had with local councils regarding disabled facilities grants? (OAQ30247)

**C5 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chynghorau lleol ynghylch grantiau cyfleusterau i'r anabl? (OAQ30247)

**Edwina Hart:** We have given local authorities extensive guidance on disabled facilities grants, including advice on good practice and the importance of prioritising help to those in greatest need.

**Edwina Hart:** Yr ydym wedi rhoi arweiniad helaeth i awdurdodau lleol ar grantiau cyfleusterau i'r anabl, gan gynnwys cyngor ar arfer da a phwysigrwydd blaenoriaethu cymorth i'r rhai mwyaf anghenus.

**Peter Black:** Minister, you will be aware of my concern regarding the reduced capital moneys that will be available to local councils next year for grants, the vast majority of which are disabled facilities grants. Will you give an undertaking that, as that money is passed on to local councils, you will monitor the situation with regard to how long people have to wait for disabled facilities grants to see whether there is a marked deterioration in the length of time that people have to wait? If there is a deterioration, will you consider putting in further resources to try to meet that need?

**Peter Black:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'm pryder ynghylch yr arian cyfalaf gostyngedig a fydd ar gael i gynghorau lleol y flwyddyn nesaf ar gyfer grantiau, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn grantiau cyfleusterau i'r anabl. A wnewch addewid, wrth i'r arian hwnnw gael ei drosglwyddo i gynghorau lleol, y byddwch yn monitro'r sefyllfa o ran pa mor hir y mae'n rhaid i bobl aros am grantiau cyfleusterau i'r anabl er mwyn gweld a oes dirywiad amlwg o ran yr amser y mae'n rhaid i bobl aros? Os bydd dirywiad, a wnewch ystyried ymrwymo rhagor o adnoddau er mwyn ceisio diwallu'r angen hwnnw?

**Edwina Hart:** When we review the disabled facility grants, which I have indicated to Committee that I am doing—and I will share the terms of reference for the review with Committee members, so that they can have an input—these issues of timescale and how long they take will arise. There are particular issues concerning children who receive disabled facility grants, which we have to tackle. In light of your comments, I will speak to Sue Essex, the Minister with responsibility for local government, about what further discussions we can have with the Welsh Local Government Association on these matters.

**Edwina Hart:** Pan fyddwn yn adolygu'r grantiau cyfleusterau i'r anabl, a dywedais wrth y Pwyllgor fy mod yn gwneud hynny—a byddaf yn rhannu'r cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad gydag aelodau'r Pwyllgor, fel eu bod yn gallu rhoi mewnbwn—bydd y materion hyn o ran terfynau amser a pha mor hir y byddent yn eu cymryd yn codi. Ceir materion arbennig sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn grantiau cyfleusterau i'r anabl, y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â hwy. Yng ngoleuni eich sylwadau, siaradaf â Sue Essex, y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros lywodraeth leol, ynghylch pa drafodaethau pellach y gallwn eu cael â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am y materion hyn.

**David Lloyd:** Ymhellach ar hynny, mae'r oedi ynghylch y grantiau yn peri cryn ofid.

**David Lloyd:** Further to that, the delays before receiving the grants is causing

Pa fesurau newydd y byddwch yn eu gweithredu i dorri i lawr ar y rhestrau aros hir am y grantiau hyn?

**Edwina Hart:** I have just begun the review of disabled facilities grants, and all of those issues will be dealt with at the end of the review period.

**Laura Anne Jones:** It was reported that the disabled and elderly in Torfaen, in my constituency, may lose some of their home care and support services over the next year as part of the £241,000 savings package. Apparently, social services plan to raise the eligibility threshold when people are assessed as to the level of support that they need, which would mean that those who rely on basic home help and practical support will lose out. This is obviously of great concern to the elderly and disabled in this area and could put immense pressure on their families. Would the Minister comment on these reports, and, as Peter Black has already asked, would she also state whether the Government will address this issue?

**Edwina Hart:** You are referring to some of the home care arrangements, which are a matter for the local authority. However, if I can find out any further information, I will let you have it.

considerable anxiety. What new measures will you implement in order to reduce the long waiting lists for these grants?

**Edwina Hart:** Yr wyf newydd gychwyn yr adolygiad o grantiau cyfleusterau i'r anabl, ac ymdrinnir â'r holl faterion hynny ar ddiwedd cyfnod yr adolygiad.

**Laura Anne Jones:** Dywedwyd y gallai pobl anabl a'r henoed yn Nhor-faen, yn fy etholaeth i, golli rhywfaint o'u gwasanaethau gofal a chymorth yn y cartref yn ystod y flwyddyn nesaf fel rhan o'r pecyn arbedion gwerth £241,000. Yn ôl pob sôn, mae gwasanaethau cymdeithasol yn bwriadu codi'r trothwy cymhwyso pan gaiff pobl eu hasesu ar gyfer y cymorth sydd ei angen arnynt, a fyddai'n golygu y byddai'r rhai sy'n dibynnu ar gymorth cartref sylfaenol a chymorth ymarferol ar eu colled. Mae hyn yn amlwg yn destun pryder mawr i'r henoed a'r anabl yn yr ardal hon a gallai roi pwysau aruthrol ar eu teuluoedd. A wnaiff y Gweinidog sylwadau ar yr adroddiadau hyn, ac, fel y gofynnodd Peter Black eisoes, a wnaiff hefyd ddatgan a fydd y Llywodraeth yn ymdrin â'r mater hwn?

**Edwina Hart:** Yr ydych yn cyfeirio at rai o'r trefniadau gofal cartref, sy'n fater i'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, os gallaf ganfod unrhyw wybodaeth bellach, fe'i rhoddaf ichi.

### **Adfywio Cymunedol yn Llanrhyddni Community Regeneration in Llanrumney**

**Q6 Owen John Thomas:** Will the Minister make a statement on community regeneration in Llanrumney? (OAQ30160)

**Edwina Hart:** Llanrumney is ranked 125 in the Welsh index of multiple deprivation, and I welcome the positive initiatives in this area. I have allocated £7.74 million in social housing grant to Cardiff County Council in 2003-04. From that, Cardiff has chosen to allocate around £420,000 to provide affordable housing at two sites in Llanrumney. Estate partnership schemes are also underway, and are making significant improvements, including providing walls and railings to provide defensible space, and security at blocks of flats through lighting

**C6 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adfywio cymunedol yn Llanrhyddni? (OAQ30160)

**Edwina Hart:** Mae Llanrhyddni yn rhif 125 ym mynegai amlamddifadedd Cymru, a chroesawaf y mentrau cadarnhaol yn yr ardal hon. Yr wyf wedi dyrannu £7.74 miliwn mewn grant tai cymdeithasol i Gyngor Sir Caerdydd yn 2003-04. O hynny, dewisodd Caerdydd ddyrannu tua £420,000 i ddarparu tai fforddiadwy ar ddau safle yn Llanrhyddni. Mae cynlluniau partneriaeth ystadau hefyd yn mynd rhagddynt, ac maent yn gwneud gwelliannau sylweddol, gan gynnwys darparu waliau a rheiliau er mwyn darparu lle amddiffynadwy, a diogelwch mewn blociau o

and closed circuit television. Other available regeneration funds include the local authorities non-match local regeneration fund and the community facilities and activities programme. An unsuccessful application to the local authorities non-match local regeneration fund was made in 2001 for the redevelopment of shops in Countisbury Avenue, but no other applications have been received for the Llanrumney area.

**Owen John Thomas:** Many local people became pro-active in the plans for progressive schemes in the Regeneration Forum in Llanrumney, but the councillors did not like the fact that the locals were so involved and moved the community co-ordinator to another area. As a result, many schemes that were on the verge of taking off have not done so. How do you monitor and review councils' work on regeneration schemes, and will you look specifically at the regeneration scheme in Llanrumney?

**Edwina Hart:** I am satisfied with the work that the local authority has undertaken in Llanrumney. The council and the police are working together on a number of projects. There are phase one improvements in some of the avenue shops, and the Burnham Avenue shops are also being progressed. We have to understand that these are matters for local democratic control. In terms of what councillors undertake, I have an overview of what happens in all Communities First projects and, if legitimate complaints are made, I will take them up.

**Lorraine Barrett:** I have some positive comments on community regeneration in Llanrumney, Minister. Will you join me in welcoming the efforts of Cardiff council and the Llanrumney Healthy Living Centre, which uses Welsh Assembly Government money to support projects such as the play centre at the Barn, the young mothers' clubs at Eastern Leisure Centre, and the many significant projects for children at Llanrumney High School, all of which go towards building community regeneration?

**Edwina Hart:** I will join you in welcoming

fflatiau drwy gyfrwng goleuadau a theledu cylch cyfyng. Mae cronfeydd adfywio eraill yn cynnwys cronfa adfywio lleol awdurdodau lleol nad yw'n arian cyfatebol a'r cyfleusterau cymunedol a'r rhaglen weithgareddau. Gwnaethpwyd cais aflwyddiannus i gronfa adfywio lleol awdurdodau lleol nad yw'n arian cyfatebol yn 2001 ar gyfer ailddatblygu siopau yn Countisbury Avenue, ond ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau eraill ar gyfer ardal Llanrhymini.

**Owen John Thomas:** Daeth nifer o bobl leol yn rhagweithiol o ran y cynlluniau blaengar yn y Fforwm Adfywio yn Llanrhymini, ond nid oedd y cynghorwyr yn hoffi'r ffaith bod pobl leol yn chwarae gymaint o ran a symudasant y cydlynnydd cymunedol i ardal arall. O ganlyniad, ni chyflwynwyd nifer o gynlluniau a oedd ar fin cael eu rhoi ar waith. Sut ydych yn monitro ac adolygu gwaith cynghorau ar gynlluniau adfywio, ac a wnewch edrych yn benodol ar y cynllun adfywio yn Llanrhymini?

**Edwina Hart:** Yr wyf yn fodlon ar y gwaith a wnaeth yr awdurdod lleol yn Llanrhymini. Mae'r cyngor a'r heddlu yn cydweithio ar nifer o brosiectau. Ceir gwelliannau cyfnod un mewn rhai o siopau'r stryd, a gwneir cynydd ar siopau Burnham Avenue hefyd. Rhaid inni ddeall mai materion ar gyfer rheolaeth ddemocrataidd leol yw'r rhain. O ran yr hyn y mae cynghorwyr yn ymgymryd ag ef, mae gennyf drosolwg o'r hyn sy'n digwydd ym mhob prosiect Cymunedau yn Gyntaf ac, os gwneir cwynion dilys, byddaf yn eu hystyried.

**Lorraine Barrett:** Mae gennyf rai sylwadau cadarnhaol ynghylch adfywio cymunedol yn Llanrhymini, Weinidog. A ymunwch â mi i groesawu ymdrechion cyngor Caerdydd a Chanolfan Byw'n Iach Llanrhymini, sy'n defnyddio arian Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo prosiectau megis y ganolfan chwarae yn y *Barn*, y clybiau mamau ifanc yng Nghanolfan Hamdden Eastern, a'r prosiectau arwyddocaol niferus ar gyfer plant yn Ysgol Uwchradd Llanrhymini, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu tuag at adfywio cymunedol?

**Edwina Hart:** Ymunaf â chi i groesawu

that, Lorraine, because there has been positive action in Llanrumney. I am particularly pleased by the work of Llanrumney High School, which is now considering new outdoor recreational facilities as part of the programme for physical education and sport in schools, a programme which is funded by the new opportunities fund. You can see the innovation that is taking place with the support of the local community.

hynny, Lorraine, oherwydd cymerwyd camau cadarnhaol yn Llanrhyddni. Yr wyf yn arbennig o falch o waith Ysgol Uwchradd Llanrhyddni, sydd bellach yn ystyried cyfleusterau hamdden awyr agored newydd fel rhan o'r rhaglen ar gyfer addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion, sy'n rhaglen a ariennir gan y gronfa cyfleoedd newydd. Gallwch weld yr arloesi sy'n digwydd gyda chymorth y gymuned leol.

### **Bwrglery ac Ysbeilio Burglary and Robbery**

**Q7 David Melding:** What discussions has the Minister had with the police regarding steps to address burglary and robbery in south Wales? (OAQ30149)

**C7 David Melding:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r heddlu ynghylch mynd i'r afael â bwrglery ac ysbeilio yn ne Cymru? (OAQ30149)

**Edwina Hart:** I have regular discussions with the four chief constables and the police authorities for Wales, covering a wide range of issues relating to policing, including the current trends for various types of crime.

**Edwina Hart:** Caf drafodaethau rheolaidd gyda'r pedwar prif gwnstabl ac awdurdodau heddlu Cymru, sy'n cwmpasu amrywiaeth helaeth o faterion yn ymwneud â phlisma, gan gynnwys y tueddiadau presennol ar gyfer mathau amrywiol o droseddau.

**David Melding:** Do you agree that, when it comes to successfully regenerating and sustaining communities, law and order and safety are important? We should remember that and place them at the fore in order to restore confidence and morale in the community.

**David Melding:** A gytunwch, o ran adfywio a chynnal cymunedau yn llwyddiannus, fod cyfraith a threfn a diogelwch yn bwysig? Dylem gofio hynny a rhoi blaenoriaeth iddynt er mwyn adfer hyder ac ysbryd y gymuned.

**Edwina Hart:** I agree, and the way in which South Wales Police is bringing in 63 community support officers will help to free up police officers for frontline duties. We must also recognise that there has been a significant and sustained fall in robbery statistics in certain areas, as well as our work to make houses safer through the Bobby Van scheme, which helps with people's security, although there is much more to be done in terms of security in open spaces.

**Edwina Hart:** Cytunaf, a bydd y modd y mae Heddlu De Cymru yn cyflwyno 63 o swyddogion cymorth cymunedol o gymorth i ryddhau swyddogion yr heddlu ar gyfer dyletswyddau rheng flaen. Rhaid inni hefyd gydnabod y bu cwmp sylweddol a chynaliadwy mewn ystadegau lladradau mewn rhai ardaloedd, yn ogystal â'n gwaith i wneud tai yn fwy diogel drwy gyfrwng cynllun Bobby Van, sy'n helpu gyda diogelwch pobl, er bod llawer mwy i'w wneud o ran diogelwch mewn mannau agored.

### **Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth Licensing Houses in Multiple Occupation**

**Q8 The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** Will the Minister make a statement on the

**C8 Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am

licensing of houses in multiple occupation?  
(OAQ30239)

**Edwina Hart:** We are committed to the proposals for licensing houses in multiple occupation contained in the Housing Bill, which was announced in the Queen's Speech.

**Michael German:** I understand that the Housing Bill will propose a national licensing scheme. Will that scheme be a Wales-only scheme or is it for the United Kingdom? If it is not for Wales alone, what issues is it crucial to ensure are included in the Bill so that the Assembly has the powers to deal with what is a difficult situation in many of Wales's urban areas?

**Edwina Hart:** Secondary legislation will give the Assembly powers to introduce schemes that are tailored to Welsh needs. We will discuss the Housing Bill and its implementation in the Local Government and Public Services Committee, where, I am sure, your points will be taken on board.

**Leighton Andrews:** Do you agree that that Bill is important for many of our Valleys communities, which have had difficulties with landlords buying up properties cheaply? In some cases, though not all, those landlords have been unscrupulous and have not invested in those properties or given the support that tenants and the wider community need.

**Edwina Hart:** You are absolutely correct. Licensing houses in multiple occupation will help to ensure that such properties are safer, better managed and provide more acceptable living conditions. That is the aim across Wales.

**Brynle Williams:** A report published in July by the Small Landlords Association stated that houses in multiple occupation are six times more likely to be at risk from fire than houses with single occupants. In the light of this worrying information, can you advise Members of the latest discussions that you have had with your counterparts in Westminster, and when do you anticipate that Wales will discuss the legislation on the

drwyddedu tai amlfeddiannaeth?  
(OAQ30239)

**Edwina Hart:** Yr ydym yn ymrwymedig i'r cynigion ar gyfer trwyddedu tai amlfeddiannaeth a gynhwyswyd yn y Mesur Tai, a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines.

**Michael German:** Deallaf y bydd y Mesur Tai yn cynnig cynllun trwyddedu cenedlaethol. A fydd y cynllun hwnnw'n gynllun ar gyfer Cymru yn unig ynteu a yw ar gyfer y Deyrnas Unedig? Os nad yw ar gyfer Cymru yn unig, pa faterion y mae'n allweddol eu cynnwys yn y Mesur fel bod y Cynulliad yn meddu ar y pwerau i ymdrin â'r hyn sy'n sefyllfa anodd mewn nifer o ardaloedd trefol yng Nghymru?

**Edwina Hart:** Bydd is-ddeddfwriaeth yn rhoi pwerau i'r Cynulliad gyflwyno cynlluniau wedi eu teilwra i anghenion Cymru. Byddwn yn trafod y Mesur Tai a'r broses o'i weithredu yn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, lle, yr wyf yn sicr, y caiff eich pwyntiau eu hystyried.

**Leighton Andrews:** A gytunwch fod y Mesur yn bwysig i nifer o'n cymunedau yn y Cymoedd, sydd wedi profi anawsterau gyda landlordiaid yn prynu eiddo yn rhad? Mewn rhai achosion, er nad pob un, bu'r landlordiaid hynny yn ddioglyddor ac nid ydynt wedi buddsoddi yn yr eiddo hynny nac wedi rhoi'r cymorth sydd ei angen ar denantiaid a'r gymuned ehangach.

**Edwina Hart:** Yr ydych yn hollol gywir. Bydd trwyddedu tai amlfeddiannaeth o gymorth i sicrhau y bydd eiddo o'r fath yn fwy diogel, wedi eu rheoli'n well ac yn darparu amodau byw mwy derbyniol. Dyna yw'r nod ledled Cymru.

**Brynle Williams:** Nododd adroddiad a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Landlordiaid Bach fod tai amlfeddiannaeth chwe gwaith yn fwy tebygol o fod mewn perygl o dân na thai sydd â deiliaid unigol. Yng ngoleuni'r wybodaeth ofidus hon, a allwch hysbysu'r Aelodau am y trafodaethau diweddaraf a gawsoch gyda'ch cymheiriaid yn San Steffan, a pha bryd yr ydych yn rhagweld y bydd Cymru yn trafod y ddeddfwriaeth ar

licensing of HMOs in Wales?

drwyddedu tai amlfeddiannaeth yng Nghymru?

**Edwina Hart:** I hope that we can further these discussions promptly in the new year. On your important point about fire risk, I cannot recall having read that report, but I will certainly have a look at it and I will ask my officials to give me guidance. As you know, we have the Community Fire Safety Trust in Wales, so we will see whether we can assist in any way.

**Edwina Hart:** Gobeithiaf y gallwn wneud cynnydd cyflym ar y trafodaethau hyn yn y flwyddyn newydd. Ynglŷn â'ch pwynt pwysig ar risg tân, ni chofiaf imi ddarllen yr adroddiad hwnnw, ond cymeraf olwg arno'n bendant a gofynnaf i'm swyddogion am arweiniad. Fel y gwyddoch, mae gennym Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol yng Nghymru, felly ystyriwn a allwn helpu mewn unrhyw ffordd.

**The Presiding Officer:** Question 9 (OAQ30235) has been transferred for written answer.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 9 (OAQ30235) ar gyfer ateb ysgrifenedig.

### **Y Gyllideb Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol The Drug and Alcohol Abuse Budget**

**Q10 Jonathan Morgan:** Would the Minister make a statement on how effective the drug and alcohol abuse budget has been? (OAQ30209)

**C10 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba mor effeithiol y bu'r gyllideb camddefnyddio cyffuriau ac alcohol? (OAQ30209)

**Edwina Hart:** Although it is early days, I am encouraged by the progress that has been made over the past six months towards establishing a cohesive and targeted approach to substance misuse service planning. This year, I have made available an additional £2 million to improve the availability of treatment services, which I have used to approve over 35 new projects across Wales. In addition to treatment services, the budget supports a number of important initiatives in education, transitional support for prisoners, and counselling services.

**Edwina Hart:** Er mai dyddiau cynnar ydyw, fe'm hanogwyd gan y cynnydd a wnaethpwyd dros y chwe mis diwethaf tuag at sefydlu ymagwedd gydlynus a dargedwyd tuag at gynllunio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Eleni, yr wyf wedi rhyddhau £2 filiwn ychwanegol i wella argaeledd gwasanaethau triniaeth, ac fe'i defnyddiais i gymeradwyo dros 35 o brosiectau newydd ledled Cymru. Yn ogystal â gwasanaethau triniaeth, mae'r gyllideb yn cynorthwyo nifer o fentrau pwysig mewn addysg, cymorth trosiannol i garcharorion, a gwasanaethau cwnsela.

**Jonathan Morgan:** You recently announced an investigation into the way in which drug and alcohol abuse money was being spent by NHS Wales. Can you report on the investigation's findings, and do you share my concern that money that is allocated to a specific project ought to be spent on that project, as opposed to being spent on other items, such as fixtures and fittings, as we heard some months ago?

**Jonathan Morgan:** Cyhoeddasoch ymchwiliad yn ddiweddar i'r ffordd yr oedd arian camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn cael ei wario gan GIG Cymru. A allwch ein hysbysu am ganfyddiadau'r ymchwiliad, ac a rannwch fy mhryder y dylai arian a ddyrennir i brosiect penodol gael ei wario ar y prosiect hwnnw, yn hytrach na chael ei wario ar eitemau eraill, megis gosodiadau a ffitiadau, fel y clywsom rai misoedd yn ôl?

2.20 p.m.

**Edwina Hart:** I would not call it an

**Edwina Hart:** Ni fyddwn yn ei alw'n

investigation. I asked the Audit Commission to examine spend and trend patterns, but a new system now exists, and the money is ring-fenced. I now know that the money will definitely go into drugs projects.

ymchwiliad. Gofynnais i'r Comisiwn Archwilio edrych ar batrymau gwario a thueddiadau, ond mae system newydd yn bodoli bellach, a chaiff yr arian ei neilltuo. Gwn yn awr y bydd yr arian yn sicr yn cael ei wario ar brosiectau cyffuriau.

### **Adolygu Cymunedau yn Gyntaf The Review of Communities First**

**Q11 Christine Gwyther:** Will the Minister make a statement on the review of Communities First? (OAQ30161)

**C11 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adolygiad y cynllun Cymunedau yn Gyntaf? (OAQ30161)

**Edwina Hart:** As I reported in response to an earlier question, the Deputy Minister for Social Justice and Regeneration, Huw Lewis, presented the review to the Social Justice and Regeneration Committee today. It is available to Members as part of the Committee's papers.

**Edwina Hart:** Fel y dywedais mewn ymateb i gwestiwn cynharach, cyflwynodd Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, yr adolygiad i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio heddiw. Mae ar gael i'r Aelodau fel rhan o bapurau'r Pwyllgor.

**Christine Gwyther:** I am pleased with that answer, but some Communities First wards have made it clear that they do not want their local authority to remain the fundholder for their funds. Where that is the case—it is certainly the case in my constituency in the Llanion and Monkton wards in south Pembrokeshire—will you give every assistance to those Communities First panels to seek other fundholders, such as the local co-operative, which, I believe, is interested in taking over the fund in this case?

**Christine Gwyther:** Yr wyf yn falch â'r ateb hwnnw, ond mae rhai wardiau Cymunedau yn Gyntaf wedi ei gwneud yn eglur nad ydynt am i'w hawdurdod lleol barhau i ddal y gyllideb ar gyfer eu cronfeydd. Lle bynnag y bo hynny'n wir—mae'n bendant yn wir yn fy etholaeth yn wardiau Llanion a Chil-maen yn ne sir Benfro—a roddwch bob cymorth i'r paneli Cymunedau yn Gyntaf hynny i chwilio am ddeiliaid cyllideb eraill, megis y cwmni cydweithredol lleol, sydd, mi gredaf, â diddordeb mewn cymryd cyfrifoldeb dros y gronfa yn yr achos hwn?

**Edwina Hart:** It is interesting that there has been much discussion on how we manage Communities First projects. One of the points that Huw made today was about getting the right balance between the involvement of local government and of the voluntary sector, and about the role of councillors. Some councillors perceive themselves as facilitators; others perceive their role to be more controlling. I do not want to go into the individual issues relating to Pembrokeshire, but I am currently considering the complex legal issues that are involved in dealing with these funding streams.

**Edwina Hart:** Mae'n ddiddorol y bu llawer o drafod ar y modd yr ydym yn rheoli prosiectau Cymunedau yn Gyntaf. Un o'r pwyntiau a wnaeth Huw heddiw oedd ynghylch taro'r cydbwysedd cywir rhwng cyfranogiad llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol, ac ynghylch rôl cynghorwyr. Mae rhai cynghorwyr yn ystyried eu hunain fel hwyluswyr; mae eraill yn ystyried bod eu rôl yn ymwneud yn fwy â rheoli. Nid wyf am drafod materion unigol sy'n ymwneud â sir Benfro, ond yr wyf ar hyn o bryd yn ystyried y materion cyfreithiol cymhleth sy'n rhan o'r broses o ymdrin â'r llifau ariannu hyn.

**Alun Cairns:** Are you concerned about the relatively high turnover of staff in Communities First schemes? What action do you propose to take on that? Do you accept

**Alun Cairns:** A ydych yn bryderus am y trosiant staff cymharol uchel yn y cynlluniau Cymunedau yn Gyntaf? Pa gamau y bwriadwch eu cymryd o ran hynny? A

that this high turnover presents major problems, as, when an individual who has developed good work moves on, it is almost back to square one with a new employee?

**Edwina Hart:** You must have been listening to your colleague, William Graham, who raised the same matter with me in Committee this morning, when we discussed the apparent element of competition for staff in this area, and how we can get more people to work for these schemes. I am concerned about some of the anecdotal evidence of competition between partnerships for staff, which can undermine certain partnerships. We are considering the matter, and I will report on the recommendations made by the former Local Government and Housing Committee, chaired by Gwenda Thomas, in its two reviews, which picked up these points in January as part of a wider consideration of community services.

dderbyniwch fod y trosiant uchel hwn yn creu problemau mawr, oherwydd, pan fo unigolyn a wnaeth waith da yn symud ymlaen, rhaid cychwyn o'r newydd bron gyda chyflogai newydd?

**Edwina Hart:** Rhaid eich bod wedi bod yn gwranddo ar eich cyd-Aelod, William Graham, a gododd yr un mater gyda mi yn y Pwyllgor y bore yma, pan drafodasom yr elfen ymddangosiadol o gystadlu am staff yn y maes hwn, a sut y gallwn gael mwy o bobl i weithio i'r cynlluniau hyn. Yr wyf yn bryderus am rywfaint o'r dystiolaeth anecdotaidd ynghylch cystadleuaeth rhwng partneriaethau am staff, a all danseilio rhai partneriaethau. Yr ydym yn ystyried y mater, a byddaf yn cyflwyno adroddiad ar yr argymhellion a wnaethpwyd gan y cyn Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, a gadeiriwyd gan Gwenda Thomas, yn ei ddau adolygiad, a ystyriodd y pwyntiau hyn ym mis Ionawr fel rhan o ystyriaeth ehangach o wasanaethau cymunedol.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to the Minister for Economic Development and Transport**

### **Gweithgarwch Economaidd yng Nghonwy Economic Activity in Conwy**

**Q1 Denise Idris Jones:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's plans to increase economic activity in Conwy? (OAQ30257)

**C1 Denise Idris Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu gweithgarwch economaidd yng Nghonwy? (OAQ30257)

**The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies):** The Assembly Government's economic development strategy, 'A Winning Wales', outlines how we are developing the economy of Wales, including that of Conwy. Our policies to increase economic activity are working well in the Conwy constituency. Claimant count unemployment has fallen there by 39 per cent since 1999—a fall significantly greater than that in Wales as a whole.

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Mae strategaeth datblygu economaidd y Cynulliad, 'Cymru'n Ennill', yn amlinellu sut yr ydym yn datblygu economi Cymru, gan gynnwys economi Conwy. Mae ein polisiau i gynyddu gweithgarwch economaidd yn gweithio'n dda yn etholaeth Conwy. Mae'r nifer sy'n ddi-waith ac yn hawlio budd-daliadau wedi gostwng 39 y cant yno ers 1999—gostyngiad sylweddol sy'n fwy na'r gostyngiad yng Nghymru gyfan.

**Denise Idris Jones:** Do you agree that the development of the Llandudno Junction site, with support from the Welsh Development Agency on Objective 1, is an excellent

**Denise Idris Jones:** A gytunwch fod datblygu safle Cyffordd Llandudno, gyda chymorth gan Awdurdod Datblygu Cymru ar Amcan 1, yn enghraifft ardderchog o'r



example of the European funding programme delivering for north Wales, and the joined-up approach that this Government takes to economic development?

**Andrew Davies:** The development of the former Hotpoint site will result in a major asset for that part of north Wales. It represents an investment of just under £6 million and will be a key site for employment and economic regeneration in the Conwy area. I agree that it is another example of Objective 1 and the structural funds programme delivering for communities across Wales.

**Janet Ryder:** One Welsh Assembly Government plan that will have an extremely detrimental effect on economic activity in Conwy is the change to the local regeneration fund rules, which equate to a cutback in funds in Conwy. How many jobs and projects in Conwy will be jeopardised by the change to the local regeneration funding rules?

**Andrew Davies:** I am not aware that it will threaten any projects or jobs. Clearly, there are issues that must be addressed regarding the review of the local regeneration fund, and, as your colleague, Alun Ffred Jones, has the short debate this afternoon, we will discuss those issues in detail then. We are working with local authorities which are key partners in delivering on our commitment to Objective 1 and all the structural funds programmes, and we will continue that commitment.

**Mark Isherwood:** With the number of VAT-registered businesses and self-employed enterprises in north Wales down, according to the Assembly's own statistics, all economic development initiatives in Conwy and throughout north Wales are warmly welcomed. However, to turn this into sustainable economic development, how will you address the concerns raised at the north Wales economic forum meeting last month? Some of the comments made by official speakers at that meeting were that the delivery of broadband across north Wales is hampered by the lack of competition, that Objective 1 generated high expectations that

rhaglen ariannu Ewropeaidd yn cyflawni ar gyfer y Gogledd, ac ymagwedd gydgysylltiedig y Llywodraeth hon tuag at ddatblygu economaidd?

**Andrew Davies:** Bydd datblygu hen safle Hotpoint yn gaffaeliad mawr i'r rhan honno o'r Gogledd. Mae'n cynrychioli buddsoddiad o ychydig o dan £6 miliwn a bydd yn safle allweddol ar gyfer cyflogaeth ac adfywio economaidd yn ardal Conwy. Cytunaf ei fod yn enghraifft arall o Amcan 1 a rhaglen y cronfeydd strwythurol yn cyflawni ar gyfer cymunedau ledled Cymru.

**Janet Ryder:** Un cynllun gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a gaiff effaith andwyol iawn ar y gweithgarwch economaidd yng Nghonwy yw'r newid i reolau'r gronfa adfywio lleol, sy'n golygu y bydd gostyngiad yn yr arian a roddir i Gonwy. Faint o swyddi a phrosiectau yng Nghonwy fydd yn y fantol yn sgîl y newid i reolau ariannu adfywio lleol?

**Andrew Davies:** Nid wyf yn ymwybodol y bydd yn bygwth unrhyw brosiect neu swydd. Yn amlwg, mae materion y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy mewn perthynas â'r adolygiad o'r gronfa adfywio lleol, a, chan fod eich cyd-Aelod, Alun Ffred Jones, yn cyflwyno'r ddadl fer y prynhawn yma, byddwn yn trafod y materion hynny yn fanwl bryd hynny. Yr ydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol sy'n bartneriaid allweddol i gyflawni ein hymrwymiad i Amcan 1 a holl raglenni'r cronfeydd strwythurol, a byddwn yn parhau â'r ymrwymiad hwnnw.

**Mark Isherwood:** O ystyried bod nifer y busnesau a gofrestrwyd ar gyfer pwrpasau TAW a'r mentrau hunangyflogedig yn y Gogledd wedi gostwng, yn ôl ystadegau'r Cynulliad ei hun, croesewir pob menter datblygu economaidd yng Nghonwy a ledled y Gogledd yn fawr. Fodd bynnag, er mwyn troi hyn yn ddatblygiad economaidd cynaliadwy, sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yng nghyfarfod fforwm economaidd y Gogledd fis diwethaf? Yr oedd rhai o'r sylwadau a wnaed gan siaradwyr swyddogol yn y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â'r ffaith bod y broses o ddarparu band eang ledled y Gogledd yn cael

were met by a bureaucratic jungle, that our civil servants are gold-plating rules on state aid, that there is bureaucratic political control over the distribution of money, and that we need local delivery, not central management.

**Andrew Davies:** I am not sure how we as a Government, or even the Westminster Government, can be held responsible for market failure, particularly of the telecommunications companies. This Government is committed to making up for market failure, which is why we are investing £115 million in ensuring that we roll out broadband to some of our more deprived communities, which, if it was left to the market alone, would not get it in the foreseeable future.

**Eleanor Burnham:** At a recent meeting of the north Wales economic forum, it became obvious that Conwy would get quite a nice bite of the cherry through the location of more Welsh Assembly Government officials there, for which we are grateful. Could you give details on that, and when will similar jobs, as part of the Welsh Assembly Government's expansion out of Cardiff, appear in other parts of north Wales?

**Andrew Davies:** We are committed to serving all communities in Wales, which is what our location strategy seeks to address. I do not take a lead on this issue. You should instead address your question to the Minister with responsibility for the location strategy, the Finance Minister.

### **Ceisiadau am Gymorth Rhanbarthol Dewisol Applications for Regional Selective Assistance**

**Q2 Michael German:** Will the Minister make a statement on applications for regional selective assistance? (OAQ30261)

**Andrew Davies:** In the seven months to 31 October 2003, 82 regional selective assistance offers, with a total value of £42.6 million, were made to businesses to enable them to implement investment projects in the

ei llesteirio gan ddiffyg cystadleuaeth, bod Amcan 1 wedi creu disgwyliadau uchel a fodlonwyd gan ddryswch biwrocraidaidd, bod ein gweision sifil yn mynnu dilyn y rheolau ar nawdd y wladwriaeth i'r llythyren, bod rheolaeth wleidyddol fiwrocraidaidd ar y broses o ddsbarthu arian, a bod angen darpariaeth leol arnom, nid rheolaeth ganolog.

**Andrew Davies:** Nid wyf yn siŵr sut y gallwn ni fel Llywodraeth, neu hyd yn oed Llywodraeth San Steffan, gael ein dal yn gyfrifol am fethiant y farchnad, yn enwedig y cwmnïau telathrebu. Mae'r Llywodraeth hon yn ymrwymedig i wneud iawn am fethiant y farchnad, a dyna pam yr ydym yn buddsoddi £115 miliwn i sicrhau ein bod yn cyflwyno band eang i rai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig, na fyddent, pe baent yn dibynnu ar y farchnad yn unig, yn ei gael yn y dyfodol agos.

**Eleanor Burnham:** Yng nghyfarfod diweddar o fforwm economaidd y Gogledd, daeth yn amlwg y byddai Conwy yn elwa gryn dipyn ar leoli mwy o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn yr ardal, ac yr ydym yn ddiolchgar am hynny. A allech roi manylion am hynny, a phryd y bydd swyddi tebyg, fel rhan o'r broses o ehangu Llywodraeth Cynulliad Cymru y tu allan i Gaerdydd, yn ymddangos mewn rhannau eraill o'r Gogledd?

**Andrew Davies:** Yr ydym yn ymrwymedig i wasanaethu'r holl gymunedau yng Nghymru, a dyma nod ein strategaeth leoli. Nid fi sy'n arwain y mater hwn. Yn hytrach, dylech gyfeirio eich cwestiwn at y Gweinidog sy'n gyfrifol am y strategaeth leoli, sef y Gweinidog Cyllid.

**C2 Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ceisiadau am gymorth rhanbarthol dewisol? (OAQ30261)

**Andrew Davies:** Yn y saith mis hyd at 31 Hydref 2003, gwnaed 82 o geisiadau am gymorth rhanbarthol dewisol, sef cyfanswm o £42.6 miliwn, i fusnesau er mwyn eu galluogi i roi prosiectau buddsoddi ar waith

Welsh assisted areas. Associated investment is almost £130 million, which promises to create or safeguard over 4,000 jobs.

**Michael German:** There are concerns about the number of people who are taking up applications for RSA, and there is a regional problem in that there is less take-up in certain parts of Wales than in others. Can you reassure me that the guidelines that have been issued to officials and to the Welsh Industrial Development Advisory Board have not been altered and that, rather than having a distinct cost per job allowance as England has, we have the flexibility of approach that allows that take-up to be taken forward? Do you agree, therefore, that promoting RSA among indigenous business is the real challenge that we must face?

**Andrew Davies:** You mentioned regional variation on RSA; I am aware of that with the Assembly investment grant, and that has been discussed in Plenary and in the Economic Development and Transport Committee. There is a differential performance for that, which is why I have asked for an investigation to see what factors might have led to that differential performance. Given the totality of our grant support system, RSA and the Assembly investment grant, are remarkably successful. However, I have not issued any instructions on changes to how RSA is adjudicated or assessed, other than the work to be done on ensuring that it is in line with our own priorities as a Government, such as innovation, sustainable development, Investor in People awards and training. Those are the only criteria.

**Alun Cairns:** In your response to Mike German, you mentioned regional variations in terms of applications for the Assembly investment grant, although the question related to RSA. Are you troubled that one unitary authority in Wales, up until 1 September—these are the latest figures available—had not had one new job created

yn yr ardaloedd a gynorthwyir yng Nghymru. Mae'r buddsoddiad cysylltiedig bron yn £130 miliwn, sy'n addo creu neu ddiogelu dros 4,000 o swyddi.

**Michael German:** Mae pryderon ynghylch nifer y bobl sy'n gwneud ceisiadau am gymorth rhanbarthol dewisol, a cheir problem ranbarthol gan fod llai o bobl yn gwneud ceisiadau mewn rhai rhannau o Gymru nag eraill. A allwch fy sicrhau nad addaswyd y canllawiau a gyhoeddwyd i swyddogion ac i Fwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru ac, yn hytrach na rhoi cost benodol i bob swydd, fel y gwneir yn Lloegr, a allwn sicrhau bod gennym ymagwedd hyblyg sy'n ein galluogi i gynyddu nifer y bobl sy'n gwneud cais? A gytunwch, felly, mai hyrwyddo cymorth rhanbarthol dewisol ymhlith busnesau brodorol yw'r her wirioneddol y mae'n rhaid inni ei hwynebu?

**Andrew Davies:** Soniasoch am amrywiaeth rhanbarthol o ran cymorth rhanbarthol dewisol; yr wyf yn ymwybodol o hynny gyda grant buddsoddi'r Cynulliad, a thrafodwyd hynny mewn Cyfarfodydd Llawn ac yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth. Ceir gwahaniaeth o ran perfformiad hynny a dyna pam yr wyf wedi gofyn am ymchwiliad i weld pa ffactorau a allai fod wedi arwain at y gwahaniaeth hwnnw mewn perfformiad. O ystyried ein system cymorth grant yn ei chrynswth, mae cymorth rhanbarthol dewisol a grant buddsoddi'r Cynulliad yn hynod llwyddiannus. Fodd bynnag, nid wyf wedi cyhoeddi unrhyw gyfarwyddiadau ar newidiadau i sut y caiff cymorth rhanbarthol dewisol ei ddyfarnu neu ei asesu, ar wahân i'r gwaith i'w wneud ar sicrhau ei fod yn unol â'n blaenoriaethau ni fel Llywodraeth, megis arloesedd, datblygu cynaliadwy, gwobrau Buddsoddwr mewn Pobl a hyfforddiant. Dyna'r unig feini prawf.

**Alun Cairns:** Yn eich ymateb i Mike German, bu ichi grybwyll amrywiadau rhanbarthol o ran ceisiadau ar gyfer grant buddsoddi'r Cynulliad, er bod y cwestiwn yn ymwneud â chymorth rhanbarthol dewisol. A ydych yn poeni nad oedd un awdurdod unedol yng Nghymru, hyd 1 Medi—dyma'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael—wedi creu

as a result of RSA? That community is probably one of the most deprived constituencies in the whole of Wales—Blaenau Gwent. Is this not indicative of the Government's inaction on trying to encourage jobs in some of the most deprived parts of Wales, bearing in mind that Objective 1 has turned out to be an absolute disaster because of a lack of match funding?

2.30 p.m.

**Andrew Davies:** In my answer to Mike's question on RSA and regional variation, I was trying to convey that I was aware of the variation in terms of the Assembly investment grant but not in terms of RSA. Both are clearly demand led. To a large extent, we encourage companies to apply for those grants, but it is up to individual companies to make an application. When you take into account increases in employment and reduction in economic inactivity, areas such as Blaenau Gwent have been doing extremely well. The fall in unemployment and economic inactivity figures in such areas exceed falls in most of the rest of the United Kingdom.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf am geisio cael y Gweinidog i ganolbwyntio ar y gronfa ranbarthol ddewisol. Yr wyf yn siŵr y byddai'n cytuno mai dyma'r brif gronfa i alluogi cwmnïau i greu swyddi newydd. A yw'n bryderus bod cwmnïau, ac yn sicr rhai yn sir Gaerfyrddin, yn dadlau bod yr arian y maent yn ei dderbyn ar gyfartaledd wedi gostwng er bod y galw yn sicr yno?

**Andrew Davies:** If you can give me information about particular companies that have concerns, I will follow that up. However, the Finance Minister has increased my budget for regional selective assistance and the Assembly investment grant this year. Therefore, 437 offers of funding via RSA and the Assembly investment grant have been made, with a combined value of £54 million, in the first seven months of this year alone—and there is evidence that more companies are now applying for smaller grants through

yr un swydd newydd o ganlyniad i gymorth rhanbarthol dewisol? Y gymuned honno, fwy na thebyg, yw un o'r etholaethau mwyaf difreintiedig yng Nghymru gyfan—Blaenau Gwent. Onid yw hyn yn arwydd o ddiffyg gweithredu gan y Llywodraeth wrth geisio annog swyddi yn rhai o'r rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru, o gofio bod Amcan 1 wedi mynd i'r gwellt oherwydd prinder arian cyfatebol?

**Andrew Davies:** Yn fy ateb i gwestiwn Mike ar gymorth rhanbarthol dewisol ac amrywiadau rhanbarthol, yr oeddwn yn ceisio cyfleu fy mod yn ymwybodol o'r amrywiadau o ran grant buddsoddi'r Cynulliad ond nid yn nhermau cymorth rhanbarthol dewisol. Mae'r ddau yn amlwg yn dibynnu ar y galw. I raddau helaeth, anogwn gwmnïau i wneud cais am y grantiau hynny, ond cyfrifoldeb cwmnïau unigol yw gwneud cais. Pan ystyriwch gynnydd mewn cyflogaeth a gostyngiad mewn anweithgarwch economaidd, mae ardaloedd fel Blaenau Gwent yn gwneud yn arbennig o dda. Mae'r gostyngiad mewn ffigurau diweithdra ac anweithgarwch economaidd mewn ardaloedd o'r fath y tu hwnt i'r gostyngiad yn y rhan fwyaf o weddill y Deyrnas Unedig.

**Rhodri Glyn Thomas:** I will try to make the Minister concentrate on regional selective assistance. I am sure that he would agree that this is the principal fund for enabling companies to create new jobs. Is he concerned that companies, and certainly ones in Carmarthenshire, argue that the average funding that they receive has reduced despite the continuing demand?

**Andrew Davies:** Os gallwch roi gwybodaeth imi am gwmnïau arbennig sydd â phryderon, byddaf yn ymchwilio i hynny. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog Cyllid wedi cynyddu fy nghyllideb ar gyfer cymorth rhanbarthol dewisol a grant buddsoddi'r Cynulliad eleni. Felly, gwnaed 437 o gynigion ariannu drwy gyfrwng y cymorth rhanbarthol dewisol a grant buddsoddi'r Cynulliad, gyda gwerth cyfunol o £54 miliwn, yn ystod saith mis cyntaf o'r flwyddyn hon yn unig—a cheir tystiolaeth bod mwy o gwmnïau bellach yn

AIG rather than through RSA. That compares with 270 offers of RSA and AIG funding during the same period last year. The figures do not reflect your criticisms.

gwneud cais am grantiau llai drwy grant buddsoddi'r Cynulliad yn hytrach na thrwy gymorth rhanbarthol dewisol. Mae hynny'n cymharu â 270 o gynigion am gyllid cymorth rhanbarthol dewisol a grant buddsoddi'r Cynulliad yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Nid yw'r ffigurau yn adlewyrchu eich beirniadaethau.

### **Arian Cyfatebol Amcan 1 Objective 1 Match Funding**

**Q3 Janet Ryder:** Will the Minister make a statement on the availability of Objective 1 match funding in north Wales? (OAQ30178)

**C3 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr arian cyfatebol Amcan 1 sydd ar gael yng ngogledd Cymru? (OAQ30178)

**Andrew Davies:** The Assembly Government has established three match funding budgets for the Objective 1 programme. In addition, it has set up five budgets for specific programmes and projects. These are available to provide match funding for projects throughout eligible areas, including north Wales.

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi creu tair cyllideb arian cyfatebol ar gyfer rhaglen Amcan 1. Yn ogystal, creodd bum cyllideb ar gyfer rhaglenni a phrosiectau penodol. Mae'r rhain ar gael i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer prosiectau ledled ardaloedd cymwys, gan gynnwys y Gogledd.

**Janet Ryder:** We have already agreed that there will be a cut in funding for the local regeneration fund because the rules are changing, and Pathways to Prosperity is five times oversubscribed. Therefore, what advice do you have for local authorities that have already promised match funding to projects before you changed the various rules of engagement?

**Janet Ryder:** Yr ydym eisoes wedi cytuno y bydd gostyngiad yng nghyllid y gronfa adfywio lleol gan fod y rheolau yn newid, ac mae Ffordd i Ffyniant bum gwaith dros ei lefel danysgrifio. Felly, pa gyngor sydd gennych i awdurdodau lleol sydd eisoes wedi addo arian cyfatebol i brosiectau cyn ichi newid rheolau amrywiol y broses gysylltu?

**Andrew Davies:** I wish for it to be placed on record, as there has been a great deal of misinformation in the media this week, that there is no shortage of match funding. We have always made it clear—[ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']

**Andrew Davies:** Dymunaf gofnodi, gan y bu cryn dipyn o wybodaeth anghywir yn y cyfryngau yr wythnos hon, nad oes prinder arian cyfatebol. Yr ydym bob amser wedi egluro—[AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.']

**The Presiding Officer:** Order. The Minister is providing the Assembly with information.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'r Gweinidog yn rhoi gwybodaeth i'r Cynulliad.

**Andrew Davies:** The opposition may well wish to deal in rhetoric; I deal in factual information. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']

**Andrew Davies:** Efallai bod y gwrthbleidiau am drafod mewn rhethreg; yr wyf fi'n ymdrin â gwybodaeth ffeithiol. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.']

There are match funding pots, and there is currently £65 million within my budget lines. You must bear in mind that, over the first half of the structural fund programme, 80 per

Ceir cronfeydd o arian cyfatebol, ac mae £65 miliwn o fewn llinellau fy nghyllideb ar hyn o bryd. Rhaid ichi gofio, yn ystod hanner cyntaf rhaglen y cronfeydd strwythurol, y daeth 80 y

cent of match funding came from sources other than those Assembly Government specific match funding pots. Project applicants must find their own sources of match funding. We are providing those match funding pots as a last resort. However, applicants were increasingly coming to the Assembly Government believing, for example, that Pathways to Prosperity was a first call funding pot. We explained that it was there as a last resort. We stand by our commitment that no worthwhile project will fail because of a lack of match funding. However, the proof of the pudding is in the eating. Over the first half of the programme, £1.7 billion was invested in all structural fund programmes, with over 1,600 projects benefiting as a result. I refute the opposition's rhetoric.

**Brynle Williams:** In December 2002, a Welsh Assembly Government spokesman stated that it was confident that no funding would be lost in Wales. Twelve months on, we have not received the match funding, and you did not admit that there was going to be a stretch on finances. Could you outline the all-Wales picture relating to the availability of Objective 1 funding, as well as that for north Wales?

**Andrew Davies:** Brynle's question underlines our problem of people misunderstanding the difference between achieving our N+2 decommitment targets, which ensure that we spend the money, and match funding. Unfortunately, there has been much misunderstanding, as Brynle exemplifies. I refer him to my answer to Janet Ryder's question on match funding.

### **Cysylltiadau Trafnidiaeth Awyr Air Transport Links**

**Q4 Glyn Davies:** Could the Minister make a statement on the development of air transport links in Wales? (OAQ30231)

**Andrew Davies:** I have commissioned a study of intra-Wales air services, including the potential for north-south air links, which will be completed shortly. That was included

cant o arian cyfatebol o ffynonellau ar wahân i gronfeydd arian cyfatebol penodol Llywodraeth y Cynulliad. Rhaid i ymgeiswyr prosiectau ddod o hyd i'w ffynonellau arian cyfatebol eu hunain. Yr ydym yn darparu'r cronfeydd arian cyfatebol hynny fel dewis olaf. Fodd bynnag, yr oedd ymgeiswyr yn cysylltu'n gynyddol â Llywodraeth y Cynulliad gan gredu, er enghraifft, mai Ffordd i Ffyniant oedd y dewis cyntaf o ran cronfa. Bu inni egluro mai dewis olaf ydoedd. Glynwn at ein hymrwymiad na fydd unrhyw brosiect gwerth chweil yn methu oherwydd prinder arian cyfatebol. Fodd bynnag, rhaid aros i weld a gaiff hyn ei wireddu. Yn ystod hanner cyntaf y rhaglen, buddsoddiwyd £1.7 biliwn yn yr holl raglenni cronfeydd strwythurol, a bu i 1,600 o brosiectau elwa o ganlyniad. Gwrthbrofaf rethreg y gwrthbleidiau.

**Brynle Williams:** Yn Rhagfyr 2002, dywedodd llefarydd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru ei fod yn hyderus na fyddai unrhyw arian yn cael ei gollu yng Nghymru. Ddeuddeg mis yn ddiweddarach, nid ydym wedi derbyn yr arian cyfatebol, ac ni wnaethoch gyfaddef y byddai pwysau ar gyllid. A allwch amlinellu sefyllfa Cymru gyfan mewn perthynas ag argaeledd arian Amcan 1, yn ogystal â'r sefyllfa yn y Gogledd?

**Andrew Davies:** Mae cwestiwn Brynle yn tanlinellu ein problem sef bod pobl yn camddeall y gwahaniaeth rhwng cyflawni ein targedau dadneilltuo N+2, sy'n sicrhau ein bod yn gwario'r arian, ac arian cyfatebol. Yn anffodus, bu llawer o gamddealltwriaeth fel y dengys Brynle. Fe'i cyfeiriaf at fy ateb i gwestiwn Janet Ryder ar arian cyfatebol.

**C4 Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu cysylltiadau trafndiaeth awyr yng Nghymru? (OAQ30231)

**Andrew Davies:** Yr wyf wedi comisiynu astudiaeth o wasanaethau awyr o fewn Cymru, gan gynnwys y posibilrwydd o gael cysylltiadau awyr rhwng y gogledd a'r de, a

in my party's manifesto. I will consult widely in the new year before any decisions are taken, and the matter will be discussed in the Economic Development and Transport Committee.

**Glyn Davies:** The Montgomeryshire and mid Wales airport is important to the economic development of mid Wales, but its potential will not be realised unless the airstrip is lengthened. Will you speak to Powys County Council officials to examine how the public sector can support the project and bring it to fruition?

**Andrew Davies:** If I can help in that way, I will. You were at the launch of AirNet Wales, which brought together many airport owners and operators in Wales with a view to encouraging the sector and the industry to speak with one voice. The progress made is welcome, and perhaps AirNet Wales is the appropriate forum for such issues to be discussed. If there are specific issues in which my officials or I can assist, we will consider them.

**Alun Ffred Jones:** A ydych wedi cynnal trafodaethau gyda pherchnogion maes awyr Caernarfon ynglŷn â datblygiadau pellach ar y safle pwysig hwnnw i'r Gogledd Orllewin?

**Andrew Davies:** Yes, I met the owner-operator at the launch of AirNet Wales at Cardiff international airport last month. I have had the pleasure, along with some of my Cabinet colleagues, of flying into that aerodrome. It could be a major asset for north-west Wales. I refer you to my response to Glyn Davies. Each airport operator should work with AirNet Wales so that we can identify the investment opportunities needed by air services.

gaiff ei chwblhau yn fuan. Cynhwyswyd hynny ym maniffesto fy mhlaidd. Byddaf yn ymgynghori'n eang yn y flwyddyn newydd cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau, a chaiff y mater ei drafod yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

**Glyn Davies:** Mae maes awyr Sir Drefaldwyn a'r Canolbarth yn bwysig i ddatblygiad economaidd y Canolbarth, ond ni chaiff ei botensial ei wireddu oni chaiff y llain lanio ei hehangu. A wnewch siarad â swyddogion Cyngor Sir Powys i ymchwilio i sut y gall y sector cyhoeddus gefnogi'r prosiect a sicrhau ei fod yn dwyn ffrwyth?

**Andrew Davies:** Os gallaf helpu yn y ffordd honno, fe wnaf. Yr oeddech yn lansiad AirNet Wales, a ddaeth â llawer o berchnogion a gweithredwyr meysydd awyr at ei gilydd gyda'r nod o annog y sector a'r diwydiant i siarad ag un llais. Croesewir y cynnydd a wnaed, ac efallai mai AirNet Wales yw'r fforwm priodol ar gyfer trafod materion o'r fath. Os bydd materion penodol y gall fy swyddogion neu minnau gynorthwyo â hwy, byddwn yn eu hystyried.

**Alun Ffred Jones:** Have you had any discussions with the owners of Caernarfon airport about further developments at that important site for the North West?

**Andrew Davies:** Do, cyfarfûm â'r perchennog-weithredwr yn lansiad AirNet Wales ym maes awyr rhyngwladol Caerdydd fis diwethaf. Ynghyd â rhai o'm cyd-Aelodau yn y Cabinet, cefais y pleser o hedfan i mewn i'r awyrenfa honno. Gallai fod yn gaffaeliad mawr i ogledd-ddwyrain Cymru. Fe'ch cyfeiriai at fy ateb i Glyn Davies. Dylai pob gweithredwr maes awyr weithio gydag AirNet Cymru er mwyn inni allu nodi'r cyfleoedd buddsoddi sydd eu hangen ar y gwasanaethau awyr.

### **Cronfeydd Strwythurol Ewrop European Structural Funds**

**Q5 Christine Gwyther:** Will the Minister outline the Welsh Assembly Government's actions to increase prosperity in Wales by using European structural funds? (OAQ30198)

**C5 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu gweithgareddau Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu ffyniant yng Nghymru drwy ddefnyddio cronfeydd strwythurol Ewrop? (OAQ30198)

**Andrew Davies:** The structural funds programmes are a major priority for this Government in regenerating the Welsh economy. They do so by building competitive businesses, research and development, and entrepreneurship as well as developing people, tackling social exclusion and regenerating our local communities. The Welsh European Funding Office is continuing to commit funding to a wide range of projects that will help to deliver the Assembly Government's goals for increasing prosperity in Wales, and help to deliver 'BetterWales.com'. At the end of October, more than £700 million had been committed to nearly 1,600 projects across all of the structural fund programmes.

**Christine Gwyther:** I congratulate those Assembly officials who embarked upon mid-term negotiations with the European Commission—very successfully so far. When will those negotiations be complete? They might be already. When will the changes to the single programming document be put into effect? I am thinking now of our ability to pursue town centre regeneration projects in west Wales and the Valleys.

**Andrew Davies:** Initial discussions have taken place with European Commission officials and, like you, I congratulate officials, particularly WEFO staff, for their work. The commission was supportive of our proposals, which included allocating money for town centre regeneration, and we are confident that that will be taken forward, as well as the possibility of investment in infrastructure for air services, which had previously been disallowed under the original single programming document. The revised proposals will be put to the Objective 1 Programme Monitoring Committee at its next meeting, on 12 December. Once they have been approved, they will be put to the commission. I understand that the commission is likely to be able to respond to the proposals and provide a revised SPD by the end of March 2004.

2.40 p.m.

**Andrew Davies:** Mae rhaglenni'r cronfeydd strwythurol yn flaenoriaeth bwysig i'r Llywodraeth wrth adfywio economi Cymru. Gwnânt hynny drwy greu busnesau cystadleuol, ymchwil a datblygu, ac entrepreneuriaeth yn ogystal â datblygu pobl, mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, ac adfywio ein cymunedau lleol. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn parhau i neilltuo arian i ystod eang o brosiectau a fydd yn helpu i gyflawni nodau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cynyddu ffyniant yng Nghymru, a helpu i gyflawni 'GwellCymru.com'. Ar ddiwedd mis Hydref, yr oedd mwy na £700 miliwn wedi ei neilltuo i bron 1,600 o brosiectau ledled holl raglenni'r cronfeydd strwythurol.

**Christine Gwyther:** Hoffwn longyfarch y swyddogion hynny yn y Cynulliad a ddechreuodd gynnal trafodaethau canol tymor gyda'r Comisiwn Ewropeaidd—a fu'n llwyddiannus iawn hyd yn hyn. Pryd y bydd y trafodaethau hynny wedi eu cwblhau? Efallai eu bod eisoes wedi eu cwblhau. Pryd y caiff y newidiadau i'r ddogfen raglennu sengl eu rhoi ar waith? Yr wyf yn meddwl yn awr am ein gallu i fynd ar drywydd prosiectau adfywio canol trefi yn y Gorllewin a'r Cymoedd.

**Andrew Davies:** Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gyda swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd a hoffwn innau, fel chithau, longyfarch swyddogion, yn enwedig staff Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, am eu gwaith. Yr oedd y comisiwn yn cefnogi ein cynigion, a oedd yn cynnwys dyrannu arian ar gyfer adfywio canol trefi, ac yr ydym yn hyderus y caiff hynny ei ddatblygu, yn ogystal â'r posibilrwydd o fuddsoddi mewn seilwaith ar gyfer gwasanaethau awyr, na chaniatawyd yn flaenorol o dan y ddogfen raglennu sengl wreiddiol. Bwriedir cyflwyno'r cynigion diwygiedig gerbron Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1 yn ei gyfarfod nesaf, ar 12 Rhagfyr. Ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo, cânt eu cyflwyno i'r comisiwn. Deallaf fod y comisiwn yn debygol o allu ymateb i'r cynigion a darparu ddogfen raglennu sengl erbyn diwedd Mawrth 2004.



**The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** You said earlier that, apparently, there is no problem with the Objective 1 programme and that this situation has been created by the opposition parties, the media and presumably the people of Wales. You know as well as we do that there is a shortage of funds and that projects will fail as a result. This is why you resisted a debate on the issue when we pressed you on the subject yesterday. What are you going to do to ensure that we draw down the European money for which Wales is eligible because, otherwise, many valuable projects will lose out? What you put forward earlier today was not what the First Minister said yesterday. He took the 'not me guv' approach by saying that it was the responsibility of project managers to find funding. You are saying that no project will fail for lack of funds. Which is it to be, because these approaches are not consistent?

**Andrew Davies:** Like Brynle, you have again demonstrated your misunderstanding of how the system works. Project applicants have always had to identify match funding sources. This was true of the first half of the programme, and it will be true of the second. The First Minister and I have said that no worthwhile project will fail due to lack of match funding. However, we need to bear in mind—*[Interruption.]*

This is an important point, and I restate that I am not aware of any projects that failed due to lack of match funding in the first half of the programme, nor am I aware at this stage of any projects that are likely to fail for the same reason. The mid-term evaluation, which informed the mid-term review, said that there should be a closer correlation between the delivery of Objective 1 and our strategic priorities as a Government. This was the first recommendation made by the mid-term evaluation. As a result, the Government decided that the Welsh European Funding Office should be brought in-house and not act as an arm's-length agency. In response to this recommendation, we will support projects that are in line with our strategic priorities as

**Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne):** Dywedasoch yn gynharach, mae'n debyg, nad oes problem gyda rhaglen Amcan 1 a bod y sefyllfa hon wedi ei chreu gan y gwrthbleidiau, y cyfryngau, ac o bosibl, pobl Cymru. Gwyddoch cystal â ninnau fod prinder arian ac y bydd prosiectau yn methu o ganlyniad. Dyma pam y gwnaethoch wrthod dadl ar y mater pan wnaethom eich holi yn ei gylch ddoe. Beth yr ydych yn bwriadu ei wneud i sicrhau ein bod yn hawlio'r arian Ewropeaidd y mae Cymru yn gymwys i'w gael oherwydd, fel arall, bydd llawer o brosiectau gwerthfawr ar eu colled? Nid yr hyn a gyflwynwyd gennych yn gynharach heddiw oedd yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog ddoe. Yr hyn a wnaeth ef oedd trosglwyddo'r bai a dweud mai cyfrifoldeb rheolwyr prosiect oedd dod o hyd i arian. Yr ydych yn dweud na fydd unrhyw brosiect yn methu oherwydd prinder arian. Pa un sy'n gywir, oherwydd nid yw'r ymagweddau hyn yn gyson?

**Andrew Davies:** Fel Brynle, yr ydych chi unwaith eto wedi dangos eich camddealltwriaeth o'r ffordd y mae'r system yn gweithio. Bu'n rhaid i ymgeiswyr prosiect bob amser nodi ffynonellau arian cyfatebol. Yr oedd hyn yn wir am hanner cyntaf y rhaglen, a bydd yn wir am yr ail hanner. Dywedodd y Prif Weinidog a minnau na fydd prosiect gwerth chweil yn methu am nad oes arian cyfatebol. Fodd bynnag, mae angen inni gofio—*[Torri ar draws.]*

Mae hwn yn bwynt pwysig, ac ailddatganaf nad wyf yn ymwybodol o unrhyw brosiectau sydd wedi methu am nad oes arian cyfatebol yn ystod hanner cyntaf y rhaglen, ac nid wyf yn ymwybodol ychwaith ar y cam hwn o unrhyw brosiectau sy'n debygol o fethu am yr un rheswm. Dywedodd y gwerthusiad canol tymor, a lywiodd yr adolygiad canol tymor, y dylid cael cyfatebiaeth well rhwng y broses o gyflwyno Amcan 1 a'n blaenoriaethau strategol fel Llywodraeth. Dyma'r argymhelliad cyntaf a wnaed gan y gwerthusiad canol tymor. O ganlyniad, penderfynodd y Llywodraeth y dylid sicrhau bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn asiantaeth fewnol ac na ddylai weithredu fel

a Government. There is no obfuscation about that.

asiantaeth hyd braich. Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n unol â'n blaenoriaethau strategol fel Llywodraeth. Ni cheir unrhyw ddryswch ynghylch hynny.

### **Gweithgarwch Economaidd Economic Activity**

**Q6 Christine Chapman:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's plans to increase economic activity in Wales? (OAQ30203)

**C6 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu gweithgarwch economaidd yng Nghymru? (OAQ30203)

**Andrew Davies:** The strategies, 'A Winning Wales', 'The Learning Country' and the skills and employment action plan set out a wide range of actions that we and our partners are taking to encourage, help and support more people into sustained employment. I am delighted that, in the three months to September 2003, economic activity in Wales was 56,000 higher than it was a year earlier. The working-age economic activity rate increased by 2.6 percentage points to 76.6 per cent over this period—the biggest increase among the devolved countries and English regions. Wales now has an employment rate higher than all 15 EU countries outside the UK, with the exception of Denmark, Sweden and the Netherlands. Wales also has a higher employment rate than any of the G7 countries outside the UK.

**Andrew Davies:** Mae'r strategaethau, 'Cymru'n Ennill', 'Y Wlad sy'n Dysgu' a'r cynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth yn nodi ystod eang o gamau yr ydym ni a'n partneriaid yn eu cymryd i annog, helpu a chefnogi mwy o bobl i ymgymryd â chyflogaeth gynaliadwy. Mae'n bleser gennyf ddweud, yn y tri mis hyd Medi 2003, bod gweithgarwch economaidd yng Nghymru 56,000 yn uwch nag yr oedd flwyddyn yn gynharach. Cafwyd cynnydd o 2.6 pwynt canran yng nghyfradd y gweithgarwch economaidd ymhlith pobl o oed gwaith a oedd yn golygu mai 76.6 y cant oedd y gyfradd dros y cyfnod hwn—y cynnydd mwyaf o blith y gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr. Mae gan Gymru yn awr gyfradd cyflogaeth sy'n uwch na phob un o 15 gwlad yr UE y tu allan i'r DU, ac eithrio Denmarc, Sweden a'r Iseldiroedd. Mae gan Gymru hefyd gyfradd cyflogaeth uwch nag unrhyw un o'r gwledydd G7 y tu allan i'r DU.

**Christine Chapman:** I am sure that we would all welcome the progress that you outlined. The black economy is one area of economic activity in Wales, so what measures can the Welsh Assembly Government take to encourage people out of the black economy, due to its unregulated employment, its failure to recognise health and safety law and statutory regulations relating to terms and conditions of employment and pay, and the fact that it does not afford any protection to workers who are exploited in this manner in Wales?

**Christine Chapman:** Yr wyf yn siŵr y byddem oll yn croesawu'r cynnydd a amlinellwyd gennych. Mae'r economi ddu yn un maes o weithgarwch economaidd yng Nghymru, felly pa fesurau y gall Llywodraeth y Cynulliad eu cymryd i annog pobl i ymwrthod â'r economi ddu, oherwydd ei chyflogaeth heb ei rheoleiddio, ei methiant i gydnabod cyfraith iechyd a diogelwch a rheoliadau statudol yn ymwneud â thermiau ac amodau cyflogaeth a thâl, a'r ffaith na rydd unrhyw ddiogelwch i weithwyr y mae pobl yn ymelwa arnynt yn y ffordd hon yng Nghymru?

**Andrew Davies:** You will probably

**Andrew Davies:** Byddwch fwy na thebyg yn

remember for a long time our visit to the Gellideg project in Merthyr Tydfil, which is supported by Objective 1. Six mothers who wanted to develop activities for their children initiated the project, which has since grown into a significant contributor to tackling social exclusion. This is an example of how Objective 1 is delivering for some of the most deprived communities in Wales. This is what people who live in those communities want to hear about, not the froth of the opposition parties about any alleged lack of match funding.

Even though we may not condone it, faced with the choices and constraints of people involved in the black economy, we may well follow the same route. We are helping these people to gain confidence, qualifications and skills so that they can re-enter the employment market. Clearly, those communities face significant challenges, but Objective 1 will help to address them.

**Elin Jones:** Mae gwir fygythiad i gynnydd mewn gweithgaredd economaidd oherwydd y diffyg cyllid cyfatebol ar gyfer Amcan 1. Dywedasoeh mewn ymateb i gwestiwn ynghynt nad oeddech yn ymwybodol o unrhyw brosiectau a oedd yn y fantol oherwydd diffyg cyllid cyfatebol. Fodd bynnag, gwelais gopi o lythyr a anfonwyd atoch gan Gyngor Sir Gaerfyrddin sy'n amcangyfrif y collir £5 miliwn o Amcan 1 a bod 1,000 o swyddi yn y fantol o ganlyniad i newidiadau i'r LRF. Yr ydych wedi bod yn hapus i gymeradwyo un o'r prosiectau hynny ar sawl achlysur, sef Auto Technium ym Mhen-bre. Dywed Cyngor Sir Gaerfyrddin fod perygl gwirioneddol i'r prosiect hwnnw, a rhai eraill, oherwydd diffyg cyllid cyfatebol ar gyfer Amcan 1. A yw hynny'n ddigon o dystiolaeth i chi?

**Andrew Davies:** I have not yet seen that letter. I cannot be held responsible for not having read a letter that I have not yet received.

As I said in response to Janet Ryder, we are discussing with all local authorities that have received indicative allocations of LRF, any problems that they have identified. I have asked the Welsh European Funding Office to

cofio ein hymweliad â phrosiect Gelli-deg ym Merthyr Tudful, a gefnogir gan Amcan 1, am amser maith. Chwe mam a oedd am ddatblygu gweithgareddau ar gyfer eu plant a ddechreuodd y prosiect, sydd, ers hynny, wedi llwyddo i gyfrannu'n sylweddol tuag at fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol. Mae hyn yn enghraifft o'r ffordd y mae Amcan 1 yn darparu ar gyfer rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dyma'r hyn y mae pobl sy'n byw yn y cymunedau hynny am ei glywed, nid lol y gwrthbleidiau ynglŷn â phrinder arian cyfatebol honedig.

Er nad ydym o bosibl yn ei esgusodi, pe baem yn wynebu dewisiadau a chyfyngiadau pobl sy'n gysylltiedig â'r economi ddu, gallem, yn wir, ddilyn yr un llwybr. Yr ydym yn helpu'r bobl hyn i fagu hyder, ennill cymwysterau a sgiliau fel y gallant ailymuno â'r farchnad gyflogaeth. Yn amlwg, mae'r cymunedau hynny yn wynebu heriau sylweddol, ond bydd Amcan 1 yn helpu i fynd i'r afael â hwy.

**Elin Jones:** There is a real threat to the increase in economic activity because of a lack of match funding for Objective 1. In response to an earlier question, you said that you were not aware of any projects that were being jeopardised from a lack of match funding. However, I have seen a copy of a letter sent to you by Carmarthen County Council, which estimates that, as a result of changes to LRF, £5 million will be lost from Objective 1 and that 1,500 jobs are at risk. You have been happy to commend one of those projects on several occasions, namely Auto Technium in Pembrey. Carmarthen County Council has said that that project, and others, are at risk from a lack of match funding for Objective 1. Is that sufficient evidence for you?

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi gweld y llythyr hwnnw hyd yma. Ni allaf fod yn gyfrifol am beidio â darllen llythyr nad wyf wedi ei dderbyn eto.

Fel y dywedais mewn ymateb i Janet Ryder, yr ydym yn trafod unrhyw broblemau a nodwyd ganddynt gyda phob awdurdod lleol sydd wedi derbyn dyraniadau dangosol o'r gronfa adfywio lleol. Yr wyf wedi gofyn i

discuss with them how match funding issues can be addressed. I am confident that those negotiations will have a successful outcome. To say that they will fail at this stage, or that the jobs will be lost, is shroud waving of the worst kind.

**Jenny Randerson:** I am interested to hear you say that you are unaware of any project that has failed because there is one in your own backyard, namely the film fund. Is it not the case that a fully worked-up imaginative proposal—which would rely on Objective 1 money, would take place in the Objective 1 areas, would provide highly skilled jobs in a new industry and a good level of employment in Wales—has been abandoned by the Labour Welsh Assembly Government because it does not have match funding? You say that you are undertaking a review of the cultural industries, but are you aware that, if you undertake a review of the film fund, it will be too late for it to apply for Objective 1 money?

**Andrew Davies:** The Culture Minister decided not to proceed with the film fund because it was regarded as a high-risk venture. It was felt that we should be more prudent and consider it in terms of the review of the creative industries that I have asked the WDA to undertake. I know that you have a particular interest in this matter, Jenny, but my remit, as the Minister for Economic Development and Transport, is to ensure that we invest our resources—those of the Government or structural funds—to raise GDP. It is about enhancing the commercial side of the film, television and new media sector and not providing a hidden subsidy to an already subsidised sector. However, this matter is being addressed by the WDA in its review of the creative industries. I am confident that the outcome will be positive for the commercial sector and not the subsidised sector.

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru drafod sut y gellir mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag arian cyfatebol gyda hwy. Yr wyf yn hyderus y bydd canlyniad llwyddiannus i'r negodiadau hynny. Mynd o flaen gofid fyddai dweud y byddant yn methu ar y cam hwn, neu y caiff y swyddi eu colli.

**Jenny Randerson:** Mae'n ddiddorol eich clywed yn dweud nad ydych yn ymwybodol o unrhyw brosiect sydd wedi methu gan fod un yn eich ardal chi, sef y gronfa ffilm. Onid yw'n wir bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnu ar gynnig dychmygus a ddatblygwyd yn llawn—a fyddai'n dibynnu ar arian Amcan 1, yn cael ei weithredu yn ardaloedd Amcan 1, yn darparu swyddi hyfedr mewn diwydiant newydd a chyflogaeth helaeth yng Nghymru—am nad oes ganddi arian cyfatebol? Dywedwch eich bod yn cynnal adolygiad o'r diwydiannau diwylliannol, ond a ydych yn ymwybodol, os byddwch yn cynnal adolygiad o'r gronfa ffilm, y bydd yn rhy hwyr iddi wneud cais am arian Amcan 1?

**Andrew Davies:** Penderfynodd y Gweinidog dros Ddiwylliant beidio â pharhau â'r gronfa ffilm oherwydd fe'i hystyriwyd fel menter yr oedd llawer o risgiau yn gysylltiedig â hi. Teimlwyd y dylem fod yn fwy pwylllog a'i hystyried yn nhermau'r adolygiad o'r diwydiannau creadigol yr wyf wedi gofyn i Awdurdod Datblygu Cymru ymgymryd ag ef. Gwn fod gennych ddiddordeb arbennig yn y mater hwn, Jenny, ond fy nghylch gwaith i, fel Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, yw sicrhau ein bod yn buddsoddi ein hadnoddau—adnoddau'r Llywodraeth neu'r cronfeydd strwythurol—i gynyddu'r cynnyrch mewnwladol crynswth. Mae'n ymwneud â gwella ochr fasnachol y sector ffilm, teledu a chyfryngau newydd a pheidio â rhoi cymhorthdal cudd i sector sydd eisoes yn cael cymhorthdal. Fodd bynnag, mae Awdurdod Datblygu Cymru yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn ei adolygiad o'r diwydiannau creadigol. Yr wyf yn hyderus y bydd y canlyniad yn un cadarnhaol ar gyfer y sector masnachol ac nid y sector sy'n cael cymorthdaliadau.

**Datganiad ar Araith y Frenhines gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru**  
**Statement on the Queen's Speech by the Secretary of State for Wales**

**Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Peter Hain):** Diolch, Lywydd, mae'n bleser mawr i mi fod yma unwaith eto.

It is a great pleasure to be invited to speak to you on the Queen's Speech. In the past year, as Secretary of State, I have taken forward my pledge to you to work with the Assembly to build and promote a world-class Wales—a Wales with a highly skilled, high-quality economy with top-class public services, and a Wales that is determined not to be second best. We have got a good story to tell. In the past, when the world did badly, Wales did much worse. Today, in a period when the world has been doing badly, Wales has done much better. There are more jobs, greater growth, low interest rates, higher public investment and sustained stability. We have the lowest public debt almost anywhere in world, the lowest interest rates since 1955, the lowest inflation since the 1960s, and the lowest unemployment for 25 years. Of all the major economies, the British economy has been the fastest growing, despite the worst global slowdown for nearly 30 years. In addition, Wales has seen the biggest increase in employment rates of any economic region of Britain—it has increased by 2.9 per cent since September last year. That is higher than all the EU countries apart from Denmark, Sweden and the Netherlands, and better than Japan, Canada and the United States of America. Who could have imagined that in the 1980s and 1990s? Wales has also seen the biggest fall in the economic inactivity rate, which has decreased by 2.6 per cent since September last year. That is the biggest fall of any British economic region. That means Wales has 61,000 more people in work than at this time last year, there are 43,000 fewer people inactive in the economy, and business activity has accelerated at its fastest rate for eight months to August.

2.50 p.m.

**The Secretary of State for Wales (Peter Hain):** Thank you, Presiding Officer, it is a great pleasure for me to be here once again.

Mae'n bleser mawr cael fy ngwahodd i'ch annerch ar Araith y Frenhines. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fel Ysgrifennydd Gwladol, yr wyf wedi gweithredu ar fy addewid i chi i weithio gyda'r Cynulliad i greu a hyrwyddo Cymru o'r radd flaenaf—Cymru gydag economi fedrus, o ansawdd uchel gyda gwasanaethau cyhoeddus ardderchog, a Chymru sy'n benderfynol o beidio â bod yn eilradd. Mae gennym stori dda i'w hadrodd. Yn y gorffennol, pan wnaeth y byd yn wael, gwnaeth Cymru yn llawer gwaeth. Heddiw, mewn cyfnod pan fo'r byd wedi bod yn gwneud yn wael, mae Cymru wedi gwneud yn llawer gwell. Mae mwy o swyddi, mwy o dwf, cyfraddau llog isel, mwy o fuddsoddiad cyhoeddus a sefydlogrwydd cynaledig. Mae gennym y ddyled gyhoeddus isaf bron yn y byd, y cyfraddau llog isaf ers 1955, y chwyddiant isaf ers y 1960au, a'r diweithdra isaf ers 25 mlynedd. O'r holl economïau mawr, economi Prydain yw'r un sydd wedi tyfu gyflymaf, er gwaethaf yr arafwch gwaethaf yn fyd-eang ers bron 30 mlynedd. Yn ogystal, o holl ranbarthau economaidd Prydain, Cymru sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn cyfraddau cyflogaeth—mae wedi cynyddu 2.9 y cant ers Medi y llynedd. Mae hynny'n uwch na holl wledydd yr UE ar wahân i Ddenmarc, Sweden a'r Iseldiroedd, ac yn well na Japan, Canada ac Unol Daleithiau America. Pwy allai fod wedi dychmygu hynny yn y 1980au a'r 1990au? Gwelodd Cymru y gostyngiad mwyaf yn y gyfradd anweithgarwch economaidd, sydd wedi gostwng 2.6 y cant ers Medi y llynedd. Dyna'r gostyngiad mwyaf o blith yr holl ranbarthau economaidd ym Mhrydain. Golyga hynny fod gan Gymru 61,000 yn fwy o bobl mewn gwaith nag ar yr adeg hon y llynedd. Mae 43,000 yn llai o bobl yn anweithgar yn yr economi, ac mae gweithgarwch busnes wedi cyflymu ar ei gyfradd gyflymaf am wyth mis hyd at Awst.

The Welsh economy is forecast to outperform the UK in 2003, with 6,000 start-ups in Wales last year and average earnings up 4.7 per cent in 2002, which is a bigger increase than the UK as a whole. The Treasury in Westminster has also delivered huge public investment in Wales. That economic success is the result of a strong partnership between the Government in Westminster and the Assembly Government. It has been achieved through partnership with England, and not by trying to go it alone. We are not doing things differently in Wales for the sake of it, but because the needs and interests of Wales are different. The people of Wales are not only proud to be Welsh, but to be British as well, and a world-class Wales means not only world-class businesses, but world-class respect for hard-working people. That is why the Queen's Speech has set out legislation to create safe and secure communities, to provide lifelong opportunities and social justice, continued economic stability and better day-to-day quality of life, all underpinned by a modern democracy.

First, we intend to create a safer, more secure environment for our children, with greater protection under the Children's Bill. The Government is working closely with Assembly Ministers to agree the read-across to Wales. There will be a children's commissioner for England—where Wales leads, England follows. The Fire and Rescue Services Bill will improve the safety and security of our communities and devolve responsibilities for the service to Wales. To increase security and safety for our citizens, we will publish a draft Identity Cards Bill. However, it will be a matter for the Assembly whether possession of the ID card would be necessary to access public services in Wales. The Immigration and Asylum Bill will close loopholes exploited by people trafficking in illegal immigrants. The Civil Contingencies Bill will arm us better in the fight against terrorism, and the Domestic Violence, Crime and Victims Bills will also increase the safety and security of our communities. One quarter of all violent crime is committed against

Rhagwelir y bydd economi Cymru yn perfformio'n well na'r DU yn 2003, gyda 6,000 o fusnesau newydd yn dechrau yng Nghymru y llynedd a chynnydd o 4.7 y cant mewn enillion cyfartalog yn 2002, sy'n gynydd mwy na'r DU gyfan. Mae'r Trysorlys yn San Steffan hefyd wedi gwneud buddsoddiadau cyhoeddus enfawr yng Nghymru. Canlyniad partneriaeth gref rhwng y Llywodraeth yn San Steffan a Llywodraeth y Cynulliad yw'r llwyddiant economaidd hwnnw. Fe'i cyflawnwyd drwy bartneriaeth â Lloegr, ac nid drwy geisio gwneud hyn ar ein pennau ein hunain. Nid ydym yn gwneud pethau yn wahanol yng Nghymru dim ond er mwyn bod yn wahanol, ond am fod anghenion a buddiannau pobl Cymru yn wahanol. Mae pobl Cymru nid yn unig yn falch o fod yn Gymry, maent yn falch o fod yn Brydeinwyr hefyd, ac mae Cymru o'r radd flaenaf yn golygu nid yn unig fusnesau o'r radd flaenaf, ond parch o'r radd flaenaf i bobl sy'n gweithio'n galed. Dyna pam y mae Araith y Frenhines wedi gosod deddfwriaeth i greu cymunedau diogel, i roi cyfleoedd gydol oes a chyfiawnder cymdeithasol, sefydlogrwydd economaidd parhaol a gwell ansawdd bywyd o ddydd i ddydd, a'r cyfan wedi ei ategu gan ddemocratiaeth fodern.

Yn gyntaf, bwriadwn greu amgylchedd mwy diogel i'n plant, gyda mwy o ddiogelwch o dan y Mesur Plant. Mae'r Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda Gweinidogion y Cynulliad i gytuno ar sut y gellir ei wneud yn berthnasol i Gymru. Bydd comisiynydd plant i Loegr—lle mae Cymru yn arwain, bydd Lloegr yn dilyn. Bydd y Mesur Gwasanaethau Tân ac Achub yn gwneud ein cymunedau yn fwy diogel ac yn datganoli cyfrifoldebau dros y gwasanaeth i Gymru. Er mwyn gwella diogelwch i'n dinasyddion, byddwn yn cyhoeddi Mesur Cardiau Adnabod drafft. Fodd bynnag, y Cynulliad fydd yn penderfynu a fyddai meddu ar Gerdyn Adnabod yn angenrheidiol i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y Mesur Mewnffudo a Cheisio Lloches yn dileu'r diffygion yn y gyfraith y manteisir arnynt gan bobl sy'n cludo mewnffudwyr anghyfreithlon am arian. Bydd y Mesur Paratodau Sifil yn ein paratoi yn well yn y frwydr yn erbyn terfysgaeth, a bydd y Mesurau Trais yn y Cartref,

women in their own homes, and two women die every week from domestic violence; that is why this legislation is so important.

In addition, the Health Protection Agency Bill will provide for more integrated UK-wide arrangements to tackle the problems posed by infectious diseases and other hazards. Lifelong opportunities and social justice will be enhanced by the Higher Education Bill, which will transfer to the Assembly responsibility for student support for higher and further education students domiciled in Wales, including variable fees. New grants and extra support will enable more young people to benefit from higher education. Upfront tuition fees will be abolished, switching the burden from parents to graduates to pay back only if they are in work and earning more than £15,000 per annum. Universities will be placed on a sound financial footing. The Pensions Bill will encourage employers to provide good quality pensions and encourage individuals to save money effectively for their retirement. Prompted by the tragic and disgraceful plight of workers at Allied Steel and Wire, a pensions protection fund will be set up to protect employees and pensioners if companies fail. Every newborn child will benefit under the Child Trust Fund Bill. The 31,800 children who, on average, are born each year in Wales will each receive an endowment of £250, with an additional endowment of £250 for children in low-income families. The draft Charities Bill will reform charity law and allow the Secretary of State for Wales to appoint a commissioner.

Continued economic stability and better day-to-day quality of life will be brought about through the Energy Bill, which will promote safer and greener energy. The Companies (Audit, Investigations and Community Enterprise) Bill will amend the law relating to companies' audit and accounts arrangements—preventing any Enron-type

Troseddau a Dioddefwyr yn gwneud ein cymunedau yn fwy diogel hefyd. Cyflawnir chwarter o'r holl droseddau treisgar yn erbyn menywod yn eu cartrefi eu hunain, ac mae dwy fenyw yn marw bob wythnos o drais yn y cartref; dyna pam y mae'r ddeddfwriaeth hon mor bwysig.

Yn ogystal, bydd y Mesur Asiantaeth Diogelu Iechyd yn darparu ar gyfer trefniadau mwy integredig ar draws y DU i fynd i'r afael â'r problemau a achosir gan glefydau heintus a pheryglon eraill. Bydd y Mesur Addysg Uwch yn gwella cyfleoedd gydol oes a chyfiawnder cymdeithasol, a bydd yn trosglwyddo cyfrifoldeb dros gymorth i fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr addysg uwch ac addysg bellach sy'n byw yng Nghymru i'r Cynulliad, gan gynnwys ffioedd amrywiadwy. Bydd grantiau newydd a chymorth ychwanegol yn galluogi mwy o bobl ifanc i elwa ar addysg uwch. Caiff ffioedd dysgu ymlaen llaw eu diddymu, gan drosglwyddo'r baich o'u had-dalu o rieni i raddedigion ond dim ond os ydynt mewn gwaith ac yn ennill mwy na £15,000 y flwyddyn. Bydd prifysgolion ar sylfaen gadarn yn ariannol. Bydd y Mesur Pensiynau yn annog cyflogwyr i ddarparu pensiynau da ac yn annog unigolion i gynilo arian yn fwy effeithiol ar gyfer eu hymddeoliad. Wedi ei hysgogi gan helynt druenus a gwarthus y gweithwyr yn Allied Steel and Wire, caiff cronfa diogelu pensiynau ei sefydlu i ddiogelu cyflogeion a phensiynwyr os bydd cwmnïau yn methu. Bydd pob plentyn newydd-anedig ar ei ennill o dan y Mesur Cronfa Ymddiriedolaeth Plant. Bydd y 31,800 o blant, ar gyfartaledd, a enir yng Nghymru bob blwyddyn, yn cael gwaddol o £250 yr un, gyda gwaddol ychwanegol o £250 ar gyfer plant o deuluoedd ar incwm isel. Bydd y Mesur Elusennau drafft yn diwygio cyfraith elusennau ac yn caniatáu i Ysgrifennydd Gwladol Cymru benodi comisiynydd.

Caiff sefydlogrwydd economaidd parhaol a gwell ansawdd bywyd o ddydd i ddydd eu darparu drwy'r Mesur Ynni, a fydd yn hyrwyddo ynni mwy diogel a gwyrdd. Bydd y Mesur Cwmnïau (Archwilio, Ymchwiliadau a Mentrau Cymunedol) yn diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â threfniadau archwilio a chyfrifon cwmnïau—

situations—and allow community interest companies to be set up. Among other things, the Employment Relations Bill strengthens the protection for lawful strikers, following the Friction Dynamics case in north Wales.

The Housing Bill will create a new social housing ombudsman for Wales and introduce a national licensing scheme for housing in multiple occupation. The Planning and Compulsory Purchase Bill will speed up the planning process, which will encourage more business investment in Wales. The draft School Transport Bill will enable new school-bus schemes to tackle car use at peak times for the school run. The Traffic Management Bill will also help to ease congestion. Our commitment to building a modern democracy will be enhanced by abolishing the ancient right of hereditary peers to make our laws and there will also be other reforms to the House of Lords. *[Interruption.]*

**The Presiding Officer:** Order. We are not discussing the House of Lords; we are listening to a statement by the Secretary of State.

**Peter Hain:** The Public Audit (Wales) Bill will establish a single public audit body for Wales. It is the second all-Wales Bill to be subject to pre-legislative scrutiny by Parliament and the National Assembly. The European Parliamentary and Local Electoral (Pilots) Bill will enable the Electoral Commission to designate certain areas to pilot all-postal votes, and other innovative electoral arrangements, in next year's elections. The Constitutional Reform Bill will transfer appeals under the Government of Wales Act 1998 from the Privy Council to a new supreme court, whose members will be selected not by the Prime Minister, but by a new independent judicial commission.

Despite a period of global uncertainty, the British economy has continued to grow. It is experiencing the longest unbroken economic expansion on record and enjoying the longest period of sustained low inflation and interest

gan atal unrhyw sefyllfaoedd tebyg i Enron—a chaniatáu i gwmnïau budd cymunedol gael eu sefydlu. Ymhlith pethau eraill, mae'r Mesur Cysylltiadau Cyflogaeth yn cryfhau diogelwch i streicwyr cyfreithlon, yn dilyn achos Friction Dynamics yn y Gogledd.

Bydd y Mesur Tai yn creu ombwdsmon tai cymdeithasol newydd i Gymru ac yn cyflwyno cynllun trwyddedu cenedlaethol ar gyfer tai amlfeddiannaeth. Bydd y Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn cyflymu'r broses gynllunio, a fydd yn annog mwy o fusnesau i fuddsoddi yng Nghymru. Bydd y Mesur Cludiant Ysgolion drafft yn ei gwneud yn bosibl i gynlluniau bysiau ysgol newydd fynd i'r afael â'r broblem o ddefnyddio ceir yn ystod oriau brig i fynd â phlant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Bydd y Mesur Rheoli Traffig yn helpu hefyd i leddfu tagfeydd. Caiff ein hymrwymiad i greu democratiaeth fodern ei wella drwy ddiddymu hawl hynafol arglwyddi etifeddol i ddeddfu a bydd diwygiadau eraill hefyd i Dŷ'r Arglwyddi. *[Torri ar draws.]*

**Y Llywydd:** Trefn. Nid ydym yn trafod Tŷ'r Arglwyddi; yr ydym yn gwrandao ar ddatganiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Peter Hain:** Bydd Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn sefydlu un corff archwilio cyhoeddus i Gymru. Dyma'r ail Fesur i Gymru gyfan sy'n destun proses graffu cyn deddfu gan y Senedd a'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd y Mesur Etholiadau Senedd Ewrop ac Etholiadau Lleol (Cynlluniau Peilot) yn galluogi'r Comisiwn Etholiadol i ddynodi rhai ardaloedd i gynnal pleidleisiau drwy'r post ar ffurf cynllun peilot, a threfniadau etholiadol arloesol eraill, yn etholiadau'r flwyddyn nesaf. Bydd y Mesur Diwygio Cyfansoddiadol yn trosglwyddo apeliadau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 o'r Cyfrin Gyngor i oruchaf lys newydd, y caiff ei aelodau eu dewis nid gan y Prif Weinidog, ond gan gomisiwn barnwrol annibynnol newydd.

Er gwaethaf cyfnod o ansicrwydd byd-eang, mae economi Prydain wedi parhau i dyfu. Mae'n mynd drwy'r cyfnod di-dor hwyaf mewn hanes o ehangu economaidd a'r cyfnod hwyaf o chwyddiant a chyfraddau llog isel



rates for over 40 years. The Government's long-term goal is to raise the sustainable rate of productivity growth in the UK, closing the gap that exists between Britain and other advanced industrialised countries. If communities in Wales—many of which have suffered from years of neglect and underinvestment—are to succeed, then they need strong support from Governments at both Westminster and Cardiff; Governments that are committed to redistribution by legislating, by targeting resources at deprived communities, and by promoting fairness, full employment and enterprise. Our commitment to both economic strength and social justice differentiates our Government. Without economic strength and stability we could not deliver the record levels of sustained public investment through which we are improving education, health and other public services, and the infrastructure in Wales. While we can be, and are, environmentalists, democrats, libertarians and pluralists, we stand on the left as a Government because we believe that society can and should be more equal. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.']

**The Presiding Officer:** Order. The Secretary of State is making an interesting statement. [Laughter.]

**Peter Hain:** We believe in greater equality and that our society is based upon extending individual liberty through social justice. Only through greater equality do people become free to reach their full potential. Today we renew our commitment to greater equality and, in so doing, we reassert our determination to fight poverty, uncertainty, insecurity and lack of ambition, wherever they are found in Wales.

Wales is a better place today than it was six years ago: crime has fallen; poverty has been reduced; education and health have improved; and many more people are in work. However, it can be even better. Through the legislation that I have set out today, coupled with the ambitious programme of the Welsh Assembly

cynaledig ers dros 40 mlynedd. Nod hirdymor y Llywodraeth yw codi'r gyfradd twf cynhyrchiant gynaliadwy yn y DU, gan gau'r bwlch sy'n bodoli rhwng Prydain a gwledydd diwydiannol datblygedig eraill. Er mwyn i gymunedau yng Nghymru lwyddo—ac mae llawer ohonynt wedi dioddef blynyddoedd o esgeulustod a thanfuddsoddiad—mae angen cefnogaeth gref gan Lywodraethau yn San Steffan a Chaerdydd; Llywodraethau sy'n ymrwymedig i ailddosbarthu drwy ddeddfu, drwy dargedu adnoddau tuag at gymunedau difreintiedig, a thrwy hyrwyddo tegwch, cyflogaeth lawn a mentergarwch. Mae ein hymrwymiad i gryfder economaidd a chyfiawnder cymdeithasol yn ein gwneud yn wahanol i lywodraethau eraill. Heb gryfder a sefydlogrwydd economaidd ni allem gyflawni'r lefelau gorau erioed o fuddsoddiad cyhoeddus cynaledig a ddefnyddiwn i wella addysg, iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill, a'r seilwaith yng Nghymru. Er y gallwn fod, ac er ein bod, yn amgylcheddwyr, yn ddemocratiaid, yn libertariaid ac yn lluosogaethwyr, safwn ar y chwith fel Llywodraeth gan ein bod yn credu y gall cymdeithas fod yn fwy cyfartal ac y dylai fod yn fwy cyfartal. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.']

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud datganiad diddorol. [Chwerthin.]

**Peter Hain:** Credwn mewn mwy o gydraddoldeb a bod ein cymdeithas yn seiliedig ar ymestyn rhyddid yr unigolyn drwy gyfiawnder cymdeithasol. Dim ond drwy fwy o gydraddoldeb y daw pobl yn rhydd i wireddu eu potensial llawn. Heddiw, adnewyddwn ein hymrwymiad i fwy o gydraddoldeb ac, wrth wneud hynny, ailddatganwn ein penderfyniad i ymladd yn erbyn tlodi, ansicrwydd, a diffyg uchelgais, lle bynnag y bônt yng Nghymru.

Mae Cymru yn lle gwell heddiw nag yr oedd chwe blynedd yn ôl: mae nifer y troseddau wedi gostwng; mae tlodi wedi lleihau; mae addysg ac iechyd wedi gwella; ac mae llawer mwy o bobl mewn gwaith. Fodd bynnag, gall fod hyd yn oed yn well. Drwy'r ddeddfwriaeth a nodais heddiw, ynghyd â rhaglen uchelgeisiol Llywodraeth Cynulliad

Government, over the coming year we will move another step closer to creating our vision of a truly world-class Wales.

3.00 p.m.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones):** Diolchaf i'r Ysgrifennydd Gwladol am ei ddatganiad, a chroesawaf y dull newydd o drafod Araith y Frenhines, gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflwyno datganiad, cymryd cwestiynau, ac yna yn cymryd rhan yn y drafodaeth ddilynol. Croesawn hynny fel cam sylweddol ymlaen yn y ffordd y mae Aelodau Cynulliad o bob plaid yn gallu gofyn cwestiynau iddo ac y gall yntau, ar ddiwedd y ddadl, ystyried y pwyntiau a wnaed.

Ysgrifennydd Gwladol, nid ydym yn rhannu eich syniadau ynglŷn â chyflwr economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, nac eich darlun o'r berthynas rhwng Llywodraethau Llundain a'r Cynulliad. Yn ystod y blynyddoedd y mae Llafur wedi bod mewn grym, collwyd 18,000 o swyddi yn y sector gweithgynhyrchu; mae'r bwlch rhwng y tlawd a'r cyfoethog wedi ehangu; ac mae nifer y plant mewn tlodi wedi codi'n fwy nac o dan unrhyw Lywodraeth arall. Gofynnodd Llywodraeth y Cynulliad i chi gyflwyno pedwar Mesur yn Araith y Frenhines, ond ni dderbyniwyd yr un ohonynt gan eich Llywodraeth. Yr unig Fesur i Gymru yn unig yw hwnnw ar archwilio—yr ydym wrth gwrs yn ei groesawu. Fodd bynnag, nid yw'r un o'r pedwar Mesur—gwyddoch yn iawn beth ydynt, gan i Carwyn Jones ddweud wrthym pan oedd yn Drefnydd—ar addysg, ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus, twristiaeth a thrafnidiaeth, wedi'i gynnwys yn Araith y Frenhines. Y cwestiwn, felly, yw: pam nad yw Llywodraeth San Steffan yn derbyn yr un o'r mesurau hynny fel blaenoriaeth?

Some of the measures that are not Wales-only Bills, but which will impact on Wales and the Assembly's deliberations, are welcome, such as the Domestic Violence, Crime and Victims Bill. We all share your comments on the effect of domestic violence on families and the steps to address that problem, and I welcome the fact that the

Cymru, byddwn, yn ystod y flwyddyn i ddod, yn symud gam yn agosach at greu ein gweledigaeth o Gymru sy'n wirioneddol o'r radd flaenaf.

**The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones):** I thank the Secretary of State for his statement, and I welcome the new method of debating the Queen's Speech, with the Secretary of State presenting his statement, taking questions, and then participating in the ensuing debate. I welcome that as a significant step forward in the way in which Assembly Members of all parties can question him and that he, at the end of the debate, can consider the points raised.

Secretary of State, we do not share your view of the state of the Welsh economy or public services in Wales, or your portrayal of the relationship between the Westminster and Assembly Governments. During the years that Labour has been in power, 18,000 jobs have been lost in the manufacturing sector; the gap between rich and poor has widened; and the number of children in poverty has risen more than under any other Government. The Assembly Government asked you to include four Bills in the Queen's Speech, but not one of them was accepted by your Government. The only all-Wales Bill is the audit Bill—which, of course, we welcome. However, not one of the other four Bills—you know full well what they are, as Carwyn Jones told us when he was the Business Minister—on education, a public services ombudsman, tourism and transport, was included in the Queen's Speech. The question, therefore, is: why did the Westminster Government not accept any of those measures as a priority?

Croesewir rhai o'r mesurau nad ydynt yn Fesurau i Gymru yn unig, ond a fydd yn effeithio ar Gymru a phenderfyniadau'r Cynulliad, megis y Mesur Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr. Yr ydym oll yn rhannu eich sylwadau ar effaith trais yn y cartref ar deuluoedd a'r camau i fynd i'r afael â'r broblem honno, a chroesawaf y ffaith y

Social Justice and Regeneration Committee will have the opportunity to consider that Bill in detail. I also welcome the proposals in the Pensions Bill for a pension protection fund. You mentioned that one reason for introducing that fund is the awful plight of the former ASW workers, but the Bill will not assist those people. When you return to Westminster, will you argue the case that former ASW workers, who lost their pensions under such disgraceful circumstances, be brought within the remit of the Bill by means of retrospective regulations?

A matter that you skated over in your statement is the Bill to introduce top-up fees for students. I would like you, Secretary of State, to consider a number of issues in relation to that Bill. Labour has announced its Big Conversation in which people can put forward their views. If the result of that Big Conversation is that the public does not want to see the introduction of top-up fees, will the Westminster Government listen to those views? It is interesting that, at the last count, 19 of your Labour Westminster colleagues signed an early day motion against the introduction of top-up fees as proposed by the Government. Will their views be taken into account?

Is it not true that, in England, people have a real choice? They can avoid the introduction of top-up fees through either taxation or through a graduate tax, if they so wish. The people of England have that real choice. The people of Wales will not have that choice. If these proposals are transferred to Wales under this Bill, there will be no way in which the Welsh Assembly Government can raise fees, should it wish to do so, through taxation or a graduate tax. You have told us, starkly, what our two options are: either top-up fees are introduced in Wales after 2007, or, in your words to *The Western Mail*, we will have to,

‘take the money needed for shortfall from other budgets, health or school budgets’.

Is that a real choice? In my view, you are

bydd gan y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y cyfle i ystyried y Mesur hwnnw yn fanwl. Croesawaf hefyd y cynigion yn y Mesur Pensiynau ar gyfer cronfa diogelu pensiynau. Crybwyllasoch mai un rheswm dros gyflwyno'r gronfa honno yw helynt ofnadwy cyn weithwyr ASW, ond ni fydd y Mesur yn helpu'r bobl hynny. Pan ddychwelwch i San Steffan, a wnewch ddadlau y dylai achos cyn weithwyr ASW, a gollodd eu pensiynau o dan amgylchiadau mor warthus, ddod o fewn cylch gwaith y Mesur drwy gyfrwng rheoliadau ôl-weithredol?

Un mater y bu ichi brin gyffwrdd ag ef yn eich datganiad yw'r Mesur i gyflwyno ffioedd ychwanegol i fyfyrwyr. Hoffwn pe baech, Ysgrifennydd Gwladol, yn ystyried nifer o faterion mewn perthynas â'r Mesur hwnnw. Mae Llafur wedi cyhoeddi ei Sgwrs Fawr lle y gall pobl fynegi eu barn. Os mai canlyniad y Sgwrs Fawr honno yw nad yw'r cyhoedd am weld ffioedd ychwanegol yn cael eu cyflwyno, a wnaiff Llywodraeth San Steffan wrando ar y farn honno? Mae'n ddiddorol, pan gawsant eu cyfrif ddiwethaf, fod 19 o'ch cyd-aelodau Llafur yn San Steffan, wedi llofnodi cynnig cynnar-yn-y-dydd yn erbyn cyflwyno ffioedd ychwanegol fel a gynigiwyd gan y Llywodraeth. A gaiff eu barn hwy ei hystyried?

Onid yw'n wir, yn Lloegr, fod gan bobl ddewis gwirioneddol? Gallant osgoi ffioedd ychwanegol naill ai drwy drethiant neu drwy dreth graddedigion, os dymunant. Mae gan bobl Lloegr y dewis gwirioneddol hwnnw. Nid oes gan bobl Cymru y dewis hwnnw. Os trosglwyddir y cynigion hyn i Gymru o dan y Mesur hwn, ni fydd unrhyw ffordd y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru godi ffioedd, pe bai'n dymuno gwneud hynny, drwy drethiant neu drwy dreth graddedigion. Yr ydych wedi dweud wrthym, yn blwmp ac yn blaen, beth yw'r ddau opsiwn sydd gennym: naill ai y cyflwynir ffioedd ychwanegol yng Nghymru ar ôl 2007, neu, yn eich geiriau chi yn *The Western Mail*, bydd yn rhaid inni,

gymryd yr arian sydd ei angen ar gyfer y diffyg o gyllidebau eraill, cyllidebau iechyd neu ysgolion.

Ai dewis gwirioneddol yw hynny? Yn fy

handing your Minister for Education and Lifelong Learning in Wales, Jane Davidson, a poisoned chalice. I suggest that you take that poisoned chalice back to Westminster, remove the poison and come back with a chalice full of cash. We can then have a proper debate about tuition fees in Wales.

**Peter Hain:** I am grateful to Ieuan for welcoming at least some parts of the legislation, including the Domestic Violence, Crime and Victims Bill and the Pensions Bill. The case of the ASW workers was scandalous and disgraceful. As Ieuan will know from his previous profession, retrospective legislation is difficult. That is the problem. However, the relevant Ministers are still talking to the unions involved, and we will see what progress we can make.

Ieuan painted a completely fictional account of the Welsh economy. In his constituency of Ynys Môn, unemployment has fallen by 48.7 per cent, youth unemployment has fallen by 77.6 per cent, and long-term unemployment has fallen by nearly 70 per cent since 1997. That indicates that, in his own constituency, life has been getting better. It may not be good enough, but it is getting better, and it will continue to get better on the key indices.

The Confederation of British Industry has recently reported that manufacturing optimism is on the up, and 25,000 manufacturing jobs have been created in Wales over the last year or so. Yes, jobs have been lost, but they are being lost across the modern industrialised world, which makes it all the more important that we achieve world-class standards in manufacturing. The Minister for Economic Development and Transport is leading that policy on behalf of the Welsh Assembly Government.

Ieuan is plain wrong about children in poverty. Fewer children live in poverty across Britain since we came to power. Poverty among children increased steeply under the previous Conservative Governments. Ieuan asked why there was only one all-Wales Bill, namely the Public

marn i, yr ydych yn rhoi'r cwpan gwenwynig i'ch Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yng Nghymru, Jane Davidson. Awgrymaf eich bod yn mynd â'r gwpan wenwynig yn ôl i San Steffan, yn cael gwared â'r gwenwyn ac yn dychwelyd gyda chwpan yn llawn arian. Gallwn wedyn gael dadl briodol ar ffioedd dysgu yng Nghymru.

**Peter Hain:** Yr wyf yn ddiolchgar i Ieuan am groesawu o leiaf rannau o'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Mesur Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr a'r Mesur Pensiynau. Yr oedd achos gweithwyr ASW yn gywilyddus ac yn warthus. Fel y gŵyr Ieuan o'i alwedigaeth flaenorol, mae deddfwriaeth ôl-weithredol yn anodd. Dyna'r broblem. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog perthnasol yn dal i siarad â'r undebau dan sylw a byddwn yn gweld pa gynnydd y gallwn ei wneud.

Creodd Ieuan ddarlun hollol ffuglennol o economi Cymru. Yn ei etholaeth yn Ynys Môn, mae diweithdra wedi gostwng 48.7 y cant, diweithdra ymhlith pobl ifanc wedi gostwng 77.6 y cant, a diweithdra hirdymor wedi gostwng bron 70 y cant ers 1997. Mae hynny'n awgrymu bod bywyd, yn ei etholaeth ef ei hun, wedi bod yn gwella. Efallai nad yw'n ddigon da, ond mae'n gwella, a bydd yn parhau i wella o ran y mynegeion allweddol.

Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain wedi cofnodi yn ddiweddar bod optimistiaeth ym maes gweithgynhyrchu ar i fyny, a chrewyd 25,000 o swyddi gweithgynhyrchu yng Nghymru dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Do, collwyd swyddi, ond cânt eu colli ar draws y byd diwydiannol modern, sy'n ei gwneud yn bwysicach ein bod yn cyrraedd safonau o'r radd flaenaf ym maes gweithgynhyrchu. Mae'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn arwain y blaen ar y polisi hwnnw ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Ieuan yn amlwg yn anghywir ynglŷn â phlant mewn tlodi. Mae llai o blant yn byw mewn tlodi ledled Prydain ers inni ddod i rym. Cynyddodd tlodi ymhlith plant yn sydyn o dan Lywodraethau blaenorol y Ceidwadwyr. Gofynnodd Ieuan pam mai dim ond un Mesur sydd ar gyfer Cymru gyfan,

Audit (Wales) Bill. That Bill underwent pre-legislative scrutiny, and it is now included in the Queen's Speech to be taken forward. It will be introduced in the House of Lords shortly. However, in addition to the Wales-only Bill, seven Bills have major devolution responsibilities for Wales. Plaid Cymru and some other parties in the Assembly always seek to overlook that, but each major piece of legislation directly affecting the Assembly's powers contains either Wales-only clauses, as in the cases of the Planning and Compulsory Purchase Bill, the Housing Bill and others, or major devolution, as with the Children's Bill, the Fire and Rescue Services Bill and the Higher Education Bill. Therefore, effectively, the Assembly is being empowered to do what it wants to do.

What is the alternative on the question of student fees? We have heard the Conservative alternative: the Conservatives believe in denying a quarter of a million students across Britain the opportunity of going to university. Thousands of students in Wales would be cut off from the opportunity of going to university under Conservative policies. The second alternative is that apparently favoured by Plaid Cymru and, I understand, the Liberal Democrats, namely to increase taxes. If it is their policy to load more taxes onto hard-working families in Wales, they ought to tell the electorate that. In addition, if one were to consider raising taxes to generate extra revenue, would you put it into higher education, or would you channel it, say, into Sure Start programmes and to the most deprived children in our communities, so that they have the chance at the beginning of their lives, to get the educational strength to build upon and have a chance of going to university later on?

3.10 p.m.

I will end on Ieuan's points about fees and Plaid Cymru's stance on this. It is staggering that a party that claims to be the party of Wales is now against devolving responsibility for student finance to Wales, and enabling the Assembly and the Welsh Assembly Government to determine its own structure and its own fees arrangements for

sef Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Craffwyd ar y Mesur hwnnw cyn iddo fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol, a bellach fe'i cynhwysir yn Araith y Frenhines i weithredu arno. Caiff ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi yn fuan. Fodd bynnag, yn ogystal â'r Mesur i Gymru yn unig, mae gan saith Mesur gyfrifoldebau datganoli o bwys i Gymru. Mae Plaid Cymru a rhai pleidiau eraill yn y Cynulliad bob amser yn ceisio anwybyddu hynny, ond mae pob darn mawr o ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar bwerau'r Cynulliad yn uniongyrchol yn cynnwys cymalau i Gymru yn unig, fel yn achos y Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol, y Mesur Tai ac eraill, neu ddatganoli o bwys, fel gyda'r Mesur Plant, y Mesur Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Mesur Addysg Uwch. Felly, yn y bôn, mae'r Cynulliad yn cael y pwerau i wneud yr hyn y mae am ei wneud.

Beth yw'r dewis arall o ran ffioedd myfyrwyr? Clywsom am ddewis y Ceidwadwyr: cred y Ceidwadwyr y dylid amddifadu chwarter miliwn o fyfyrwyr ledled Prydain o'r cyfle i fynd i brifysgol. Byddai miloedd o fyfyrwyr yng Nghymru yn colli'r cyfle i fynd i brifysgol o dan bolisiau'r Ceidwadwyr. Yr ail ddewis yw'r un a ffafirir yn ôl pob tebyg gan Blaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol, fel y deallaf, sef cynyddu trethi. Os mai eu polisi yw trethu teuluoedd sy'n gweithio'n galed yng Nghymru hyd yn oed yn fwy, dylent ddweud hynny wrth yr etholwyr. Yn ogystal, pe bai rhywun yn ystyried codi trethi i gynhyrchu refeniw ychwanegol, a fyddech yn ei wario ar addysg uwch, neu a fyddech yn ei sianelu tuag at raglenni Cychwyn Cadarn a'r plant mwyaf difreintiedig yn ein cymunedau, fel eu bod yn cael y cyfle ar ddechrau eu bywydau i gael y cryfder addysgol i adeiladu arno a'r cyfle i fynd i brifysgol yn nes ymlaen?

Deuaf i ben drwy sôn am bwyntiau Ieuan ar ffioedd a safbwynt Plaid Cymru ar hyn. Mae'n syfrdanol bod plaid sy'n honni ei bod yn blaid i Gymru yn erbyn datganoli cyfrifoldeb dros gyllid myfyrwyr i Gymru, a galluogi'r Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru i benderfynu ar ei strwythur ei hun a'i threfniadau ei hun ar gyfer ffioedd i fyfyrwyr

students in Wales. It is precisely—

**Ieuan Wyn Jones:** Where is the money?

**Peter Hain:** The money is becoming passported, as Jane Davidson and Rhodri Morgan have negotiated, with the devolution of responsibility—

**Ieuan Wyn Jones:** No it is not.

**Peter Hain:** Yes it is, because—  
[*Interruption.*]

**The Presiding Officer:** Order. I cannot have the leader of the opposition asking sedentary supplementary questions.

**Peter Hain:** I can see why the nationalists are embarrassed about their policy, because they are denying the Assembly the right to determine its own fees policy and its own student finance policy. That shows again why our party—the Labour Party—is not just the party of Britain, but the party of Wales as well.

**Nick Bourne:** I welcome the Secretary of State on his annual visit. He is rather like Father Christmas, except that we do not want most of the presents that he brings.

First, let us consider your economic analysis, Secretary of State. Perhaps sitting next to Andrew Davies, even for a short period of time, has meant that some mythology has rubbed off onto you. There are job losses across the manufacturing and service sectors, there is a widening wealth gap with England, and farming incomes are on the floor. This is not a country running with milk and honey, and it would be wise for you to realise that.

There are, of course, items in the Queen's Speech, as in any Queen's Speech, that we welcome. We welcome moves on domestic violence, on child protection, and on civil contingencies. I will mention some specifics. On tuition fees, I almost warmed to the proposals on higher education when the leader of the opposition said that it was a poisoned chalice for Jane Davidson. The proposals cannot be all bad, therefore, and there may be items in them that we can

yng Nghymru. Dyma'n union—

**Ieuan Wyn Jones:** Ble mae'r arian?

**Peter Hain:** Caiff yr arian ei drosglwyddo dros y ffin, fel y mae Jane Davidson a Rhodri Morgan wedi ei negodi, gan ddatganoli cyfrifoldeb—

**Ieuan Wyn Jones:** Nac ydyw.

**Peter Hain:** Ydyw, oherwydd—[*Torri ar draws.*]

**Y Llywydd:** Trefn. Ni allaf gael arweinydd yr wrthblaid yn gofyn cwestiynau atodol ar ei eistedd.

**Peter Hain:** Gallaf weld pam fod gan genedlaetholwyr gywilydd o'u polisi, gan eu bod yn gwarafun yr hawl i'r Cynulliad bennu ei bolisi ei hun o ran ffioedd a'i bolisi ei hun o ran cyllid myfyrwyr. Dengys hynny eto pam nad plaid Prydain yn unig yw ein plaid ni—y Blaid Lafur—ond plaid Cymru hefyd.

**Nick Bourne:** Croesawaf yr Ysgrifennydd Gwladol ar ei ymweliad blynyddol. Mae'n eithaf tebyg i Siôn Corn, eithr nad ydym am gael y rhan fwyaf o'i anrhegion.

Yn gyntaf, gadewch inni ystyried eich dadansoddiad economaidd, Ysgrifennydd Gwladol. Efallai fod eistedd wrth ymyl Andrew Davies, hyd yn oed am gyfnod byr o amser, wedi dylanwadu arnoch. Collwyd swyddi ar draws y sectorau gweithgynhyrchu a gwasanaethu, mae bwlch cyfoeth sy'n tyfu rhyngom a Lloegr, ac mae incwm ffermwyr ar ei isaf. Nid gwlad yn llifeirio o laeth a mêl yw hon, a byddai'n ddoeth i chi sylweddoli hynny.

Wrth gwrs, mae eitemau yn Araith y Frenhines, fel mewn unrhyw Araith y Frenhines, a groesewir gennym. Croesawn y camau a gymerir mewn perthynas â thrais yn y cartref, diogelwch plant, a pharatoadau sifil. Soniaf am rai pethau'n benodol. O ran ffioedd dysgu, bu imi bron â chael fy nenu at y cynigion ar addysg uwch pan ddywedodd arweinydd yr wrthblaid ei fod yn gwpan wenwynig i Jane Davidson. Ni all y cynigion fod yn ddrwg i gyd, felly, ac efallai y bydd

welcome. However, what was introduced as a flagship policy has become something of a fireship just a week later. You should be careful, Secretary of State, when you attack members of the opposition, such as the Welsh Conservatives, for not wanting tuition fees, because the First Minister does not want them either, nor do most of the Assembly Members on your own side, or what we thought was your own side.

Could you clarify the policy on tuition fees? We do not know what the proposal is. Will it be dropped, will there be a climb-down? You say that there is a £15,000 a year cut-off; Harriet Harman said that it was £18,000—

**Ieuan Wyn Jones:** Charles Clarke said that it was £20,000.

**Nick Bourne:** Charles Clarke apparently says that it is £20,000. The First Minister yesterday, in a rare moment of candour, said that the glass had darkened. How true that is. It is right to say, whatever you say about passporting money, that this power will come without any extra money for Wales. It would be unthinkable for Wales to get a lot of extra money to have a different policy, while England did not get any money at all. That would kill any possibility of effective devolution. Therefore, it is meaningless. We could not do anything different here—you have said so yourself—without closing down hospitals or schools. Is that what you propose?

Secondly, I will mention your comments on the House of Lords. You gave a most extraordinary statement about how this was somehow aiding the process of democracy. You said:

‘Our commitment to building a modern democracy will be enhanced by abolishing the ancient right of hereditary peers to make our laws and other reforms in the House of Lords.’

It might be if you had elections, which would be more democratic. I have heard Members

eitemau ynddynt y gallwn eu croesawu. Fodd bynnag, mae'r hyn a gyflwynwyd fel polisi i arwain y blaen wedi troi yn un sy'n dryllio gobeithion y Llywodraeth prin wythnos yn ddiweddarach. Dylech fod yn ofalus, Ysgrifennydd Gwladol, pan ymosodwch ar aelodau'r gwrthbleidiau, fel Ceidwadwyr Cymru, am beidio â dymuno cael ffioedd dysgu, gan nad yw'r Prif Weinidog am eu cael ychwaith, na'r rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad ar eich ochr chi, neu'r hyn a gredem oedd eich ochr chi.

A allech egluro'r polisi ar ffioedd dysgu? Ni wyddom beth yw'r cynnig. A gaiff ei ollwng, a fyddwch yn cyfaddef ichi fod yn anghywir? Yr ydych yn dweud bod terfyn o £15,000 y flwyddyn; dywedodd Harriet Harman mai £18,000 ydoedd—

**Ieuan Wyn Jones:** Dywedodd Charles Clarke mai £20,000 ydoedd.

**Nick Bourne:** Dywed Charles Clarke, yn ôl pob tebyg, mai £20,000 ydyw. Dywedodd y Prif Weinidog ddoe, mewn eiliad prin o onestrwydd, fod y mater hwnnw wedi mynd yn llai eglur. Mae hynny'n hynod wir. Mae'n iawn dweud, beth bynnag a ddywedwch am drosglwyddo arian dros y ffin, y daw'r pŵer hwn heb unrhyw arian ychwanegol i Gymru. Ni allem ddychmygu Cymru yn cael llawer o arian ychwanegol i gael polisi gwahanol, tra bo Lloegr yn cael dim arian o gwbl. Byddai hynny'n difetha unrhyw bosibilrwydd o ddatganoli'n effeithiol. Felly, mae'n ddiystyr. Ni allem wneud unrhyw beth yn wahanol yma—yr ydych wedi dweud hynny eich hun—heb gau ysbytai neu ysgolion. Ai dyna'r hyn a gynigiwch?

Yn ail, soniaf am eich sylwadau ar Dŷ'r Arglwyddi. Rhoddwyd y datganiad mwyaf rhyfeddol gennych ar sut yr oedd hyn rhywffordd yn helpu democratiaeth. Dywedasoeh:

Caiff ein hymrwymiad i greu democratiaeth fodern ei wella drwy ddiddymu hawl hynafol arglwyddi etifeddol i ddeddfu a diwygiadau eraill i Dŷ'r Arglwyddi

Digon gwir efallai pe bai gennych etholiadau, a fyddai'n wyf democratiaidd. Yr wyf wedi

on the Labour side argue for elections—John Griffiths, for example, and he was right on that. A partially or totally elected House of Lords would be democratic. With all due respect to an exception to the principle of appointment who presides over our proceedings, appointment is not a democratic process. Therefore, we look forward to some twenty-first century proposals on the House of Lords.

On the Pensions Bill, in answer to the leader of the opposition, you spoke of the difficulty of having retrospective legislation. It is not impossible. A Labour Government in 1965 introduced the War Damages Bill, which became the War Damages Act. Why did it do that? It was to cancel an award of compensation that it did not want to pay. Therefore, let us have some justice for pension holders at Allied Steel and Wire and other companies when the pensions protection plan is brought forward.

I share the views on the paucity of Wales-only legislation—and I mean Wales-only legislation, and not legislation that applies to the whole of the United Kingdom. Clearly, most legislation does apply to the whole of the UK. There is only one Wales-only Bill in the speech and, important though it may be, it does not impact on the daily lives of people in Wales in the way that measures on transport, education and tourism, which we also asked for, would do. If devolution is to work effectively, it is important that we have Wales-only Bills and Welsh versions of UK legislation: we argued for that during the Assembly election in relation to public Bills, such as the draft Identity Cards Bill. You tell us that that the ID scheme will be optional in Wales. Saying that such a scheme is optional is like saying that you can choose whether or not to drive on the left-hand side of the road. Let us decide where we are going on that. We would welcome a Welsh version of that Bill, and other major Bills.

On asylum, I am the first to say that we need

clywed Aelodau o'r Blaid Lafur yn dadlau o blaid etholiadau—John Griffiths, er enghraifft, ac yr oedd yn iawn ynglŷn â hynny. Byddai Tŷ'r Arglwyddi wedi ei ethol yn rhannol neu'n llawn yn ddemocrataidd. Gyda phob parch i'r sawl sy'n llywyddu dros ein trafodion sy'n eithriad i'r egwyddor o benodi, nid yw penodi yn broses ddemocrataidd. Felly, edrychwn ymlaen at rai cynigion o'r unfed ganrif ar hugain o ran Tŷ'r Arglwyddi.

O ran y Mesur Pensiynau, i ateb arweinydd yr wrthblaid, bu ichi sôn am yr anhawster i gael deddfwriaeth ôl-weithredol. Nid yw'n amhosibl. Cyflwynodd Llywodraeth Lafur yn 1965 y Mesur Iawndal Rhyfel, a ddaeth yn ei dro yn Ddeddf Iawndal Rhyfel. Pam y gwnaeth hynny? Er mwyn dileu'r broses o ddyfarnu iawndal nad oedd am ei dalu. Felly, gadewch inni gael rhywfaint o gyfiawnder i ddeiliaid pensiwn yn Allied Steel and Wire a chwmnïau eraill pan gyflwynir y cynllun diogelu pensiynau.

Rhannaf y farn ar ddiffyg deddfwriaeth i Gymru yn unig—a deddfwriaeth i Gymru yn unig yr wyf yn ei olygu, ac nid deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Deyrnas Unedig gyfan. Yn amlwg, mae'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth yn berthnasol i'r DU gyfan. Dim ond un Mesur i Gymru yn unig sydd yn yr araith ac, er mor bwysig ydyw efallai, nid yw'n effeithio ar fywydau pobl o ddydd i ddydd yng Nghymru yn yr un modd ag y byddai mesurau ar drafnidiaeth, addysg a thwristiaeth, y gofynasom amdanynt hefyd. Er mwyn i ddatganoli weithio'n effeithiol, mae'n bwysig bod gennym Fesurau i Gymru yn unig a fersiynau Cymreig o ddeddfwriaeth y DU: bu inni ddadlau o blaid hynny yn ystod etholiad y Cynulliad mewn perthynas â Mesurau cyhoeddus, fel y Mesur Cardiau Adnabod drafft. Yr ydych yn dweud wrthym y bydd y cynllun Cardiau Adnabod yn ddewisol yng Nghymru. Mae dweud bod cynllun o'r fath yn ddewisol fel dweud y gallwch ddewis a ydych am yrru ar ochr chwith y ffordd ai peidio. Gadewch inni benderfynu i ba gyfeiriad yr ydym yn mynd mewn perthynas â hynny. Byddem yn croesawu fersiwn Cymreig o'r Mesur hwnnw, a Mesurau eraill o bwys.

O ran ceiswyr lloches, fi yw'r cyntaf i



to take action regarding those who are economic migrants and not genuine asylum seekers. However, we cannot take children away from asylum seekers, be they genuine asylum seekers or economic migrants. That would be wrong and wicked. I hope that you will clarify the Government's position on that and withdraw that particular proposal. I look forward to your comments.

**Peter Hain:** I assume that Nick is withdrawing his statement that Conservative Party members would be aghast and furious if Conservative MPs voted out Iain Duncan Smith and replaced him.

He said that many of the Bills in the Queen's Speech are not wanted. However, I have listed a series of Bills, including those on child protection, on housing—which gives the Assembly powers to do what it wants—on planning, traffic management and civil partnerships, which would equalise the relationships of gay couples. I would have thought that he would welcome those Bills, as any decent Assembly Member would.

On fees, is he really advocating that Welsh Conservative Members of Parliament should vote down the ability—

**Ieuan Wyn Jones:** There are not any.

**Peter Hain:** Indeed, there are not any: I am glad that you reminded me of that. Is he really advocating that his Conservative colleagues in Westminster should vote down a Bill that will transfer to the Assembly the power to configure student finance in exactly the way that it, and the people of Wales, wants? I think that people should know if the Conservatives will vote against that and deny the Assembly the right to determine its own policy on higher education and support for students.

On fees, we are facing a difficult choice as to how we fund our higher education institutions, including those in Wales, to ensure that they are world-class institutions.

ddweud bod angen inni gymryd camau o ran y rhai sy'n ymfudwyr economaidd ac nid yn geiswyr lloches go iawn. Fodd bynnag, ni allwn fynd â phlant oddi wrth geiswyr lloches, boed hwy yn geiswyr lloches go iawn neu'n ymfudwyr economaidd. Byddai hynny'n anghywir ac yn greulon. Gobeithiaf y byddwch yn egluro safbwynt y Llywodraeth ar hynny ac yn tynnu'r cynnig arbennig hwnnw yn ôl. Edrychaf ymlaen at glywed eich sylwadau.

**Peter Hain:** Cymeraf yn ganiataol bod Nick yn tynnu yn ôl ei ddatganiad y byddai aelodau'r Blaid Geidwadol wedi synnu ac yn gandryll pe bai Aelodau Seneddol Ceidwadol yn pleidleisio i gael gwared ar Iain Duncan Smith a chael rhywun yn ei le.

Dywedodd nad oes angen llawer o'r Mesurau yn Araith y Frenhines. Fodd bynnag, rhestrais gyfres o Fesurau, gan gynnwys y rhai ar ddiogelwch plant, ar dai—sy'n rhoi pwerau i'r Cynulliad wneud yr hyn y mae'n dymuno ei wneud—ar gynllunio, rheoli traffig a phartneriaethau sifil, a fyddai'n cydraddoli cydberthnasau parau hoyw. Byddwn wedi meddwl y byddai'n croesawu'r Mesurau hynny, fel y byddai unrhyw Aelod Cynulliad da yn ei wneud.

O ran ffioedd, a yw'n argymhell mewn gwirionedd y dylai Aelodau Seneddol Ceidwadol o Gymru bleidleisio yn erbyn y gallu—

**Ieuan Wyn Jones:** Nid oes dim.

**Peter Hain:** Yn wir, nid oes dim; Yr wyf yn falch ichi fy atgoffa o hynny. A yw'n argymhell mewn gwirionedd y dylai ei gyd-aelodau Ceidwadol yn San Steffan bleidleisio yn erbyn Mesur a fydd yn trosglwyddo'r pŵer i gyflunio cyllid myfyrwyr i'r Cynulliad yn yr union ffordd y mae ef, a phobl Cymru, yn ei ddymuno? Credaf y dylai pobl wybod a fydd y Ceidwadwyr yn pleidleisio yn erbyn hynny ac yn gwarafun yr hawl i'r Cynulliad bennu ei bolisi ei hun ar addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr.

O ran ffioedd, wynebwn ddewis anodd o ran y ffordd yr ariannwn ein sefydliadau addysg uwch, gan gynnwys y rhai yng Nghymru, i sicrhau eu bod yn sefydliadau o'r radd

We want all universities in Wales—those at Cardiff, Swansea, Bangor, Aberystwyth, and so on—to be world-class universities. They need extra investment, particularly from the middle of the decade onwards. They have been receiving that extra investment from the UK and Assembly Governments. However, more funding is needed so that they can reach world-class status and so stop the brain drain of academics to better-funded universities across Europe, and the United States in particular, and to widen access. Among the provisions of the Bill are grants of £1,000, which could be increased in future. There are also bursary schemes and other forms of support for low-income students from Wales, of which there are thousands. All that will be lost if the Conservatives, the Liberal Democrats and other parties vote down the Higher Education Bill. Those parties will stay in opposition for a long time to come, because they refuse to face up to the tough challenges that the country faces. We are facing those tough challenges, and, although it may not be the most popular policy of the day, I believe that it will be seen to be the fairest way of dealing with the funding deficit in higher education.

Nick mentioned the House of Lords. Is he really defending the right of hereditary peers to make laws in this country? We have hereditary peers because, centuries ago, their ancestors slept with a king. Is Nick really saying that they should be allowed to make the laws of this country? If so, the same old Tories are at work in the Assembly as those we have been used to for so long at Westminster.

3.20 p.m.

On identity cards, Nick made a trite remark about driving on the other side of the road, but he must understand that that is not what is at stake here. The Assembly has responsibility for the delivery of health, education and other public services, and it is for the Assembly to decide whether carrying an ID card is a necessary precondition to accessing those services. That is the Assembly's responsibility, and we will uphold that.

flaenaf. Yr ydym am i bob prifysgol yng Nghymru—y rhai yng Nghaerdydd, Abertawe, Bangor, Aberystwyth, ac yn y blaen—fod yn brifysgolion o'r radd flaenaf. Mae angen buddsoddiad ychwanegol arnynt, yn arbennig o ganol y degawd ymlaen. Buont yn cael y buddsoddiad ychwanegol hwnnw gan Lywodraethau'r DU a'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae angen mwy o arian fel eu bod ymhlith y gorau yn y byd ac er mwyn atal yr academyddion rhag mynd i brifysgolion ledled Ewrop, a'r Unol Daleithiau yn enwedig, sydd wedi eu hariannu'n well, ac er mwyn ehangu mynediad. Ymhlith darpariaethau'r Mesur mae grantiau o £1,000, y gellid eu cynyddu yn y dyfodol. Ceir cynlluniau bwrsariaethau a mathau eraill o gymorth i fyfyrwyr ar incwm isel o Gymru, y mae miloedd ohonynt. Collir hynny i gyd os bydd y Ceidwadwyr, y Democratiaid Rhyddfrydol a phleidiau eraill yn pleidleisio yn erbyn y Mesur Addysg Uwch. Bydd y pleidiau hynny yn parhau yn wrthbleidiau am amser hir i ddod, am eu bod yn gwrthod wynebu'r heriau anodd y mae'r wlad yn eu hwynebu. Yr ydym yn wynebu'r heriau anodd hynny, ac, er nad hwn fydd y polisi mwyaf poblogaidd ar y pryd, credaf y caiff ei ystyried fel y ffordd decaf o ddelio â'r prinder arian mewn addysg uwch.

Soniodd Nick am Dŷ'r Arglwyddi. A yw'n wir yn amddiffyn hawl arglwyddi etifeddol i wneud deddfau yn y wlad hon? Mae gennym arglwyddi etifeddol oherwydd, ganrifoedd yn ôl, cysgodd un o'n perthnasau gyda brenin. A yw Nick yn dweud mewn difrif y dylid caniatáu iddynt lunio deddfau'r wlad hon? Os felly, mae'r un hen Doriaid wrthi yn y Cynulliad â'r rhai y buom mor gyfarwydd â hwy am gymaint o amser yn San Steffan.

O ran cardiau adnabod, defnyddiodd Nick hen ystrydeb ynghylch gyrru ar ochr anghywir y ffordd, ond rhaid iddo ddeall nad dyna'r hyn sydd yn y fantol yma. Mae gan y Cynulliad gyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau iechyd, addysg a gwasanaethau cyhoeddus eraill, a chyfrifoldeb y Cynulliad yw penderfynu a yw cario cerdyn adnabod yn rhagamod angenrheidiol er mwyn defnyddio'r gwasanaethau hynny. Cyfrifoldeb y

Cynulliad yw hynny, a byddwn yn cefnogi hynny.

Nick Bourne mischievously misrepresented the contents of our asylum legislation, so let me correct him. Individuals who have gone through the appeals system and failed, and are therefore in this country illegally—often trafficked in by criminal gangs—are depriving us of the ability to win public support for those who are entitled to be here, and who have successfully gone through the legal process. Nick would deny us the ability to deal with that situation. We propose to provide those who have failed the legal appeals system and their entire families, including their children, with air fares home and a resettlement allowance, paid for by the British taxpayer. I do not find Nick's policy acceptable. He would allow those individuals to blackmail a British Government and prevent them from being given the opportunity to leave the country, or being required to leave the country, by their manipulating their children. Whatever happens, we will not allow children to become pawns in such situations. Is Nick really saying that those individuals, who are not supposed to be here, who try to blackmail the authorities and deny us the opportunity to dispatch them back to their countries of origin—with their air fares paid, including those of their children, and a resettlement allowance—should stay here? He is denying us the ability to implement a policy that is both firm and fair to asylum seekers and to their children.

**Michael German:** Thank you for giving us the time and opportunity to question you before we hold our debate, Secretary of State; it is worthwhile. However, many of your answers have cast more darkness than the light that I thought this discussion was meant to provide.

Like other speakers, we welcome parts of the Queen's Speech. For example, we welcome the Housing Bill and the registration of houses in multiple occupation, which is long overdue, but we do not welcome the other part of that Bill, involving sellers' packs. That will not only slow down the process of

Creodd Nick Bourne helynt pan gamliwiodd gynnwys ein deddfwriaeth ar geiswyr lloches, felly gadewch imi ei gywiro. Mae unigolion sydd wedi bod drwy'r system apeliadau ac wedi methu, ac felly sydd yn y wlad hon yn anghyfreithlon—yn aml wedi eu cludo i mewn i'r wlad am arian gan grwpiau o droseddwyd—yn ein hamddifadu o'r gallu i ennill cefnogaeth y cyhoedd i'r rheini y mae ganddynt hawl i fod yma, ac sydd wedi mynd drwy'r broses gyfreithiol yn llwyddiannus. Byddai Nick yn gwarafun y gallu inni ddelio â'r sefyllfa honno. Cynigiwn roi tocynnau hedfan i'r bobl hynny sydd wedi methu'r system apeliadau cyfreithiol a'u teuluoedd cyfan, gan gynnwys eu plant, fel y gallant fynd adref, ynghyd â lwfans adsefydlu, y bydd trethdalwyr Prydain yn talu amdanynt. Nid yw polisi Nick yn dderbyniol i mi. Byddai'n caniatáu i'r unigolion hynny flacmelio Llywodraeth Prydain a'u hatal rhag cael y cyfle i adael y wlad, neu eu hatal rhag gorfod gadael y wlad, drwy gynnwys eu plant yn eu twyll. Beth bynnag fydd yn digwydd, ni fyddwn yn caniatáu i rieni ddefnyddio eu plant at eu dibenion eu hunain mewn sefyllfaoedd o'r fath. A yw Nick yn dweud mewn difrif y dylai'r unigolion hynny, nad oes ganddynt hawl i fod yma, sy'n ceisio blacmelio'r awdurdodau a gwarafun y cyfle inni eu hanfon yn ôl i'w mamwlad—gyda'u tocyn hedfan wedi talu amdano, gan gynnwys tocynnau hedfan eu plant, a lwfans adsefydlu—aros yma? Mae'n gwarafun y gallu inni weithredu polisi sy'n gadarn ac yn deg i geiswyr lloches a'u plant.

**Michael German:** Diolch ichi am roi'r amser a'r cyfle inni eich holi cyn inni gynnal ein dadl, Ysgrifennydd Gwladol; mae'n werthfawr. Fodd bynnag, mae llawer o'ch atebion wedi taflu mwy o dywyllwch na'r goleuni y credais yr oedd y drafodaeth hon i fod i'w roi.

Fel siaradwyr eraill, croesawn rannau o Araith y Frenhines. Er enghraifft, croesawn y Mesur Tai a'r broses hir-ddisgwyliedig o gofrestru tai amlfeddiannaeth ond nid ydym yn croesawu'r rhan arall o'r Mesur hwnnw, sy'n cynnwys pecynnau gwerthwyr. Bydd hynny nid yn unig yn arafu'r broses o werthu

selling a house, it will also make it more difficult and expensive.

We also welcome the Domestic Violence, Crime and Victims Bill, but find your views on asylum seekers profoundly illiberal. It is not easy for those of us who believe in liberalism to stand up and say that people should have a fair chance in this country, but a fair chance is not what you offer in that Bill. Your comments on the children of asylum seekers are appalling: you suggest that it is not your Government that is making pawns of these children, but asylum seekers themselves. I also find identity cards profoundly illiberal, because it is a matter of genuine concern to many of us that they will lead to a new 'big brother', who might well be watching us.

On your reform proposals for the House of Lords, is it not the case that they replace the patronage of the king in the fifteenth century with the patronage of the new king in the twenty-first century, as the Prime Minister could be seen to be? Surely it is right that members of the House of Lords should be properly elected.

Turning to the Higher Education Bill, which you called 'not the most popular policy of the day'; that was an understatement. It is certainly not the most popular policy in this Chamber, including with members of your party, who have said so in many ways. Before we go any further, will you clarify your position on passporting money? Will we receive extra money from the Westminster Government to fund our university sector as a result of your Higher Education Bill? There is only one answer to that, and it is either 'yes' or 'no'.

Let me pose a broader question relating to your call for a mature debate on taxation and Governments' ability to increase taxes in order to fund public services. I remind you that what you were going to say before events intervened was that we face a position where the top 40 per cent rate of taxation now includes far too many middle-income employees. How can we ensure that hard-working middle-income families and the low-

tŷ, bydd hefyd yn ei gwneud yn fwy anodd a chostus.

Croesawn hefyd y Mesur Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr, ond credwn fod eich barn ar geiswyr lloches yn eithriadol o gul. Nid yw'n hawdd i'r rheini ohonom sy'n credu mewn rhyddfrydiaeth i sefyll ar ein traed a dweud y dylai pobl gael cyfle teg yn y wlad hon, ond nid cyfle teg yw'r hyn a gynigiwch yn y Mesur hwnnw. Mae eich sylwadau ar blant ceiswyr lloches yn ofnadwy: awgrymwch nad eich Llywodraeth sy'n defnyddio'r plant hyn at ei dibenion ei hun, ond y ceiswyr lloches eu hunain. Credaf fod cardiau adnabod yn eithriadol o adweithiol hefyd, oherwydd mae llawer ohonom yn pryderu'n fawr y byddant yn arwain at 'frawd mawr' newydd, a allai fod yn ein gwyllo.

O ran eich cynigion ar ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi; onid yw'n wir eu bod yn disodli nawdd y brenin yn y bymthegfed ganrif gyda nawdd y brenin newydd yn yr unfed ganrif ar hugain, fel y gellid ystyried Prif Weinidog y Deyrnas Unedig? Onid yw'n iawn y dylai aelodau Tŷ'r Arglwyddi gael eu hethol yn gywir.

Gan droi at y Mesur Addysg Uwch, y cyfeiriasoch ato fel un na chaiff ei ystyried fel 'y polisi mwyaf poblogaidd ar y pryd'; dyna hanner y stori. Yn sicr, nid dyma bolisi mwyaf poblogaidd y Siambr hon, nac aelodau eich plaid ychwaith, sydd wedi dweud hynny mewn cymaint o ffyrdd. Cyn inni fynd ymhellach, a eglurwch eich safbwynt ar drosglwyddo arian dros y ffin? A gawn arian ychwanegol gan Lywodraeth San Steffan i ariannu ein sector prifysgolion o ganlyniad i'ch Mesur Addysg Uwch? Dim ond un ateb sydd i hynny, a naill ai 'ie' neu 'na' yw hwnnw.

Gadewch imi ofyn cwestiwn mwy cyffredinol ynghylch eich galwad am ddadl aeddfed ar drethiant a gallu Llywodraethau i gynyddu trethi er mwyn ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Hoffwn eich atgoffa mai'r hyn yr oeddech yn mynd i'w ddweud cyn i ddigwyddiadau ymyrryd oedd ein bod yn wynebu sefyllfa lle mae'r 40 y cant uchaf o'r gyfradd drethu bellach yn cynnwys gormod o gyflogeion ar incwm

paid get a better deal if those at the top of the pay scale do not contribute more? I realise that not many of your colleagues agree with you, but do you not think that we should have a similar debate with regard to higher education funding? The Welsh Labour Government has a short-term position: it has stated that it will oppose top-up fees until the end of this Assembly. However, the debate should be about the investment needed in universities. Given your views on taxation, why cannot additional funding for higher education be raised through taxation?

You and I can agree that we need to increase the skills and knowledge of people in Wales. This means that we can also agree, unlike the Conservatives, that we need to increase the number of students in higher education. Therefore, why do you believe that the only way of funding the necessary expansion in higher education is to tax students through the imposition of top-up fees? Top-up fees are a form of student taxation. Why can you not explore the case, which you so eloquently made in the section of your speech that was ripped out, for those earning more than £100,000 to be taxed at a higher rate in order to pay for higher education? This would be a fairer way of funding the sector. There has been much talk recently about the Big Conversation. Should not funding education through taxes be the subject of the Big Conversation, rather than the funding position that is disliked in Wales, disliked by a large number of your parliamentary colleagues and disliked by all the opposition parties in the Assembly?

**Peter Hain:** I express my gratitude to the three opposition leaders for their welcome to the Assembly.

I have answered fully the point about asylum seekers and the rights of children. However, I wish to underline the fact that if we are to have an asylum policy that is seen to be fair, it must also be seen to be firm and as operating according to the law. Otherwise, we will lose public support in Wales for the operation of an asylum policy that is firm about dispatching those who should not be

canolig. Sut y gallwn sicrhau y caiff teuluoedd ar incwm canolig sy'n gweithio'n galed a'r rhai ar incwm isel well bargaen os na fydd y rhai ar frig y raddfa cyflogau yn cyfrannu mwy? Sylweddolaf nad oes llawer o'ch cyd-aelodau yn cytuno â chi, ond oni chredwch y dylem gael dadl debyg o ran ariannu addysg uwch? Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn arddel safbwynt byrdymor: datganodd y bydd yn gwrthwynebu ffioedd ychwanegol tan ddiwedd y Cynulliad hwn. Fodd bynnag, dylai'r ddadl ymwneud â'r buddsoddiad sydd ei angen mewn prifysgolion. O gofio eich barn ar drethiant, pam na allai arian ychwanegol ar gyfer addysg uwch gael ei godi drwy drethiant?

Gallwch chi a minnau gytuno bod angen inni gynyddu sgiliau a gwybodaeth pobl yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y gallwn hefyd gytuno, yn wahanol i'r Ceidwadwyr, fod angen inni gynyddu nifer y myfyrwyr mewn addysg uwch. Felly, pam y credwch mai'r unig ffordd o ariannu'r ehangiad angenrheidiol mewn addysg uwch yw drwy drethu myfyrwyr drwy gyflwyno ffioedd ychwanegol? Math o drethiant myfyrwyr yw ffioedd ychwanegol. Pam na allwch ystyried y ddadl, a gyflwynasoch mor huawdl yn yr adran o'ch araith a gafodd ei dileu, dros drethu'r rhai sy'n ennill mwy na £100,000 ar gyfradd uwch er mwyn talu am addysg uwch? Byddai hynny'n ffordd decach o ariannu'r sector. Bu llawer o sôn yn ddiweddar am y Sgwrs Fawr. Oni ddylai ariannu addysg drwy drethi fod yn destun ar gyfer y Sgwrs Fawr, yn hytrach na'r sefyllfa ariannu a gaseir yng Nghymru, a gaseir gan nifer fawr o'ch cyd-aelodau seneddol a chan bob gwrthblaid yn y Cynulliad?

**Peter Hain:** Hoffwn fynegi fy niolch i dri arweinydd y gwrthbleidiau am fy nghroesawu i'r Cynulliad.

Yr wyf wedi ateb y pwynt ynglŷn â cheiswyr lloches a hawliau plant yn llawn. Fodd bynnag, hoffwn bwysleisio bod rhaid i bolisi ceiswyr lloches, er mwyn iddo gael ei ystyried yn un teg, gael ei ystyried hefyd yn un cadarn ac yn un sy'n gweithredu yn ôl y gyfraith. Fel arall, byddwn yn colli cefnogaeth y cyhoedd yng Nghymru i weithredu polisi ceiswyr loches sy'n gadarn

here back to their countries of origin, while at the same time offering sanctuary to genuine victims of tyranny or to those who come here legally and seek jobs that were advertised and for which they applied. In that context, there is no question of taking children away from illegal asylum seekers; this is about asking them to accept their own responsibilities and duties, particularly when we are funding the return of whole families to their countries of origin and providing resettlement allowances.

Identity cards are another example of the Government facing up to an important challenge for the future. Within a year or so, people will only be allowed to enter the United States of America as a visitor if their visas carry biometrics. Biometrics are being introduced in passports, visas and driving licences. The issue is how can we better bring those together so that we have what amounts to an identity card. That is what the Bill will provide for, and most people in the country—with the apparent exception of the Liberal Democrats—see this as a sensible rationalisation of an existing trend the world over, from which it would be difficult to isolate Britain.

We are seeking to reform the House of Lords precisely to avoid the patronage of the Prime Minister appointing members of the House of Lords, as is largely the case at present. In case the point passed you by, I clarify that the important proposal under this legislation is that no party will have a majority in the House of Lords. Therefore, it would be able to act as a genuine revising and scrutinising body. You may like the fact, as I am sure do the Conservatives, that despite the Labour majority in the House of Commons, we only have 28 per cent of the vote in the House of Lords—that is less than one in three votes, which is why it should be reformed. I believe in an elected House of Lords—[*Interruption.*] Do not sound so surprised. I am on record as voting in favour of it, but unfortunately, the House of Commons voted against all of the elected options. We now await the final stage of the House of Lords reform, when we get a consensus in the House of Commons—and

ynglŷn ag anfon pobl na ddylent fod yma yn ôl i'w mamwlad, tra'n cynnig lloches yr un pryd i ddiodefwrwr gormes gwirioneddol neu i'r rhai sy'n dod yma yn gyfreithlon ac sy'n chwilio am swyddi a hysbysebwyd ac y bu iddynt wneud cais amdanynt. Yn y cyddestun hwnnw, yn sicr, ni chaiff plant eu gwahanu oddi wrth geiswyr lloches anghyfreithlon; mae a wnelo hyn â gofyn iddynt dderbyn eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau eu hunain, yn arbennig pan fyddwn yn ariannu'r broses o anfon teuluoedd cyfan yn ôl i'w mamwlad a darparu lwfansau adsefydlu.

Mae cardiau adnabod yn enghraifft arall o'r Llywodraeth yn wynebu her bwysig ar gyfer y dyfodol. O fewn blwyddyn neu ddwy, dim ond os bydd eu teithebau yn cynnwys biometreg y caiff pobl ganiatâd i fynd i mewn i Unol Daleithiau America fel ymwelwyr. Mae biometreg yn cael ei chyflwyno mewn pasportau, teithebau a thrwyddedau gyrru. Y broblem yw sut y gallwn ddod â'r rhain ynghyd fel bod gennym yr hyn sy'n gyfystyr â cherdyn adnabod. Dyna'r hyn y bydd y Mesur yn darparu ar ei gyfer, ac ystyrir hyn gan y rhan fwyaf o bobl yn y wlad—ac eithrio'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ôl pob tebyg—yn rhesymoli synhwyrol o duedd bresennol ledled y byd, y byddai'n anodd gwahanu Prydain oddi wrthi.

Yr ydym yn ceisio diwygio Tŷ'r Arglwyddi yn union er mwyn osgoi pŵer y Prif Weinidog i benodi aelodau Tŷ'r Arglwyddi, fel sy'n digwydd i raddau helaeth ar hyn o bryd. Rhag ofn i chi gollir'r pwynt, egluraf mai'r cynnig pwysig o dan y ddeddfwriaeth hon yw na fydd gan unrhyw blaid fwyafrif yn Nhŷ'r Arglwyddi. Felly, byddai'n gallu gweithredu fel corff diwygio a chraffu gwirioneddol. Efallai eich bod yn hoffi'r ffaith, fel y gwna'r Ceidwadwyr mae'n siŵr, mai dim ond 28 y cant o'r bleidlais yn Nhŷ'r Arglwyddi sydd gennym, er gwaethaf mwyafrif Llafur yn Nhŷ'r Cyffredin—hynny yw llai nag un o bob tair pleidlais, a dyna pam y dylid ei ddiwygio. Credaf mewn Tŷ etholedig yn Nhŷ'r Arglwyddi—[*Torri ar draws.*] Peidiwch â swnio fel petaech wedi eich synnu. Cofnodwyd fy mod wedi pleidleisio o'i blaid, ond yn anffodus, pleidleisiodd Tŷ'r Cyffredin yn erbyn pob un o'r opsiynau etholedig. Arhoswn yn awr am

we will see if the Conservatives are acting out of principle or merely opportunism. We need to get rid of hereditary peers and implement a more independent system of appointments.

3.30 p.m.

On higher education funding in Wales and the transfer of student finance, it is the case—as Jane Davidson knows because she has been negotiating on this and as Rhodri Morgan and I suspect Sue Essex know—the money that provides for student support will accompany the transfer of that support. Therefore, Wales and the Welsh Assembly Government will be in a position to configure higher education student support in exactly the way that it wishes, on exactly the same footing as all other students across the UK. I would have thought that that principle was self-evidently logical, even to the Liberal Democrats. Professor Teresa Rees is conducting a review on how this matter can be moved forward sensibly for the Assembly.

On the suggestion that the necessary funding gap can be reduced by taxation, I have made this point before, but I will emphasise it: would it be sensible to spend additional money, raised through extra taxes, on students rather than others in the education system? Students currently receive a higher subsidy from the taxpayer than any other age group in terms of education. I am not denying that subsidy. At the moment, for every £14 that the taxpayer contributes to support university education for students, those students contribute £1—that is £14 from the taxpayer and £1 from the student. Most people who have never attended university and whose children have not attended university probably regard that as a reasonably fair balance. Therefore, we need to take all these issues into account when deciding how to move forward on this matter.

**Y Llywydd:** Y mae amser ar gyfer dau gwestiwn byr yn unig ar y datganiad.

**Alun Ffred Jones:** A gytunwch fod y

gam olaf y broses o ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi, pan gawn gonsensws yn Nhŷ'r Cyffredin—a chawn weld a yw'r Ceidwadwyr yn gweithredu fel mater o egwyddor neu ai bachu ar gyfle yn unig y maent. Mae angen inni gael gwared ar arglwyddi etifeddol a rhoi system fwy annibynnol o benodiadau ar waith.

O ran ariannu addysg uwch yng Nghymru a throsglwyddo cyllid myfyrwyr, y gwir yw—fel y gŵyr Jane Davidson gan ei bod wedi bod yn negodi ar hyn ac fel y gŵyr Rhodri Morgan a Sue Essex fe dybiaf—y bydd yr arian sy'n darparu cymorth i fyfyrwyr yn cyd-fynd â'r cymorth hwnnw a drosglwyddir. Felly, bydd Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn sefyllfa i gyflunio cymorth i fyfyrwyr addysg uwch yn yr union ffordd y dymuna, ar yr un sylfaen yn union â phob myfyriwr arall ledled y DU. Byddwn wedi meddwl bod yr egwyddor honno yn amlwg yn rhesymegol, hyd yn oed i'r Democratiaid Rhyddfrydol. Mae'r Athro Teresa Rees yn cynnal adolygiad ar sut y gellir datblygu'r mater hwn yn synhwyrol i'r Cynulliad.

O ran yr awgrym y gellir lleihau'r bwlch ariannu angenrheidiol drwy drethiant, bu imi wneud y pwynt hwn o'r blaen, ond fe'i pwysleisiaf: a fyddai'n synhwyrol gwario arian ychwanegol, a godir drwy trethi ychwanegol, ar fyfyrwyr yn hytrach nag eraill yn y system addysg? Mae myfyrwyr ar hyn o bryd yn cael cymhorthdal uwch gan y trethdalwr nag unrhyw grŵp oedran arall o ran addysg. Nid wyf yn gwadu'r cymhorthdal hwnnw. Ar hyn o bryd, am bob £14 y mae'r trethdalwr yn ei gyfrannu i gynnal addysg prifysgol i fyfyrwyr, mae'r myfyrwyr hynny yn cyfrannu £1—hynny yw £14 gan y trethdalwr a £1 gan y myfyriwr. Mae'r rhan fwyaf o bobl nad ydynt erioed wedi mynd i brifysgol ac nad yw eu plant wedi mynd i brifysgol yn ystyried hynny yn gydbwysedd eithaf teg, mae'n siŵr. Felly, mae angen inni ystyried yr holl faterion hyn wrth benderfynu sut i weithredu ar y mater hwn.

**The Presiding Officer:** There is only time for two brief questions on this statement.

**Alun Ffred Jones:** Do you agree that the

Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth bresennol wedi gadael gweithwyr Friction Dynamics i lawr? A eglurwch sut y bydd y newidiadau i'r Ddeddf yn sicrhau gwell gwarchodaeth i weithwyr mewn sefyllfa debyg?

**Peter Hain:** I am glad that you raised that issue because I have met the Friction Dynamics workers. They faced an outrageous situation and the legislation to be introduced through the Queen's Speech, as I mentioned in my opening statement, will address such situations and prevent unscrupulous owners from acting in a similar ways.

**Peter Black:** One of the key issues regarding the Housing Bill, is the licensing of housing in multiple occupation, which was promised by the Labour Party in 1997, but which has still not been introduced. We thought that it would be introduced in the last session, but it is still not on the statute book. Can you give me a guarantee that this legislation will come into force during this parliamentary session, and that Wales will have the power to license houses as it wishes?

**Peter Hain:** There will be a national licensing scheme for housing in multiple ownership along with a new social housing ombudsman for Wales, which will allow a better configuration of the housing policy in Wales in the way that I assume you would like.

**Y Llywydd:** Diolch i'r Ysgrifennydd Gwladol am ei ddatganiad.

current Employment Relations Act has let the workers of Friction Dynamics down? Will you explain how amendments to the Act will ensure improved protection for workers in similar circumstances?

**Peter Hain:** Yr wyf yn falch ichi godi'r mater hwnnw oherwydd yr wyf wedi cyfarfod â gweithwyr Friction Dynamics. Yr oeddent yn wynebu sefyllfa warthus a bydd y ddeddfwriaeth i'w chyflwyno drwy Araith y Frenhines, fel y crybwyllais yn fy natganiad agoriadol, yn ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath ac yn atal perchnogion diegwyddor rhag gweithredu mewn ffyrdd tebyg.

**Peter Black:** Un o'r prif faterion o ran y Mesur Tai, yw trwyddedu tai amlfeddiannaeth, a addawyd gan y Blaid Lafur yn 1997, ond nas cyflwynwyd eto. Credent y byddai'n cael ei gyflwyno yn y sesiwn ddiwethaf, ond nid yw ar y llyfr statud o hyd. A allwch roi sicrwydd y daw'r ddeddfwriaeth hon i rym yn ystod y sesiwn seneddol hon, ac y bydd gan Gymru y pŵer i drwyddedu tai fel y dymuna?

**Peter Hain:** Bydd cynllun trwyddedu cenedlaethol ar gyfer tai amlfeddiannaeth ynghyd ag ombwdsmon tai cymdeithasol newydd i Gymru, a fydd yn fodd i'r polisi tai yng Nghymru gael ei gyflunio'n well mewn ffordd y byddech, fe dybiaf, yn ei hoffi.

**The Presiding Officer:** Thank you to the Secretary of State for his statement.

### Araith y Frenhines The Queen's Speech

**Y Llywydd:** Cyn i mi alw ar y Prif Weinidog i agor y ddatl ar Araith y Frenhines, hoffwn ddatgan y byddaf, yn ôl yr arfer, yn caniatáu pum munud i'r sawl sy'n cynnig y gwelliannau ond oherwydd nifer yr Aelodau sy'n dymuno siarad, byddaf yn cyfyngu areithiau pawb arall i dri munud.

Yr wedi dethol gwelliannau 1, 8, 9, 10, 11 a 12 yn enw Jonathan Morgan, gwelliannau 2, 3, 4, 5, 6 a 7 yn enw Jocelyn Davies a gwelliannau 13, 14, 15 a 16 yn enw Kirsty

**The Presiding Officer:** Before I call on the First Minister to open the debate on the Queen's Speech, I would like to state that I will allow five minutes, as usual, for those who propose the amendments, but due to the number of Members who wish to speak, I will restrict other speeches to three minutes.

I have selected amendments 1, 8, 9, 10, 11 and 12 in the name of Jonathan Morgan, amendments 2, 3, 4, 5, 6 and 7 in the name of Jocelyn Davies and amendments 13, 14, 15



Williams.

**Y Prif Weinidog:** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

1. yn nodi cynnwys Rhaglen Ddeddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer 2003-04; a

2. yn cymeradwyo bod y Mesurau hynny sy'n arbennig o berthnasol i gyfrifoldebau'r Cynulliad yn cael eu hystyried ymhellach gan y pwyllgorau pwnc priodol. Dylai'r ystyriaeth honno roi sylw i'r darpariaethau y dylai pob Mesur eu gwneud ar gyfer Cymru a sut y gallai'r Cynulliad ddefnyddio'i bwerau newydd yn hynny o beth. (NDM1731)

Croesawaf Ysgrifennydd Gwladol Cymru a diolchaf iddo am ei gyfraniad a oedd yn disgrifio ac yn hyrwyddo rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Amlygodd elfennau allweddol ein cyfrifoldebau datganoledig yn y Cynulliad, a disgrifiodd y cefndir economaidd a chymdeithasol i'r rhaglen. Ein camp ni yn awr yw sicrhau bod y Mesurau sydd wedi'u rhestru yn Araith y Frenhines yn adlewyrchu ein gofynion a'n blaenoriaethau yn y Cynulliad, ar ran pobl Cymru gyfan. Heddiw yw dechrau'r broses, sy'n rhoi'r cyfle i ni siapio a dylanwadu ar y rhaglen, ac i ystyried sut y mae'n effeithio ar Gymru. Rhaid inni hefyd ystyried ffordd i wneud y ddeddfwriaeth honno i weithio yn y ffordd orau bosibl i Gymru. Mae'n bwysig bod y Cynulliad a'r Pwyllgorau Pwnc yn cymryd y cyfle hwnnw.

I reiterate Ieuan Wyn Jones's earlier point about the change in the structure of this afternoon's debate, whereby the Secretary of State for Wales's statement and the debate are on the same day. Although that poses one technical problem, namely that the motion had to be tabled on the day of the Queen's Speech, which was done with the agreement of the Presiding Office and the opposition parties. It meant that we were not able—as in previous years—to list the specific Bills and the Committees to which they should be remitted. It is still a better arrangement, and, in view of Ieuan Wyn Jones's comments, there is general support for it, despite the

and 16 in the name of Kirsty Williams.

**The First Minister:** I propose that

*the National Assembly for Wales:*

1. notes the content of the UK Government's Legislative Programme for 2003-04; and

2. commends those Bills with particular relevance to the Assembly's responsibilities to the appropriate Subject Committees for further consideration. Such consideration should focus on the provisions each Bill should make for Wales and how the Assembly might use its new powers therein. (NDM1731)

I welcome the Secretary of State for Wales and I thank him for his contribution, which described and promoted the United Kingdom's legislative programme. He highlighted the key elements of our devolved responsibilities in the Assembly, and he described the social and economic background of the programme. Our feat now will be to ensure that the Bills that have been listed in the Queen's Speech will reflect our needs and priorities in the Assembly, on behalf of the people of the whole of Wales. Today is the beginning of that process, which gives us the opportunity to shape and influence the programme, and to consider how it impacts upon Wales. We must also consider how we make that legislation work in the best way possible for Wales. It is important that the Assembly and the Subject Committees grasp that opportunity.

Ailadroddaf y pwynt a wnaed yn gynharach gan Ieuan Wyn Jones ynglŷn â'r newid yn strwythur y ddadl y prynhawn yma, lle y ceir datganiad Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r ddadl ar yr un diwrnod. Ond cyfyd un broblem dechnegol, sef bod yn rhaid i'r cynnig gael ei gyflwyno ar ddiwrnod Araith y Frenhines, a gwnaed hynny gyda chytundeb Swyddfa'r Llywydd a'r gwrthbleidiau. Golygai nad oeddem yn gallu—fel yn y gorffennol—rhestru'r Mesurau penodol a'r Pwyllgorau a ddylai eu hystyried. Eto i gyd, mae'n drefniant gwell, ac, o gofio sylwadau Ieuan Wyn Jones, mae cefnogaeth gyffredinol iddo, er gwaethaf y broblem

technical problem.

As Peter Hain said earlier, there are a large number of Bills affecting Wales this year. Many of them confer new functions upon the Assembly, and there are also a number of Bills that have distinctive provisions for Wales, which reflect our policies and priorities. As was mentioned earlier, there is another Wales-only Bill—the Public Audit (Wales) Bill, which is the third since the establishment of the Assembly. That is the result of the constructive relationship that we have with the Wales Office and the Government in Westminster. I noticed that the Conservatives complained that there should have been more Bills, but when they were in power, they only produced two during 18 years: one every year is much better than one every nine years. That frequency demonstrates our continued success in negotiating and influencing primary legislation.

The Public Audit (Wales) Bill should perhaps be considered by an ad hoc Committee, as it was in its draft form. It will extend the functions of the Auditor General for Wales, and establish a single audit body for Wales. Wales is too small a country to have the three bodies that exist at present. It will allow us to conduct our business in the inclusive way that we operate in Wales, and, at the same time, maintain the high standards of public accountability to which we subscribe, and in which the people of Wales can, and should have, every confidence. That Bill has already benefited from comprehensive, pre-legislative scrutiny in the previous parliamentary year by Members here and in Parliament.

The Higher Education Bill is interesting, and it will transfer student support functions to the Assembly on a cost-neutral basis to Westminster and to Wales. It will enable us to set our own student support and tuition-free regime, and to fulfil our manifesto commitment not to introduce variable fees in the lifetime of this Assembly. The Assembly and its Government can now take an overarching approach to the whole of further and higher education in Wales because we

dechnegol.

Fel y dywedodd Peter Hain yn gynharach, mae nifer fawr o Fesurau yn effeithio ar Gymru eleni. Mae llawer ohonynt yn rhoi swyddogaethau newydd i'r Cynulliad, ac mae hefyd nifer o Fesurau ac iddynt ddarpariaethau penodol ar gyfer Cymru, sy'n adlewyrchu ein polisiau a'n blaenoriaethau. Fel y crybwyllwyd yn gynharach, unwaith eto ceir Mesur i Gymru yn unig—Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru), sef y trydydd ers sefydlu'r Cynulliad. Mae hynny'n deillio o'r berthynas adeiladol rhyngom ni a Swyddfa Cymru a'r Llywodraeth yn San Steffan. Sylwais fod y Ceidwadwyr wedi cwyno y dylid bod wedi cyflwyno rhagor o Fesurau, ond pan oeddent mewn grym, dim ond dau a gyflwynwyd ganddynt hwy yn ystod 18 mlynedd: mae un bob blwyddyn yn llawer gwell nag un bob naw mlynedd. Dengys hynny ein llwyddiant parhaus i negodi a dylanwadu ar ddeddfwriaeth sylfaenol.

Efallai y dylai Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) gael ei ystyried gan Bwyllgor ad hoc, fel y gwnaed pan oedd ar ffurf ddrafft. Bydd yn ymestyn swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru, a sefydlu un corff archwilio i Gymru. Mae Cymru yn wlad rhy fach i gynnal y tri chorff a geir ar hyn o bryd. Bydd yn ein galluogi i gynnal ein busnes yn y ffordd gynhwysol a arddelir gennym ni yng Nghymru ac, ar yr un pryd, gadw'r safonau uchel o ran atebolrwydd cyhoeddus yr ydym yn eu coleddu, ac y gall ac y dylai pobl Cymru fod â phob ffydd ynddynt. Mae'r Mesur hwnnw eisoes wedi mynd drwy broses graffu gynhwysfawr cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno yn y flwyddyn seneddol flaenorol a hynny gan Aelodau yma ac yn y Senedd.

Mae'r Mesur Addysg Uwch yn ddiddorol, a bydd yn trosglwyddo swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr i'r Cynulliad ar sail cost-niwtral i San Steffan ac i Gymru. Bydd yn ein galluogi i sefydlu ein cyfundrefn ein hunain o ran cymorth i fyfyrwyr, lle na chodir ffioedd dysgu ar fyfyrwyr, a chyflawni ymrwymiad ein manifestto i beidio â chyflwyno ffioedd amrywiadwy yn ystod y Cynulliad hwn. Gall y Cynulliad a'i Lywodraeth fabwysiadu ymagwedd gyffredin tuag at bob rhan o

will have full control over the levers necessary to build on our strategy to develop Wales's learning and research capacity. We have 90 per cent of the powers already, and this will mean that we will have virtually all of them. That Bill should be carefully considered by the Education and Lifelong Learning Committee—

**Ieuan Wyn Jones:** Does the First Minister agree with the Secretary of State for Wales's comments, both in his letter to Welsh MPs, dated 29 October 2003, and in his interview with *The Western Mail* on 27 November 2003, that the choice facing any Government in the Assembly after 2007, is either to introduce top-up fees, or to raid health and education budgets to pay for them out of the block?

**The First Minister:** I do not think he said that. It is clear that if matters are not devolved, it is impossible for us to make our own choices. If they are devolved, then it is possible for us to make our own choices. I understand that Plaid Cymru has decided that it does not want any more powers transferred to Wales. That is almost as bizarre as today's development whereby the Conservatives are now in favour of nationalisation—they want the botanic garden to be nationalised. Soon, there will be so many buses from Damascus lining up in the Assembly hall that we will hear Mike German saying that he is in favour of first-past-the-post elections, but perhaps that will not happen just yet. [*Laughter.*]

3.40 p.m.

The School Transport Bill proposes to give broad powers to a small number of local education authorities to test innovative school transport arrangements. The broad aim will be to encourage more pupils to walk, cycle or to travel by bus. The Traffic Management Bill, like the previous Bill, could be considered by the Economic Development and Transport Committee. That Bill aims to alleviate congestion and improve traffic flow on local authorities' roads and trunk roads. The Assembly will have the power to commence the provisions in Wales and we

addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru yn awr oherwydd bydd gennym reolaeth lwyr dros yr hyn sydd ei angen i adeiladu ar ein strategaeth i ddatblygu gallu dysgu ac ymchwil Cymru. Mae gennym 90 y cant o'r pwerau eisoes, a bydd hyn yn golygu y bydd gennym bob pŵer bron. Dylai'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ystyried y Mesur hwnnw yn ofalus—

**Ieuan Wyn Jones:** A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â sylwadau Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn ei lythyr at Aelodau Seneddol Cymru, dyddiedig 29 Hydref 2003, ac yn ei gyfweiliad gyda *The Western Mail* ar 27 Tachwedd 2003, mai'r dewis y bydd unrhyw Lywodraeth yn y Cynulliad yn ei wynebu ar ôl 2007 yw naill ai gyflwyno ffioedd ychwanegol, neu ddefnyddio arian o'r gyllideb iechyd a'r gyllideb addysg i dalu amdanynt o'r bloc?

**Y Prif Weinidog:** Ni chredaf iddo ddweud hynny. Yn amlwg, ni allwn wneud ein dewisiadau ein hunain os nad yw materion wedi'u datganoli. Os ydynt wedi'u datganoli, yna gallwn wneud ein dewisiadau ein hunain. Deallaf fod Plaid Cymru wedi penderfynu nad yw am i ragor o bwerau gael eu trosglwyddo i Gymru. Mae hynny bron yr un mor rhyfedd â'r datblygiad heddiw lle mae'r Ceidwadwyr o blaid gwladoli—maent am i'r ardd fotaneg gael ei gwladoli. Bydd cynifer o fysiau o Damascus yn cyrraedd neuadd y Cynulliad, cyn bo hir, nes y byddwn yn clywed Mike German yn dweud ei fod o blaid etholiadau y cyntaf i'r felin, ond efallai y bydd yn rhaid aros ychydig cyn i hynny ddigwydd. [*Chwerthin.*]

Mae'r Mesur Cludiant Ysgolion yn cynnig rhoi pwerau cyffredinol i nifer fach o awdurdodau addysg lleol brofi trefniadau cludiant ysgolion arloesol. Y nod cyffredinol yw annog mwy o ddisgyblion i gerdded, seiclo neu deithio ar y bws. Gallai'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Trafnidiaeth ystyried y Mesur Rheoli Traffig, fel y Mesur blaenorol. Nod y Mesur hwnnw yw lleddfu tagfeydd a gwella llif traffig ar ffyrdd a chefnffyrdd awdurdodau lleol. Bydd gan y Cynulliad y pŵer i gychwyn y darpariaethau yng Nghymru a byddwn yn ymgynghori'n

will be consulting widely before doing so.

The Planning and Compulsory Purchase Bill includes key clauses for Wales that will contribute to the Assembly Government's drive to make the planning system fit for the future. The Environment, Planning and Countryside Committee could consider that Bill.

The proposed Children Bill will provide the Assembly with the opportunity to strengthen services and safeguards for children and will enable us to build on and extend our programme to improve the lives of children and young people in Wales. The Health and Social Services Committee may want to consider how to take forward the provisions of that Bill in Wales. That Committee may also want to consider the Health Protection Agency Bill, which will establish a health protection agency as a non-departmental public body for the UK. However, many of the agency's functions will be carried out by the national public health service for Wales, which will work closely with the agency on the higher-level strategic public-health protection agenda.

The Civil Contingencies Bill and the accompanying non-legislative measures will deliver a single framework for civil protection in the United Kingdom, which is long overdue. The Bill provides a common framework for the United Kingdom as a whole and reinforces and recognises the Assembly's role in co-ordinating a response to any emergency in Wales. We have learnt how to do so during the emergencies that hit Wales in 2000 and early 2001—foot and mouth disease, the Corus redundancies, flooding and so forth. The Bill could be considered by the Local Government and Public Services Committee and the Social Justice and Regeneration Committee. The Fire and Rescue Services Bill seeks to provide a more modern fire and rescue service, but, significantly, the Bill will devolve responsibility for the fire service in Wales to the Assembly. This Bill will provide a great opportunity to reflect the needs of the people of Wales and provide a long-lasting framework to reduce the number of deaths and injuries that result from fire and

eang cyn gwneud hynny.

Mae'r Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn cynnwys cymalau allweddol i Gymru a fydd yn cyfrannu at ymgyrch Llywodraeth y Cynulliad i wneud y system gynllunio yn addas ar gyfer y dyfodol. Gallai Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ystyried y Mesur hwnnw.

Bydd y Mesur Plant arfaethedig yn rhoi cyfle i'r Cynulliad atgyfnerthu gwasanaethau a chamau diogelu ar gyfer plant a bydd yn ein galluogi i ymestyn ac adeiladau ar ein rhaglen i wella bywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Efallai y bydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ystyried sut y dylid gweithredu darpariaethau'r Mesur hwnnw yng Nghymru. Efallai y bydd y Pwyllgor hwnnw hefyd am ystyried y Mesur Asiantaeth Diogelu Iechyd, a fydd yn sefydlu asiantaeth diogelu iechyd, fel corff cyhoeddus an-adrannol i'r DU. Fodd bynnag, caiff llawer o swyddogaethau'r asiantaeth eu cyflawni gan wasanaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru, a fydd yn gweithio'n agos gyda'r asiantaeth ar agenda diogelu iechyd cyhoeddus strategol lefel uwch.

Bydd y Mesur Paratodau Sifil a'r mesurau a gyflwynwyd ar y cyd ag ef nad ydynt yn ddeddfwriaethol yn cyflwyno un fframwaith ar gyfer diogelwch sifil yn y Deyrnas Unedig, sef mesur hirddisgwyliedig. Mae'r Mesur yn rhoi fframwaith cyffredin i'r Deyrnas Unedig gyfan ac yn atgyfnerthu ac yn cydnabod rôl y Cynulliad i gyd-drefnu ymateb i unrhyw argyfwng yng Nghymru. Yr ydym wedi dysgu sut i wneud hynny yn ystod yr argyfyngau a wynebodd Cymru yn 2000 a dechrau 2001—clwy'r traed a'r genau, gweithwyr Corus yn colli eu swyddi, llifogydd ac ati. Gallai'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ystyried y Mesur. Nod y Mesur Gwasanaethau Tân ac Achub yw darparu gwasanaeth tân ac achub mwy modern, ond, yr hyn sy'n arwyddocaol yw y bydd y Mesur yn datganoli cyfrifoldeb dros y gwasanaeth tân yng Nghymru i'r Cynulliad. Bydd y Mesur hwn yn rhoi cyfle gwych i adlewyrchu anghenion pobl Cymru a rhoi fframwaith hirbarhaol i leihau nifer y

other emergency incidents, and to improve safety in the community. People throughout Wales, including those who work in the fire and rescue services, will welcome this Bill, which could be considered by the Social Justice and Regeneration Committee.

The Housing Bill will help to create a better and fairer housing market and will offer protection to the most vulnerable people in society. The establishment of a new office of social housing ombudsman for Wales will be among the main elements of the Bill, which has been called for by many people in many walks of life. The ombudsman will provide an independent means to investigate complaints against social landlords in Wales, and the Social Justice and Regeneration Committee may want to consider this and other elements of the Bill, including those on houses of multiple occupation.

The Domestic Violence, Crime and Victims Bill could be considered by the Social Justice and Regeneration Committee. I am grateful for the welcome that two of the opposition parties—I am sure that the third only omitted it by accident—have given to that Bill. We share the United Kingdom Government's aim of tackling this serious and common form of crime that blights the lives of thousands of men, women and children from all backgrounds. We are currently drafting an all-Wales domestic violence strategy and we will ensure that the measures contained in this Bill are fully reflected in our strategy.

We can contribute to the process of discussing and influencing the Bills in the programme and this motion is about using that opportunity to shape the Bills and to use them to make Wales a better country. We reject all the amendments because they ask the Assembly to pass comment of varying degrees of partisan political negativity and half-baked incompetently drafted impracticality on issues that are not devolved. This has the effect of trying to turn the Assembly into a shadow Westminster or perhaps a shadow-boxing Westminster.

marwolaethau a'r anafiadau o ganlyniad i danau a digwyddiadau brys eraill, a gwella diogelwch yn y gymuned. Bydd pobl ledled Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn y gwasanaethau tân ac achub, yn croesawu'r Mesur hwn, a allai gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

Bydd y Mesur Tai yn helpu i greu marchnad dai well a thecach a bydd yn diogelu'r bobl fwyaf diamddiffyn mewn cymdeithas. Ymhlith prif elfennau'r Mesur, y bu llawer o bobl o sawl maes yn galw amdano, bydd sefydlu swyddfa newydd i ombwdsmon tai cymdeithasol Cymru. Bydd yr ombwdsmon yn fodd i ymchwilio i gwynion yn erbyn landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru yn annibynnol, ac efallai y bydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio am ystyried yr elfen hon ac elfennau eraill o'r Mesur, gan gynnwys y rhai ar dai amlfeddiannaeth.

Gallai'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ystyried y Mesur Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr. Yr wyf yn ddiolchgar bod dwy o'r gwrthbleidiau wedi croesawu'r Mesur hwnnw—yr wyf yn siŵr mai damwain ydyw nad oedd y drydedd wedi cyfeirio ato. Rhannwn nod Llywodraeth y Deyrnas Unedig i fynd i'r afael â'r drosedd ddifrifol a chyffredin hon sy'n difetha bywydau miloedd o ddynion, menywod a phlant o bob cefndir. Yr ydym wrthi'n drafftio strategaeth trais yn y cartref i Gymru gyfan a byddwn yn sicrhau y bydd ein strategaeth yn adlewyrchu'n llawn y mesurau yn y Mesur hwn.

Gallwn gyfrannu at y broses o drafod a dylanwadu ar y Mesurau yn y rhaglen a diben y cynnig hwn yw manteisio ar y cyfle hwnnw i lunio'r Mesurau a'u defnyddio i wneud Cymru yn wlad well. Gwrthodwn bob un o'r gwelliannau am eu bod yn gofyn i'r Cynulliad wneud sylwadau ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli, a sylwadau sy'n dangos graddau amrywiol o negyddoldeb pleidiol ac anymarferoldeb sy'n amlygu diffyg ystyriaeth a drafftio gwallus. Ceisio troi'r Cynulliad yn wrth-Senedd neu efallai'n Gynulliad sy'n esgus bod yn wrth-Senedd fyddai hyn.

**Rhodri Glyn Thomas** *rose—*

**Y Prif Weinidog:** Does dim digon o amser, Rhodri.

One amendment does perhaps impinge on our responsibilities. The legal rights of asylum seekers are a matter for Westminster and we should therefore oppose amendment 4. However, we are responsible for most of the public services that are provided to asylum seekers in Wales, and we provide them on the basis of equal treatment for all, recognising the basic human rights of all. Therefore, I will ask the Minister for Social Justice and Regeneration, Edwina Hart, as the Assembly Minister with responsibility for this matter, to make a statement in the new year that will set out our approach and the practical actions that we are taking.

**Nick Bourne:** I propose the following amendments in the name of Jonathan Morgan. Amendment 1: delete point 2 and replace with:

*2. regrets the Westminster Government's failure to address the serious problems of rising crime faced by Welsh residents and the United Kingdom as a whole in the legislative programme for 2003-04.*

I propose amendment 8. Add as a new point at the end of the motion:

*regrets the lack of any serious attempt by the Westminster Government to address pensioner poverty in Wales and the United Kingdom as a whole in the legislative programme for 2003-04.*

I propose amendment 9. Add as a new point at the end of the motion:

*regrets the Westminster Government's failure to provide any assistance to students facing financial debt in Wales in the legislative programme for 2003-04.*

I propose amendment 10. Add as a new point at the end of the motion:

*regrets the paucity of Wales-only measures*

**Rhodri Glyn Thomas** *a gododd—*

**The First Minister:** There is not enough time, Rhodri.

Efallai fod un gwelliant yn effeithio ar ein cyfrifoldebau. Mater i San Steffan yw hawliau cyfreithiol ceiswyr lloches ac felly dylem wrthwynebu gwelliant 4. Fodd bynnag, ni sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir i geiswyr lloches yng Nghymru, ac yr ydym yn eu darparu ar y sail bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal, gan gydnabod hawliau dynol sylfaenol pawb. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Edwina Hart, fel Gweinidog y Cynulliad â chyfrifoldeb dros y mater hwn, i wneud datganiad yn y flwyddyn newydd a fydd yn nodi sut y bwriadwn weithredu a'r camau ymarferol yr ydym yn eu cymryd.

**Nick Bourne:** Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Jonathan Morgan. Gwelliant 1: dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

*2. yn gresynu nad yw Llywodraeth San Steffan yn mynd i'r afael â'r broblem ddifrifol o gynnydd mewn troseddau y mae pobl Cymru a'r Deyrnas Unedig gyfan yn ei hwynebu, yn y rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer 2003-04.*

Cynigiau welliant 8. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu nad yw Llywodraeth San Steffan yn mynd ati o ddifrif i ymdrin â thlodi ymysg pensïynwyr yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig gyfan yn y rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer 2003-04.*

Cynigiau welliant 9. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'We will not introduce top-up fees and have legislated to prevent them'.

Ni fyddwn yn cyflwyno ffioedd ychwanegol ac yr ydym wedi deddfu i atal hynny.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Your time is up. I have pressed the red button and you cannot be heard.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae eich amser ar ben. Yr wyf wedi gwasgu'r botwm coch ac ni all neb eich clywed.

**Janice Gregory:** After that rant from the prospective parliamentary candidate for Monmouth—and we all know what was going on there—I thank the Secretary of State for Wales for his statement this afternoon. After hearing presentations from the Cardiff women's safety unit and Cardiff Women's Aid at the Social Justice and Regeneration Committee meeting this morning, I will concentrate my remarks on the Domestic Violence, Crime and Victims Bill.

**Janice Gregory:** Ar ôl rhefru'r darpar ymgeisydd seneddol dros Fynwy—a gwyddom oll beth oedd yn ei wneud—diolchaf i Ysgrifennydd Gwladol Cymru am ei ddatganiad y prynhawn yma. Ar ôl gwrando ar gyflwyniadau gan uned diogelwch menywod Caerdydd a Chymorth i Fenywod Caerdydd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y bore yma, canolbwyntiaf ar y Mesur Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr.

I pay tribute to the work of those organisations, which is done in heart-breaking circumstances. Domestic violence is a despicable crime that devastates families and ruins lives. The UK and Welsh Assembly Governments must be unequivocal in stating that domestic violence is unacceptable and, as the Secretary of State said earlier, it claims the lives of two women every week and accounts for a quarter of all violent crime.

Talaf deyrnged i waith y sefydliadau hynny, a wneir o dan amgylchiadau torcalonnus. Mae trais yn y cartref yn drosedd wrthun sy'n dinistrio teuluoedd a bywydau. Rhaid i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn bendant wrth ddweud bod trais yn y cartref yn annerbyniol ac, fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gynharach, mae dwy fenyw yn marw bob wythnos o drais yn y cartref ac mae'n cyfrif am un o bob pedair trosedd dreisgar.

We must commit ourselves to tackling domestic violence wherever and whenever it occurs, and I look forward to the measures in the Bill ensuring that all victims of domestic violence have coherent, appropriate and effective legal protection.

Rhaid inni ymrwymo i fynd i'r afael â thrais yn y cartref, lle bynnag a phryd bynnag y mae'n digwydd, ac edrychaf ymlaen at y mesurau yn y Mesur yn sicrhau y caiff pawb sy'n dioddef trais yn y cartref ei ddiogelu o dan y gyfraith mewn ffordd gydlynol, priodol ac effeithiol.

4.10 p.m.

I welcome the UK Government's emphasis on the three elements of prevention, protection and justice, and support. We must work to prevent domestic violence from happening in the first place, and work with victims and offenders to prevent it from

Croesawaf bwyslais Llywodraeth y DU ar dair elfen sef atal, diogelwch a chyfiawnder, a chymorth. Rhaid inni weithio i atal trais yn y cartref rhag digwydd yn y lle cyntaf, a gweithio gyda dioddefwyr a throseddwyr i sicrhau na fydd yn digwydd eto. Rhaid inni

reoccurring. We must increase legal protection and provide support for victims and their families. Under the provisions of the new Bill, victims of crime will be guaranteed, for the first time, rights to support, information and advice from criminal justice agencies. Victims' causes will be championed across Government departments, so that policy is coherent and all services respond to the needs of victims.

The police will have significant new powers to deal with domestic violence. The civil law on domestic violence will be strengthened to ensure that same sex couples and couples who have never cohabited or married are protected from harassment and intimidation. Homicide reviews will be set up with key local agencies following domestic violence murders to learn lessons for the future and help with prevention strategies.

Labour believes in putting victims, witnesses and the community at the heart of the criminal justice system to reduce crime and bring more offenders to justice. The Domestic Violence, Crime and Victims Bill has been anticipated by various sectors for some time, and a victims' bill of rights is a manifesto commitment. I am proud that the Government is taking forward this commitment and I look forward to the Labour Welsh Assembly Government playing its part, with the development of its all-Wales domestic violence strategy. I also look forward to all partners and agencies tackling this crucial issue and making a difference to the lives of so many of the most vulnerable people in our communities.

**Janet Ryder:** The Queen's Speech once again shows how, after four and a half years, this half-baked, lopsided devolution settlement is letting Wales down. Almost all the 23 Bills and the seven draft Bills apply across England and Wales, while only a handful affect Scotland.

Right at the top of Westminster's agenda for the parliamentary year is higher education and tuition fees, or variable fees, as the

roi mwy o ddiogelwch o dan y gyfraith a rhoi cymorth i ddioddefwyr a'u teuluoedd. O dan ddarpariaethau'r Mesur newydd, bydd gan ddioddefwyr trosedd, am y tro cyntaf, hawliau i gymorth, gwybodaeth a chynghor gan asiantaethau cyfiawnder troseddol. Caiff achosion dioddefwyr eu cefnogi ar draws adrannau'r Llywodraeth, er mwyn sicrhau bod polisïau yn gydlynol a bod pob gwasanaeth yn ymateb i anghenion dioddefwyr.

Bydd gan yr heddlu bwerau newydd sylweddol i ymdrin â thrais yn y cartref. Caiff y gyfraith sifil ar drais yn y cartref ei hatgyfnerthu i sicrhau bod parau o'r un rhyw a pharau nad ydynt erioed wedi cyd-fyw neu wedi priodi yn cael eu diogelu rhag partneriaid sy'n aflonyddu arnynt neu yn eu bygwth. Caiff adolygiadau o lofruddiaeth eu sefydlu gydag asiantaethau lleol allweddol ar ôl lofruddiaethau drwy drais yn y cartref er mwyn dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol a helpu gyda strategaethau atal.

Mae Llafur yn credu mewn rhoi dioddefwyr, tystion a'r gymuned wrth wraidd y system cyfiawnder troseddol er mwyn lleihau nifer y troseddau a dwyn mwy o droseddwr gerbron y llys. Mae sectorau gwahanol wedi bod yn disgwyl am y Mesur Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr ers peth amser, ac mae hawliau dioddefwyr yn ymrwymiad maniffesto. Yr wyf yn falch bod y Llywodraeth yn gweithredu ar yr ymrwymiad hwn ac edrychaf ymlaen at weld Llywodraeth Lafur Cynulliad Cymru yn chwarae ei rhan, gyda datblygiad ei strategaeth trais yn y cartref i Gymru gyfan. Edrychaf ymlaen hefyd at weld pob partner ac asiantaeth yn mynd i'r afael â'r mater hollbwysig hwn ac yn gwneud gwahaniaeth i fywyd cymaint o'r bobl fwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau.

**Janet Ryder:** Mae Araith y Frenhines yn dangos unwaith eto, ar ôl pedair blynedd a hanner, bod y setliad datganoli hanner call ac anghybwys hwn yn siomi Cymru. Mae bron pob un o'r 23 o Fesurau a'r saith Mesur drafft yn gymwys i Gymru a Lloegr a dim ond llond drwn sy'n effeithio ar yr Alban.

Ar frig agenda San Steffan ar gyfer y flwyddyn seneddol y mae addysg uwch a ffioedd dysgu, neu ffioedd amrywiadwy, fel

Minister said, which are included in the Higher Education Bill. Make no mistake: this Bill will have profound consequences even though it passes responsibility for student funding to the National Assembly. Higher education has a vital role in creating a strong civic society and promoting economic growth. Responsibility for these areas has been handed to the National Assembly for Wales. For example, the National Assembly is expected to ensure that Welsh businesses benefit from the wealth of knowledge possessed by our universities and colleges. Yet, while the Assembly has power over certain aspects of student financing, responsibility for fees and loans remains with Westminster. This is just another example of the crazy, mixed-up system imposed on Wales by Labour.

However, the chickens are coming home to roost, because Labour's muddled thinking poses real problems for our universities. London is graciously allowing Wales to decide whether or not to scrap tuition fees, but its cack-handed devolution settlement means that we do not have the power to raise funds for Welsh universities. Having the legal power to scrap fees is meaningless without the financial power to fund a world-class university sector and a decent level of student support through the reintroduction of the maintenance grant. With one hand tied behind our backs, we now face the dire prospect of competing against better funded English universities.

We can expect little help from Labour's masters in London. You do not have to take my word for it—we have it on the authority of Peter Hain, the part-time Secretary of State for Wales. The Welsh Assembly Government has been well and truly warned. He has told it that health and education budgets may have to be raided again if it refuses to introduce top-up fees. You can be sure that we are hearing his master's voice.

So far, we have a promise by WAG that there will be no top-up fees until May 2007, just six months after they are due to be introduced

y'u galwyd gan y Gweinidog, a geir yn y Mesur Addysg Uwch. Peidiwch â chamsynied: bydd y Mesur hwn yn cael effaith ddofn er ei fod yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ariannu myfyrwyr i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae addysg uwch yn chwarae rhan hollbwysig mewn creu cymdeithas ddinesig gref a hybu twf economaidd. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros y meysydd hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Er enghraifft, disgwylir i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod busnesau Cymru yn elwa ar y cyfoeth o wybodaeth sydd gan ein prifysgolion a'n colegau. Ac eto, er bod gan y Cynulliad bŵer dros agweddau penodol ar gyllid myfyrwyr, erys y cyfrifoldeb dros ffioedd a benthyciadau yn nwylo San Steffan. Nid yw hon ond yn enghraifft arall o'r system wallgof a dryslyd y mae Llafur wedi ei gorfodi ar Gymru.

Fodd bynnag, mae problemau yn dechrau dod i'r golwg, oherwydd mae syniadau dryslyd Llafur yn achosi problemau gwirioneddol i'n prifysgolion. Drwy ras Llundain mae Cymru yn cael penderfynu pa un a ddylid cael gwared ar ffioedd dysgu ai peidio, ond oherwydd ei setliad datganoli chwithig nid oes gennym y pŵer i godi arian ar gyfer prifysgolion Cymru. Mae'r pŵer cyfreithiol i gael gwared ar ffioedd yn ddiystyr heb y pŵer ariannol i ariannu sector prifysgol o'r radd flaenaf, a lefel dda o gymorth i fyfyrwyr drwy ailgyflwyno'r grant cynnal. Gydag un llaw wedi'i chlymu, wynebwn y posibilrwydd ofnadwy o orfod cystadlu yn erbyn prifysgolion Lloegr sy'n cael mwy o arian.

Ni allwn ddisgwyl cael fawr o gymorth oddi wrth feistri Llafur yn Llundain. Nid oes rhaid ichi dderbyn fy ngair i—mae Peter Hain, yr Ysgrifennydd Gwladol rhan amser dros Gymru, yn dweud hynny wrthym. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael ei rhybuddio o ddifrif. Mae ef wedi dweud wrthi y bydd yn rhaid troi at y gyllideb iechyd a'r gyllideb addysg unwaith eto o bosibl, os bydd yn gwrthod cyflwyno ffioedd ychwanegol. Gallwch fod yn sicr mai llais ei feistr a glywn.

Hyd yma, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi addo na fydd ffioedd ychwanegol tan fis Mai 2007, sef prin chwe

in England. However, what is the betting that, after the next election, the fees will be forced on Wales? Plaid Cymru will oppose the introduction of top-up fees in every way possible. The idea is a disgrace and a condemnation of the Labour Governments in Labour and Cardiff. Labour harps on about equality of opportunity, but its right-wing political programme offers opportunity only if you are rich, while forcing students into debt and charging children to go to school. The draft Transport Bill, which will bring in charges for school transport, threatens the principle of free state education. You cannot have free education if you cannot get to school. It is clear that Tony Blair intends to inflict his views on us one way or another, so roll on independence.

**John Griffiths:** The Queen's Speech rightfully prioritises safe communities. Safety is key to quality of life, particularly in our most deprived communities, which will welcome this. The legislation on victims of crime and domestic violence is badly needed.

I will address criminal justice issues as they affect our communities. The Conservatives' amendment 1 refers to rising crime and the failure of the legislative programme to address that, but we will not take any lectures from them on this, or on any other topic, given their record. They presided over record crime rates as they tore apart the social fabric of our communities. They presented us with many of the problems that our communities still struggle to come to terms with today. We should consider that amendment in that light.

**Helen Mary Jones:** I agree with you on that point. However, what is your view on the Labour Government's proposal to withdraw and reduce the legal aid available to asylum seekers and, possibly, to put some of those asylum seekers' children into care? Do you agree that it is this Government that is using

mis ar ôl y dyddiad y bwriedir eu cyflwyno yn Lloegr. Fodd bynnag, beth yw'r siawns y caiff y ffioedd eu gorfodi ar Gymru ar ôl yr etholiad nesaf? Bydd Plaid Cymru yn gwrthwynebu unrhyw ymgais i gyflwyno ffioedd ychwanegol ym mhob ffordd bosibl. Mae'r syniad yn warthus ac yn gondemiad o'r Llywodraeth Lafur yn Llundain ac yng Nghaerdydd. Mae Llafur yn rhygnu ymlaen ynglŷn â chyfle cyfartal, ond dim ond os ydych yn gyfoethog y cewch gyfle o dan ei rhaglen wleidyddol asgell dde, tra'n gorfodi myfyrwyr i fynd i ddyled ac yn codi tâl ar blant i fynd i'r ysgol. Mae'r Mesur Trafnidiaeth drafft, a fydd yn cyflwyno taliadau am gludiant i'r ysgol, yn fygythiad i'r egwyddor o addysg y wladwriaeth am ddim. Ni allwch gael addysg am ddim os na allwch gyrraedd yr ysgol. Mae'n amlwg bod Tony Blair yn bwriadu gorfodi ei safbwyntiau arnom rhyw ffordd neu'i gilydd, felly gorau po gyntaf y cawn annibyniaeth.

**John Griffiths:** Mae Araith y Frenhines yn briodol yn rhoi blaenoriaeth i gymunedau diogel. Mae diogelwch yn allweddol i ansawdd bywyd, yn enwedig yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, a fydd yn croesawu hyn. Mae angen y ddeddfwriaeth ynglŷn â dioddefwyr troseddau a thrais yn y cartref yn ddybryd.

Ymdriniaf â materion cyfiawnder troseddol fel y maent yn effeithio ar ein cymunedau. Cyfeiria gwelliant 1 y Ceidwadwyr at y cynnydd mewn troseddau a methiant y rhaglen ddeddfwriaethol i fynd i'r afael â hynny, ond ni dderbyniwn bregeth ganddynt hwy ar hyn, nac ar unrhyw bwnc arall, o gofio eu record. Pan oeddent hwy mewn grym cafwyd y cyfraddau troseddu gwaethaf erioed wrth iddynt chwalu gwead cymdeithasol ein cymunedau. Hwy a roddodd lawer o'r problemau inni y mae ein cymunedau yn dal i'w chael yn anodd i ddygymod â hwy heddiw. Dylem ystyried y gwelliant hwnnw yn y goleuni hwnnw.

**Helen Mary Jones:** Cytunaf â chi ar y pwynt hwnnw. Fodd bynnag, beth yw eich barn chi ar gynnig y Llywodraeth Lafur i leihau a thynnu'n ôl y cymorth cyfreithiol sydd ar gael i geiswyr lloches ac, o bosibl, rhoi plant rhai o'r ceiswyr lloches hynny mewn gofal? A gytunwch mai'r Llywodraeth hon sy'n

asylum seekers' children as pawns, and not the asylum seekers themselves, whether they are failed asylum seekers or otherwise?

**John Griffiths:** We heard earlier that Edwina Hart will address issues relating to asylum seekers as they affect the Assembly in due course, and I look forward to that.

In order to create safer communities, it is vital to concentrate on what works. People often seek simplistic solutions to criminal justice issues. They are not to be found, because it is a complex area, which requires a wide-ranging response. We can see from the fact that we have a record prison population—almost the highest in Europe—that criminal justice policies do not work. The rising prison population has not resulted in a falling crime rate. It is clear that we must concentrate on the realities and practicalities of this. We must implement programmes that can provide proper treatment for people with illegal drug problems. We must also address the binge drinking culture in Wales and how the drinks industry gets away with so much in terms of its promotions, which encourage people to drink senselessly.

We need to adopt a wide-ranging view of these matters by, for example, tackling short prison sentences. They stigmatise people and can cause difficulties when prisoners are released in terms of breaking down family ties. A short sentence does not allow time for rehabilitation and people lose job prospects and so on; it is a counter-productive measure. Prison must be reserved for people who present a threat to the safety of our communities; for those who do not, we must develop a wide range of alternative approaches. I know that that is the priority of our communities. What counts is what works, and we must deliver that.

**Leanne Wood:** I concur with the comments welcoming the Domestic Violence, Crime and Victims Bill and the same sex partnerships legislation—they are both

defnyddio plant ceiswyr lloches at ei dibenion ei hun yn hytrach na'r ceiswyr lloches eu hunain, pa un a yw eu cais am loches wedi methu ai peidio?

**John Griffiths:** Clywsom yn gynharach y bydd Edwina Hart yn trafod materion sy'n ymwneud â cheiswyr lloches fel y byddant yn effeithio ar y Cynulliad maes o law, ac edrychaf ymlaen at hynny.

Er mwyn creu cymunedau mwy diogel, mae'n hollbwysig canolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio. Mae pobl yn aml yn chwilio am atebion rhy syml i gyfiawnder troseddol. Ni ellir dod o hyd iddynt am fod hwn yn faes cymhleth, sy'n gofyn am ymateb eang. Gallwn weld o'r ffaith bod mwy o bobl nag erioed yn ein carchardai—y nifer fwyaf yn Ewrop bron—nad yw polisïau cyfiawnder troseddol yn gweithio. Nid yw'r cynnydd yn nifer y carcharorion wedi arwain at ostyngiad yn nifer y troseddau. Mae'n amlwg bod yn rhaid inni ganolbwyntio ar wironeddau a phroblemau ymarferol y sefyllfa hon. Rhaid inni weithredu rhaglenni sy'n gallu rhoi'r driniaeth gywir i bobl â phroblemau o ran cyffuriau anghyfreithlon. Rhaid inni hefyd fynd i'r afael â'r diwylliant o yfed trwm sydd yng Nghymru a'r rhyddid sydd gan y diwydiant diodydd o ran ei ymgyrchoedd hyrwyddo, sy'n annog pobl i feddwi.

Mae angen inni lunio barn eang ar y materion hyn drwy fynd i'r afael â dedfrydau byr o garchar, er enghraifft. Gall pobl wynebu stigma oherwydd dedfrydau o'r fath a gallant achosi anawsterau pan gaiff carcharorion eu rhyddhau o ran chwalu cysylltiadau teuluol. Nid oes digon o amser yn ystod dedfryd fer o garchar i ailsefydlu carcharorion ac mae pobl yn colli cyfleoedd am waith ac ati; mae'n fesur gwrthgynhyrchiol. Dim ond pobl sy'n fygythiad i ddiogelwch ein cymunedau y dylid eu carcharu; i'r rhai nad ydynt yn fygythiad, rhaid inni ddatblygu amrywiaeth eang o ddulliau gweithredu eraill. Gwn mai dyna yw blaenoriaeth ein cymunedau. Yr hyn sy'n gweithio yw'r hyn sy'n cyfrif, a rhaid inni gyflawni hynny.

**Leanne Wood:** Cytunaf â'r sylwadau yn croesawu'r Mesur Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr a'r ddeddfwriaeth ynglŷn â phartneriaethau rhwng pobl o'r un



overdue. I will use this opportunity to raise concerns about the creeping reduction of civil liberties and human rights. Conspicuous in its absence in the Queen's Speech was the Mental Health Bill. I understand that it is the UK Government's intention to reintroduce this Bill as soon as parliamentary time allows. Members will be aware of the campaign organised by the mental health lobby against the damaging and dangerous aspects of this Bill. I have no doubt that there is no appetite in Wales to force people to take medication against their will, or to incarcerate those who do not commit offences.

4.20 p.m.

The Mental Health Bill campaign received cross-party support in this National Assembly. Would it be prudent therefore for us to consider a Wales mental health Bill? There is no question that mental health legislation needs to be reformed, but Wales should use the good aspects, and reject the negative, right-wing aspects, of the previous proposals. I have similar concerns about the Civil Contingencies Bill, which will give far more powers to the intelligence services, and put more power into the hands of future Governments. It has been described as the greatest threat to civil liberty that any Parliament is likely to consider. It will also place additional financial burdens on local authorities. If the resources do not accompany the measures, as happened with tuition fees, then the Civil Contingencies Bill is not practical.

To continue with the theme of trampling on human rights, do we need another Immigration Bill? In the 82 years up to 1993, there have been six immigration Acts, and this would be the fifth such Act in the last decade. Surely we cannot support the removal of legal aid from asylum seekers and a reduction of their right to appeal? Surely we cannot support the removal of people's children because they have failed in the appeal process? I urge the entire Cabinet to make the strongest possible representations to the Westminster Government on that issue. That Bill will continue the stigma that asylum seekers already suffer, and, ultimately, will

rhyw—mae'r ddau yn hirddisgwylidig. Manteisiaf ar y cyfle hwn i godi pryderon ynglŷn â'r broses raddol o leihau rhyddid yr unigolyn a hawliau dynol. Y Mesur amlwg a fu'n absennol o Araith y Frenhines oedd y Mesur Iechyd Meddwl. Deallaf fod Llywodraeth y DU yn bwriadu ailgyflwyno'r Mesur hwn mor fuan ag y caniatâ amserlen y Senedd. Bydd Aelodau yn ymwybodol o'r ymgyrch a drefnwyd gan y lobi iechyd meddwl yn erbyn agweddau niweidiol a pheryglus ar y Mesur hwn. Nid oes amheuaeth gennyf nad oes unrhyw awydd yng Nghymru i orfodi pobl i gymryd meddyginiaeth o'u hanfodd, neu i garcharu'r rhai nad ydynt yn cyflawni troseddau.

Cefnogwyd yr ymgyrch dros y Mesur Iechyd Meddwl gan bob plaid yn y Cynulliad Cenedlaethol hwn. Felly a fyddai'n ddoeth inni ystyried Mesur iechyd meddwl i Gymru? Nid oes amheuaeth bod angen diwygio deddfwriaeth iechyd meddwl, ond dylai Cymru ddefnyddio'r agweddau da, a gwrthod agweddau negyddol, asgell dde y cynigion blaenorol. Mae gennyf bryderon tebyg am y Mesur Paratodau Sifil, a fydd yn rhoi llawer mwy o bwerau i'r gwasanaethau cuddwybodaeth, ac yn rhoi mwy o bwerau yn nwylo Llywodraethau yn y dyfodol. Fe'i disgrifiwyd fel y bygythiad mwyaf i ryddid yr unigolyn y bydd unrhyw Senedd yn debygol o'i ystyried. Bydd hefyd yn gosod beichiau ariannol ychwanegol ar awdurdodau lleol. Os na roddir adnoddau i gyd-fynd â'r mesurau, fel y digwyddodd yn achos ffioedd dysgu, yna nid yw'r Mesur Paratodau Sifil yn ymarferol.

Gan barhau â thema o sathru ar hawliau dynol, a oes angen Mesur Mewnfudo arall arnom? Yn y 82 o flynyddoedd hyd at 1993, bu chwe Deddf mewnfudo, a hon fyddai'r bumed Ddeddf mewnfudo yn ystod y degawd diwethaf. Onid yw'n amhosibl inni gefnogi penderfyniad i ddiddymu hawl ceiswyr lloches i gymorth cyfreithiol ac i leihau eu hawl i apelio? Onid yw'n amhosibl inni gefnogi penderfyniad i fynd â phlant oddi wrth bobl am eu bod wedi methu yn y broses apelio? Apeliaf ar y Cabinet cyfan i gyflwyno'r sylwadau mwyaf cadarn posibl i Lywodraeth San Steffan ar y mater hwnnw. Bydd y Mesur hwnnw yn parhau â'r stigma a

contribute towards an increase in racism. I do not have time to discuss the potential reduction in civil liberties associated with the introduction of ID cards, but, while they may not be introduced for another 10 years, they would contribute to a crackdown on people's freedom.

**Leighton Andrews:** I will concentrate on the amendments tabled by the opposition parties. The nationalists and the Conservatives today display extraordinary opportunism in their amendments, both in what those amendments say, and in what they do not. Let us consider Plaid Cymru's amendment 2. I am delighted that Plaid Cymru has tabled this amendment, because it confirms that it would impose tax-varying powers on Wales without a referendum. It states explicitly that it wants the Government to prioritise a new Government of Wales Act, which would devolve primary, legislative and tax-varying powers to the National Assembly. There is no reference to a referendum. The people of Wales would not be offered that choice, although the people of Scotland were. Plaid Cymru's amendment 2 is also incomplete. Were it accurate, it should read, 'a new Government of Wales Act that would devolve primary, legislative and tax-varying powers to the National Assembly, except on student support'. That is the truth. Plaid's amendment 2 is completely contradictory to its stance on tuition fees. Why does it oppose the transfer of powers? It is to get its MPs off the hook in how they vote in Westminster.

**Rhodri Glyn Thomas** *rose*—

**Leighton Andrews:** Let us also consider what we do not see from Plaid Cymru today. Where is the amendment regretting that the Queen did not announce the Wales (Independence) Bill? Why is that amendment not included? It is because Plaid cannot agree on that issue. We all know that its leader did not vote for independence. He was not present for the independence debate in Plaid Cymru's party conference. You would have

wyneba ceiswyr lloches eisoes, ac, yn y pen draw, bydd yn cyfrannu at fwy o hiliaeth. Nid oes amser gennyf i drafod y posibilrwydd y bydd llai o hawliau dinesig gennym ar ôl i gardiau adnabod gael eu cyflwyno, ond, er na chânt eu cyflwyno am 10 mlynedd arall o bosibl, byddent yn cyfrannu at leihau rhyddid pobl.

**Leighton Andrews:** Canolbwyntiaf ar y gwelliannau a gyflwynwyd gan y gwrthbleidiau. Dengys y cenedlaetholwyr a'r Ceidwadwyr oportiwnistiaeth aruthrol yn eu gwelliannau heddiw, yn yr hyn y mae'r gwelliannau yn ei ddweud, a'r hyn nad ydynt yn ei ddweud. Gadewch inni ystyried gwelliant 2 Plaid Cymru. Yr wyf wrth fy modd bod Plaid Cymru wedi cyflwyno'r gwelliant hwn, am ei fod yn cadarnhau y byddai'n rhoi pwerau i amrywio trethi i Gymru heb refferendwm. Noda'n glir ei bod am i'r Llywodraeth flaenoriaethu Deddf Llywodraeth Cymru newydd, a fyddai'n datganoli pwerau i lunio deddfwriaeth sylfaenol a phwerau i amrywio trethi i'r Cynulliad Cenedlaethol. Nid yw'n cyfeirio at refferendwm. Ni châi pobl Cymru y dewis hwnnw, er i bobl yr Alban ei gael. Mae gwelliant 2 Plaid Cymru yn anghyflawn hefyd. Pe bai'n gywir, dylai ddarllen 'Deddf Llywodraeth Cymru newydd a fyddai'n datganoli pwerau i lunio deddfwriaeth sylfaenol ac amrywio trethi i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac eithrio o ran cymorth i fyfyrwyr'. Dyna'r gwirionedd. Mae gwelliant 2 Plaid Cymru yn hollol groes i'w safbwynt ar ffioedd dysgu. Pam mae'n gwrthwynebu trosglwyddo pwerau? Y rheswm yw er mwyn achub ei Aelodau Seneddol o drafferth o ran y ffordd y maent yn pleidleisio yn San Steffan.

**Rhodri Glyn Thomas** *a gododd*—

**Leighton Andrews:** Gadewch inni ystyried hefyd yr hyn nad ydym yn ei weld ar ran Plaid Cymru heddiw. Ble mae'r gwelliant yn gresynu'r ffaith na chyhoeddodd y Frenhines Fesur (Annibyniaeth) Cymru? Pam nad yw'r gwelliant hwnnw wedi'i gynnwys? Y rheswm yw am na all Plaid gytuno ar y mater hwnnw. Mae pob un ohonom yn gwybod na phleidleisiodd ei harweinydd o blaid annibyniaeth. Nid oedd yn bresennol ar gyfer

thought that there would have been some collective responsibility, but the party's leader does not even have the courage of his lack of convictions.

The Conservatives appear to be dropping their policy on the abolition of tuition fees. The only amendment from the Conservatives on student hardship refers to the failure to give assistance to students. They failed to notice that Labour introduced Assembly learning grants last year, and that it is continuing with that policy. They have nothing to say on tuition fees. I quote their previous education spokesperson, Damian Green. In October, he said that

'The first thing a Conservative Government will do is introduce a bill to scrap tuition fees.'

The Conservatives have not tabled any such amendment today. Why not? It is because Damian Green is no longer in the Conservative shadow cabinet. The Conservatives are conducting a policy review. We know that the Welsh Conservatives have a Welsh leader. He is from Llanelli, and he is the MP for Folkestone. At present, he is reviewing Conservative policy. The reason that the Welsh Conservatives cannot mention their previous commitment on tuition fees is because they do not know if it still is a commitment. That is the reality.

**Carl Sargeant:** Thank you for giving way—

**Rhodri Glyn Thomas:** You seem to have plenty of time to give way to an easy one.

**The Deputy Presiding Officer:** Order.

**Carl Sargeant:** I agree that the amendments are cheap political pot-shots, especially those proposed by the Tories. Amendment 11 states that they support the steel workers, but they have never supported workers. In Alyn and Deeside, 10,000 jobs were lost because of them over there. They seem to forget that in their political shots.

y ddadl ar annibyniaeth yng nghynhadledd Plaid Cymru. Byddech wedi credu bod rhywfaint o gyfrifoldeb ar y cyd, ond nid yw arweinydd y blaid yn barod i sefyll dros ei ddiffyg egwyddorion hyd yn oed.

Ymddengys bod y Ceidwadwyr yn cael gwared â'u polisi ar ddiddymu ffioedd dysgu. Mae unig welliant y Ceidwadwyr ar galedi ymhlith myfyrwyr yn cyfeirio at y ffaith na roddwyd cymorth i fyfyrwyr. Bu iddynt fethu â sylweddoli i Lafur gyflwyno grantiau dysgu'r Cynulliad y llynedd, a'i bod yn parhau â'r polisi hwnnw. Nid oes unrhyw beth ganddynt i'w ddweud ar ffioedd dysgu. Dyfynnaf eu llefarydd addysg blaenorol, Damian Green. Ym mis Hydref, dywedodd mai

Y peth cyntaf y bydd Llywodraeth Geidwadol yn ei wneud yw cyflwyno mesur i ddiddymu ffioedd dysgu.

Nid yw'r Ceidwadwyr wedi cyflwyno unrhyw welliant o'r fath heddiw. Pam yw hynny? Mae hynny wedi digwydd oherwydd nad yw Damian Green yng nghabinet yr wrthblaid Geidwadol mwyach. Mae'r Ceidwadwyr yn cynnal adolygiad o bolisi. Gwyddom fod gan Geidwadwyr Cymru arweinydd i Gymru. Daw o Lanelli, a'r AS dros Folkestone ydyw. Ar hyn o bryd, mae'n adolygu polisi Ceidwadol. Y rheswm pam na all Ceidwadwyr Cymru grybwyll eu hymrwymiad blaenorol ar ffioedd dysgu yw am na wyddant a yw'n parhau i fod yn ymrwymiad. Dyna'r realiti.

**Carl Sargeant:** Diolch ichi am ildio—

**Rhodri Glyn Thomas:** Ymddengys bod digon o amser gennych i ildio i un hawdd.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn.

**Carl Sargeant:** Cytunaf fod y gwelliannau yn ergydion gwleidyddol siêp, yn enwedig y rhai a gynigir gan y Torïaid. Mae gwelliant 11 yn nodi eu bod yn cefnogi'r gweithwyr dur, ond nid ydynt wedi cefnogi gweithwyr erioed. Yn Alun a Glannau Dyfrdwy, collwyd 10,000 o swyddi o'u herwydd hwy fan draw. Ymddengys eu bod yn anghofio hynny yn eu hergydion gwleidyddol.

**Leighton Andrews:** You are right, Carl. If I am going to give up my time, I will give it up to someone who has something sensible to say. We have total opportunism from the opposition today. The truth is that they are in a mess, they will not come out with their policies, and their amendments do not reflect what they stand for.

**William Graham:** We support and commend the Domestic Violence, Crime and Victims Bill and promise to work constructively with the Government on this issue. Tackling domestic violence is not primarily an issue for legislation—it is about tackling a culture that regards domestic violence as acceptable, providing greater help to the victims of domestic violence, and developing proper programmes for the perpetrators of such violence. We recall that domestic violence also affects children as much as adults. The Bill is likely to make common assault an arrestable offence. Will the Secretary of State clarify what information, evidence and papers can be shared between the civil and criminal courts, and whether guidelines will be issued to criminal courts to ensure realistic and enforceable bail conditions, which need to be set in cases of domestic violence? A commissioner for victims sounds like another meaningless gimmick that avoids the crucial issue, which is that more criminals must be caught. That is the top priority of the victims of crime. Under Labour, the number of criminals going unpunished has soared; last year, there were 800,000 more recorded crimes than when Labour came to power.

The Fire and Rescue Services Bill will have great significance for the Assembly and Wales, if responsibility for the fire authorities is devolved under the regionalisation policy. The Welsh Conservative group will work to ensure that this, and other measures to modernise our fire and rescue services, result in improved safety for the people of Wales. We have faced an unnecessary year-long fire service dispute that placed the public at risk and placed excessive stress on our armed forces at a time when they were committed to fighting a war as well as fires, and cost the

**Leighton Andrews:** Yr ydych yn gywir, Carl. Os yr wyf am ildio, fe wnaif hynny i rywun sydd â rhywbeth synhwyrol i'w ddweud. Ceir oportiwnistiaeth lwyr gan yr wrthblaid heddiw. Y gwirionedd yw eu bod mewn trafferth, gwrthodant ddatgan eu polisiau, ac nid yw eu gwelliannau yn adlewyrchu'r hyn y maent yn ei gefnogi.

**William Graham:** Yr ydym yn cefnogi ac yn cymeradwyo'r Mesur Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr ac yn addo cydweithio â'r Llywodraeth ar y mater hwn mewn ffordd adeiladol. Nid mater deddfwriaethol yw trais yn y cartref yn bennaf—mae a wnelo â mynd i'r afael â diwylliant sy'n ystyried bod trais yn y cartref yn dderbyniol, gan roi mwy o gymorth i ddiodesfwyr trais yn y cartref, a chan ddatblygu rhaglenni priodol ar gyfer y rhai sy'n cyflawni trais o'r fath. Cofiw'n fod trais yn y cartref hefyd yn effeithio ar blant cymaint ag y mae'n effeithio ar oedolion. Mae'n debygol y bydd y Mesur yn gwneud ymosodiad cyffredin yn drosedd arestiadwy. A wnaiff yr Ysgrifennydd Gwladol esbonio pa wybodaeth, tystiolaeth a phapurau y gellir eu rhannu rhwng y llysoedd sifil a throseddol, ac a gaiff canllawiau eu rhoi i lysoedd troseddol er mwyn sicrhau amodau mechnïaeth realistig y gellir eu gorfodi, sydd eu hangen mewn achosion o drais yn y cartref? Mae comisiynydd diodesfwyr yn swnio'n debyg i gimig diystyr arall sy'n osgoi'r mater hanfodol, sef bod yn rhaid dal mwy o droseddwyr. Dyna flaenoriaeth bwysicaf diodesfwyr troseddau. O dan Lafur, mae nifer y troseddwyr na chânt eu cosbi wedi codi'n ddychrynlyd; y llynedd, cofnodwyd 800,000 yn fwy o droseddau na phan ddaeth Llafur i rym.

Bydd y Mesur Gwasanaethau Tân ac Achub o bwys mawr i'r Cynulliad ac i Gymru, os caiff cyfrifoldeb am yr awdurdodau tân ei ddatganoli o dan y polisi rhanbartholi. Bydd Grŵp Ceidwadwyr Cymru yn gweithio i sicrhau bod hyn, a mesurau eraill i foderneiddio ein gwasanaethau tân ac achub, yn arwain at well diogelwch i bobl Cymru. Yr ydym wedi wynebu anghydfod diangen yn y gwasanaeth tân sydd wedi para blwyddyn, ac a roddodd y cyhoedd mewn perygl ynghyd â gormod o straen ar ein lluoedd arfog ar adeg pan oeddent wedi ymrwymo i ymladd

taxpayer over £100 million. This Bill arises from that dispute. Will the Secretary of State confirm that the funding for all aspects of this Bill, as they refer to the service in Wales, will be received from the Treasury, including the funds that are needed to meet the agreed pay settlement? We also seek the Secretary of State's assurance that this Bill includes an effective pay-negotiation mechanism, which will encourage an agreed no-strike agreement, and that the pay settlement and modernisation will remain self-financing.

The Housing Bill fails to address the problem that a record number of families are now officially homeless. The right to buy scheme remains overwhelmingly the most popular mechanism for low-cost home ownership. It is still delivering 50,000 homes a year throughout the United Kingdom. It is accessible and simple to understand. The Welsh Conservative group believes that this Bill should enhance the homebuy scheme, particularly in rural areas, which the Government appears to believe is only populated by foxes, given the amount of time that has been dedicated to them in Parliament. We require a more equitable, better-funded homebuy scheme, which will engage people on low incomes and mortgage lenders to evolve new avenues of funding home ownership.

The Government's record on deporting failed asylum seekers is dismal, as is its record of allowing asylum seekers to disappear into our benefits system. The Government must demonstrate what benefits identity cards would bring. It must explain precisely how identity cards will tackle crime, fraud, illegal immigration and terrorism. They must be frank and accurate—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I am sorry, but your time has run out.

**Ann Jones:** I welcome the opportunity to speak in this debate and the contribution that the Secretary of State for Wales has made,

rhyfel yn ogystal â thanau. Daeth hyn i gost o dros £100 miliwn i drethdalwyr. Mae'r Mesur hwn yn deillio o'r anghydfod hwnnw. A wnaiff yr Ysgrifennydd Gwladol gadarnhau y bydd y Trysorlys yn rhoi'r arian ar gyfer pob agwedd ar y Mesur hwn, fel y maent yn cyfeirio i'r gwasanaeth yng Nghymru, gan gynnwys y cronfeydd sydd eu hangen i fodloni'r setliad cyflogau y cytunwyd arno? Gofynnwn hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol ein sicrhau bod y Mesur hwn yn cynnwys proses effeithiol o negodi cyflogau, a fydd yn annog cytundeb i osgoi streicio, ac y bydd y setliad cyflogau a'r broses foderneiddio yn parhau i ariannu eu hunain.

Nid yw'r Mesur Tai yn ymdrin â'r broblem bod y nifer fwyaf o deuluoedd erioed bellach yn ddigartref yn swyddogol. Y cynllun hawl i brynu yw'r dull mwyaf poblogaidd o bell ffordd ymhlith pobl sydd am brynu tŷ cost isel. Mae'n parhau i ddarparu 50,000 o gartrefi y flwyddyn ledled y Deyrnas Unedig. Mae'n hygyrch ac yn hawdd ei ddeall. Cred grŵp Ceidwadwyr Cymru y dylai'r Mesur hwn wella'r cynllun prynu cartref, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Ymddengys bod y Llywodraeth yn credu mai dim ond llwynogod sy'n byw yn yr ardaloedd hynny, o ystyried yr amser sydd wedi'i neilltuo iddynt yn y Senedd. Mae angen cynllun prynu cartref tecach wedi ei ariannu'n well arnom, a fydd yn cynnwys pobl ag incwm isel a benthycwyr morgeisi er mwyn datblygu ffyrdd newydd o ariannu perchentyaeth

Mae record y Llywodraeth o ran anfon ceiswyr lloches aflwyddiannus o'r wlad yn ofnadwy, yn yr un modd â'i record o ganiatáu i geiswyr lloches ddiflannu yn ein system budd-daliadau. Rhaid i'r Llywodraeth dynnu sylw at fanteision posibl cardiau adnabod. Rhaid iddi esbonio'n fanwl ym mha ffordd y bydd cardiau adnabod yn mynd i'r afael â throseddau, twyll, mewnfudo anghyfreithlon a therfysgaeth. Rhaid iddynt fod yn gywir—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, ond mae eich amser wedi dod i ben.

**Ann Jones:** Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl hon a'r cyfraniad y mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi'i wneud, sy'n dangos

which shows that Peter remains a strong voice in speaking for Wales at the UK Cabinet table. He is Wales's voice in Westminster and Westminster's voice in Wales. The situation in the Tory Party is different, with its shadow Secretary of State for Wales excluded from its shadow Cabinet.

I will only talk about the Public Audit (Wales) Bill and the Housing Bill; I did intend to talk about the Domestic Violence, Crime and Victims Bill, but I will not as time is short and other Members have covered it. I sat on the Committee that scrutinised the draft Public Audit (Wales) Bill and I welcomed that opportunity and how the Bill was put before us in draft form. I hope that the Bill will be given time to go through at Westminster to ensure that we get streamlined and cost-effective arrangements for public audit. We need those effective regulations, but we must also ensure that there is no duplication of regulation. I also welcome the cross-party support for the Bill, and I hope that that will continue.

4.30 p.m.

The main part of my contribution will be on the Housing Bill, and the mandatory licensing scheme for houses in multiple occupation in particular. I have called for such a scheme since I entered the Assembly, and my colleague Chris Ruane, MP for the Vale of Clwyd, has also worked hard to that end. This measure has the potential to make a real impact on the regeneration of towns like Rhyl. It will have a real impact on tackling unscrupulous landlords, many of whom are happy to make their living off the backs of deprived people. I remind Members of the findings of the Welsh Affairs Select Committee in its investigations into social exclusion. One section of its report states:

'We were simply appalled by the state of housing in multiple occupation which we saw in Rhyl. Clearly, Rachmanism is not, as we had hoped, a thing of the past.'

With the introduction of the licensing scheme, it will now become a thing of the

bod Peter yn parhau i fod yn llais cryf wrth siarad dros Gymru yng Nghabinet y DU. Llais Cymru yn San Steffan a llais San Steffan yng Nghymru ydyw. Mae'r sefyllfa yn y Blaid Dori'aid yn wahanol gan nad yw Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr wrthblaid honno yn rhan o'i Chabinet.

Dim ond am Fesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) a'r Mesur Tai y byddaf yn siarad; yr oedd yn fwriad gennyf siarad am y Mesur Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr, ond ni wnaif hynny gan fod amser yn brin a chan fod Aelodau eraill wedi'i drafod. Yr oeddwn yn rhan o'r Pwyllgor a graffodd ar y drafft o Fesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) a chrosawais y cyfle hwnnw a'r ffordd y cyflwynwyd y Mesur ger ein bron ar ffurf ddrafft. Gobeithiaf y rhoddir amser ar gyfer y Mesur yn San Steffan er mwyn sicrhau y cawn drefniadau archwilio cyhoeddus symlach a chost-effeithiol. Mae angen y rheoliadau effeithiol hynny arnom, a rhaid inni sicrhau hefyd na chaiff rheoliadau eu dyblygu. Croesawaf y gefnogaeth drawsbleidiol i'r Mesur hefyd, a gobeithiaf y bydd hynny'n parhau.

Bydd prif ran fy nghyfraniad yn ymwneud â'r Mesur Tai, a'r cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer tai amlfeddiannaeth yn benodol. Yr wyf wedi galw am gynllun o'r fath ers imi ddechrau yn y Cynulliad, ac mae fy nghyd-aelod Chris Ruane, yr AS dros Ddyffryn Clwyd, wedi gweithio'n galed i'r perwyl hwnnw hefyd. Mae'n bosibl y caiff y cam hwn effaith wirioneddol ar y dasg o adfywio trefi megis y Rhyl. Caiff effaith wirioneddol ar y dasg o fynd i'r afael â landlordiaid diegwyddor, y mae llawer ohonynt yn fodlon ennill eu bywoliaeth drwy fanteisio ar bobl ddifreintiedig. Atgoffaf yr Aelodau o ganfyddiadau'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn ei ymchwiliadau i allgáu cymdeithasol. Noda un adran o'i adroddiad:

Yr oedd cyflwr tai amlfeddiannaeth a welsom yn y Rhyl yn ddychrynlyd. Mae'n amlwg nad yw Rachmaniaeth wedi diflannu, fel yr oeddem wedi gobeithio.

Drwy gyflwyno'r cynllun trwyddedu, bydd yn diflannu yn awr. Mae tua 900 o dai

past. There are about 900 houses in multiple occupation in Rhyl, mainly concentrated in one area, many of which do not reach basic standards. There is threadbare carpeting, bare boards, peeling wallpaper, cracked or boarded-up windows, partially caved-in ceilings, loose and often dangerous wiring, waste pipes that protrude from the buildings, ill-equipped kitchens that lack proper ventilation, blocked fire escapes and so on. These problems are prevalent in such housing in my constituency, and this Bill will do an awful lot to improve the lives of my constituents. The Queen's Speech offers a fair future for many of our constituents.

**Jenny Randerson:** The Secretary of State has delivered a bland statement—so bland that it could have been the Queen herself delivering it—which deliberately glosses over hugely controversial measures. Even more controversial, from the point of view of the people of Wales, are those measures that have been omitted. Reference was made to the Assembly Government's four bids for legislation, but they are just the tip of the iceberg. Other measures were in the pipeline, such as the Assembly's desire to make St David's Day as a public holiday, to which the UK Labour Government has already blown a giant raspberry.

The UK Government's treatment of the annual legislative bids is the biggest argument for, and the most tangible evidence of, the need for the Assembly to have legislative powers. At least this year we will not hear the usual argument from the Secretary of State that he pressed hard but that time could not be found, because, as the Leader of the House, it is he who finds that time. In his statement, the Secretary of State said that 'society can and should be more equal'. How can he stand before us and say that, while backing proposals for top-up fees? I cannot imagine a more divisive proposal. It will not only deter students from families of modest means from going to university, but will create elite and second-class universities. We will inevitably have a situation where poorer students will choose to go to cheaper universities.

amlfeddiannaeth yn y Rhyl, mewn un ardal yn bennaf, ac nid yw llawer ohonynt yn cyrraedd safonau sylfaenol. Ceir carpedi wedi treulio, estyll moel, papur wal sy'n pilio, ffenestri sydd wedi torri neu wedi'u gorchuddio, nenfydau sydd wedi cwympo'n rhannol, gwifrau rhydd sy'n aml yn beryglus, pibellau gwastraff sy'n ymwthio allan o adeiladau, ceginau heb offer nac awyru priodol, diangfeydd tân caeëdig ac ati. Mae'r problemau hyn yn gyffredin mewn tai o'r fath yn fy etholaeth, a bydd y Mesur hwn yn gwneud llawer iawn i wella bywydau fy etholwyr. Mae Araith y Frenhines yn cynnig dyfodol teg i lawer o'n hetholwyr.

**Jenny Randerson:** Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyflwyno datganiad di-liw—mor ddi-liw fel mai'r Frenhines ei hun a allai fod wedi'i gyflwyno—sy'n gwneud yn fach o fesurau dadleuol iawn yn bwrpasol. O safbwynt pobl Cymru, yr hyn sydd fwyaf dadleuol yw'r mesurau hynny sydd wedi'u hepgor. Cyfeiriwyd at bedwar cynnig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer deddfwriaeth, ond megis dechrau yw'r rheini. Yr oedd mesurau eraill ar y gweill, megis awydd y Cynulliad i nodi Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl gyhoeddus, ond mae Llywodraeth Lafur y DU wedi wffio hynny eisoes.

Ffordd Llywodraeth y DU o drin y cynigion deddfwriaethol blynyddol yw'r ddatl fwyaf a'r dystiolaeth fwyaf diriaethol o blaid rhoi pwerau deddfwriaethol i'r Cynulliad. O leiaf eleni ni fyddwn yn clywed y ddatl arferol gan yr Ysgrifennydd Gwladol iddo bwysu'n galed ond na ellid dod o hyd i amser, oherwydd, yn rhinwedd ei swydd fel Arweinydd y Tŷ, ef sy'n gorfod dod o hyd i'r amser hwnnw. Yn ei ddatganiad, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol y gall cymdeithas fod yn fwy cyfartal ac y dylai fod yn fwy cyfartal. Sut y gall sefyll ger ein bron a dweud hynny, tra'n cefnogi cynigion i gyflwyno ffioedd ychwanegol? Ni allaf ddychmygu cynnig mwy rhwygol. Bydd yn rhwystro myfyrwyr o deuluoedd ag incwm cymharol fach rhag mynd i'r brifysgol, ac yn creu prifysgolion elit a phrifysgolion eilradd hefyd. Mae'n anochel y cawn sefyllfa lle y bydd myfyrwyr tlotach yn dewis mynd i brifysgolion rhatach.

As Assembly Member for Cardiff Central, I am particularly concerned about the proposals on asylum seekers. They will be appallingly bad for the victims of persecution, who look to the UK for protection. The proposals will destroy the UK's reputation as a liberal-minded nation, where victims of persecution can seek refuge. Instead of dealing with the notoriously poor standards in the Home Office, the Government is yet again turning its fire on genuine refugees. It is pandering to the lowest common denominator, thereby managing to leap to the right, over Michael Howard, in the process.

In this Queen's Speech, all hope for the ASW pension holders disappeared, because the pension proposals will not come into force until 2005. I also greatly regret the lack of a transport Bill, as this country needs its transport to be integrated to develop its economy. We have asked for such a Bill two years running. Finally, I want to welcome the inclusion of a Bill to license housing in multiple occupation. We have been promised that since 1997. It has been in the Queen's Speech before; I hope that this is the year for it.

**Denise Idris Jones:** Croeso cynnes i'r Cynulliad, Ysgrifennydd Gwladol. Mae'n fantais cael llais cryf dros Gymru yn San Steffan.

I am delighted to welcome the transfer of responsibility to the Assembly for student support for further and higher education students. Thanks to this move, the Assembly learning grant, and the extra support provided by the Welsh Assembly Government, more young people will be able to benefit from higher education. This move will enable Welsh Labour to deliver yet another of its manifesto commitments: ruling out top-up fees for Welsh students until 2007. I welcome that, and it proves, once again, our commitment to widening access to higher education. This will allow the Welsh Assembly Government to continue to prioritise help to our poorest students.

The higher education legislation provided for

